

# Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

## **GŴYS A RHAGLEN**

## **SUMMONS AND AGENDA**

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O  
GYNGOR SIR  
YNYS MÔN**

**MEETING OF THE  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR  
SWYDDFA'R SIR  
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER  
COUNCIL OFFICES  
LLANGFNI**

**DYDD MAWRTH  
30 MEDI 2014  
am 2.00 o'r gloch**

**TUESDAY  
30 SEPTEMBER 2014  
at 2.00 pm**

## R H A G L E N

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

### 2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.

### 3. DATGANIAD CYFRIFON 2013-14

- I adrodd bod y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod ar 23 Medi, 2014 wedi penderfynu y dylai'r Cyngor Sir dderbyn yr argymhelliad a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2013-14.

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Medi, 2014.

### 4. YMATEB I'R PAPUR GWYN AR AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. - I DDILYN

### 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

*"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Deddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

### 6. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – CYNLLUN DIRPRWYO (STRWYTHUR Y GWASANAETHAU TG)

Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO / CYNGOR SIR ARBENNIG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>23 MEDI 2014 / 30 MEDI 2014</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>CYFRIFON TERFYNOL 2013/14</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ADRODDIAD YNGHYLCH CYFLWYNO DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL, GAN WNEUD SYLWADAU AR Y PRIF FATERION SY'N CODI O'R ARCHWILIAD O'R CYFRIFON</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) DROS DRO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>ARGYMELL DERBYN Y DATGANIAD</b>

## 1. CEFNDIR

**1.1** Cyflwynwyd cyfrifon drafft y Cyngor Sir ar gyfer 2013/14 i'w harchwilio ar 22 Gorffennaf 2014. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi ei gwblhau i raddau helaeth ac mae'r Adroddiad gan yr Archwiliwr wedi'i gyhoeddi. Mae nifer o newidiadau i'r drafft wedi eu hymgorffori yn y Cyfrifon. Ar yr amod y byddant yn cael eu cadarnhau gan y Cyngor Sir, bydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), Swyddog Adran 151 Dros Dro y Cyngor ac fe'u cyhoeddir ar ôl derbyn barn yr Archwiliwr.

## 2. ANSAWDD Y BROSES

- 2.1** Rwy'n falch o ddweud mai 2013/14 yw'r drydedd flwyddyn yn olynol y llwyddwyd i gwrdd â dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig.
- 2.2** Rwyf hefyd yn falch o gydnabod bod y gwelliannau yn y broses archwilio a nodwyd y llynedd wedi parhau a bod yr holl faterion a gododd yn ystod yr archwiliad wedi cael sylw'n brydlon ac yn foddhaol.

## 3. NEWIDIADAU I'R CYFRIFON

- 3.1** Mae manylion y prif newidiadau i'r cyfrifon drafft i'w gweld Adroddiad yr Archwiliwr ac felly, ni chânt eu rhestru yma eto. Efallai y bydd angen gwneud mân gywiriadau i destunau ac i sicrhau cysondeb cyn y gellir llofnodi'r cyfrifon.
- 3.2** Mae'r newidiadau sylweddol yr oedd angen eu gwneud i'r datganiadau drafft wedi eu cyfyngu'n bennaf i:
- Newidiadau i werth yr ymrwymiad o ran y Gronfa Bensiwn yn dilyn derbyn adroddiad Actiwaraid diwygiedig gan Hymans Robertson (Actiwari) ar 12 Awst 2014.
  - Newidiadau i'r Fantolen mewn perthynas â symudiadau ym mhrisiadau asedau sefydlog.
  - Newidiadau i lefelau'r arian wrth gefn a'r darpariaethau i adlewyrchu gofynion diwygiedig yn dilyn archwiliad, yn arbennig felly mewn perthynas â safle tirlenwi Penhesgyn lle gwnaed trosglwyddiad rhwng yr arian wrth gefn a'r ddarpariaeth i gydymffurfio gyda'r cyngor a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran costau ôl-ofal y math hwn o gyfleuster.
  - Newidiadau i'r dadansoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant i adlewyrchu gwallau cyfadfer mewn incwm a gwariant.

#### **4. NEWIDIADAU HWYR A GWYBODAETH YCHWANEGOL**

- 4.1** Mae'r Datganiad Cyfrifon yn dwyn ynghyd nifer o eitemau o wybodaeth sy'n gyfrifoldeb trydydd parti ond sy'n cael effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Rydym yn dwyn meysydd pryder i sylw'r Pwyllgor hwn. Eleni, hoffwn ddwyn sylw'r Pwyllgor at sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cynnwys amcangyfrif o gyfrifoldeb pensiwn y Cyngor yn seiliedig ar ffigyrau a ddarparwyd gan actiwari a benodwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae adolygiad o'r Adroddiad Actiwaraidd mewn perthynas ag IAS 19 (buddion i weithwyr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Buddion Diffiniedig Llywodraeth Leol wedi dwyn i sylw anghysonderau rhwng y fethodoleg o weithio allan asedau ac ymrwymadau net yr Awdurdod rhwng y gronfa gaeedig (cyn ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996) a'r gronfa gyfredol (ar ôl ad-drefnu).

Canfuwyd bod yr adroddiad actiwaraidd gwreiddiol a ddefnyddiwyd ar gyfer cwblhau'r Datganiad Cyfrifon Drafft yr Awdurdod yn cynnwys anghysonderau o ran y ddwy gronfa. O'r herwydd, cafodd asedau Cronfa Bensiwn yr Awdurdod a'r ymrwymadau eu haddasu gan £11.6m yn y Cyfrifon Terfynol.

#### **5. Y BROSES GYMERADWYO**

- 5.1** Y Cyngor Sir sydd bellach yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Y Pwyllgor Archwilio sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sgrwtineiddio'r cyfrifon. Rwy'n argymhell felly fod y Pwyllgor Archwilio yn gofyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r cyfrifon ar 23 Medi 2014.

#### **6. ARGYMHELLIAD**

- 6.1** Cynigir bod y Pwyllgor Archwilio yn argymhell i'r Cyngor Sir gadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon 2013/14.
- 6.2** Bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol ac yn cyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

**RICHARD MICKLEWRIGHT  
PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)  
A SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO**

**18 MEDI 2014**

**CYNGOR SIR  
YNY S MÔN**

**DATGANIAD  
CYFRIFON  
2013/14**

# CYNNWYS

		<b>Tudalen</b>
	Rhagymadrodd Eglurhaol	3
	Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	13
	Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	14
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	16
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	17
	Y Fantolen	18
	Datganiad Llif Arian	19
Nodyn 1	Datganiad o Bolisiau Cyfrifo	20
Nodyn 2a	Safonau cyfrifo a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu hyd yma	39
Nodyn 2b	Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi a'u mabwysiadu	
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	40
Nodyn 4a	Tybiaethau a wnaed am y dyfodol a ffynonellau eraill o amcangyfrif ansicr	41
Nodyn 4b	Addasiadau ar gyfer y cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisiau cyfrifo ac amcangyfrifon a chamgymeriadau.	42
Nodyn 5	Eitemau Sylweddol o Incwm a Gwariant	44
Nodyn 6	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	44
Nodyn 7	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu dan Reoliad	45
Nodyn 8	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	46
Nodyn 9	Balansau Ysgolion	47
Nodyn 10	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	48
Nodyn 11	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	48
Nodyn 12	Gwariant Gweithredol Arall	51
Nodyn 13	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	51
Nodyn 14	Incwm Treth a Grantiau Amhenodol	52
Nodyn 15	Eiddo, Offer a Chyfarpar	53
Nodyn 16	Ymrwymadau Cyfalaf Sylweddol	55
Nodyn 17	Asedau Treftadaeth	55
Nodyn 18	Eiddo Buddsoddiad	56
Nodyn 19	Asedau Annirweddol	57
Nodyn 20	Gwariant Cyfalaf a Chyllido	57
Nodyn 21	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	58
Nodyn 22	Prydlesau	58
Nodyn 23	Rhestrau stoc	58
Nodyn 24	Dyledwyr	58
Nodyn 25	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	59
Nodyn 26	Credydwyr	59

		<b>Tudalen</b>
Nodyn 27	Darpariaethau	59
Nodyn 28	Dadansoddiad o Addasiadau i Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	61
Nodyn 29	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	61
Nodyn 30	Llif Arian o Weithgareddau Ariannu	61
Nodyn 31	Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau	62
Nodyn 32	Gweithrediadau Masnachol Sylweddol	66
Nodyn 33	Lwfansau Aelodau	66
Nodyn 34	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	66
Nodyn 35	Pecynnau Ymadael	67
Nodyn 36	Ffioedd Archwilio Allanol	68
Nodyn 37	Incwm Grantiau	68
Nodyn 38	Partion Cysylltiedig	69
Nodyn 39	Cronfeydd Ymddiriedol	71
Nodyn 40	Cynllun Pensiynau Athrawon	72
Nodyn 41	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	72
Nodyn 42	Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ymrwymadau Posibl	77
Nodyn 43	Asedau Amodol	77
Nodyn 44	Offerynnau Ariannol	78
Nodyn 45	Natur a lefel y risgiau sy'n codi o'r offerynnau ariannol	81
Nodyn 46	Cyd-bwyllgorau	84
Nodyn 47	Troi Tai'n Gartrefi	84
Nodyn 48	Y Dreth Gyngor	84
Nodyn 49	Trethi Cenedlaethol Annomestig (TCA)	85
	Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Datganiad Incwm a Gwariant - Datganiad Symudiadau ar Falans CRT - Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai	86-89
	Atodiad 1 – Datganiad Parti Cysylltiedig cynrychiolaeth cydranddeiliaid gyda sefydliadau trydydd parti	90-91
	Geirfa	92-98
	Datganiad Llywodraethu Blynyddol	99 - 111

## RHAGYMDRODD EGLURHAOL

### 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014.

Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn er mwyn rhoi gwybodaeth glir am sefyllfa ariannol y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau o'r Cyngor, gweithwyr a phartion eraill sydd â diddordeb.

Y nod yw darparu gwybodaeth ynghylch:-

- Costau'r gwasanaethau a ddarparwyd yn 2013/14.
- O ble y daeth yr arian.
- Yr hyn yr ydym yn berchen arno a'n dyledion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Pwrpas y rhagair hwn yw egluro sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys y prif ddylanwadau sy'n cael effaith ar y cyfrifon, a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifo.

Yn y rhagair hwn byddwn yn:-

Nodi beth yw'r gwahanol elfennau yn y cyfrifon a beth mae'r gwahanol rannau o'r datganiad yn ei ddweud wrthy.

- Crynodeb o berfformiad ariannol y Cyngor yn ystod 2013/14.
- Eglurhad ar y prif ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar y wybodaeth sydd yng Nghyfrifon 2013/14.
- Crynodeb o'r wybodaeth allweddol yn y cyfrifon, ynghyd ag eglurhad ar y rhesymau dros unrhyw newidiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Mae Datganiad Cyfrifon 2013/14 wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio'r arferion cyfrifo gorau a bennwyd gan Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r rhagair yn cynnig canllawiau dealladwy ar y materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y Cyfrifon ynghyd â throsolwg o sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol.

Mae Cyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn am 2013/14 yn cynnwys yr isod-

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon** – mae'n nodi cyfrifoldebau'r Cyngor a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) dros dro y Cyngor, sef y Swyddog Adran 151 dynodedig;
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** - yn cynnwys y systemau a'r prosesau sy'n galluogi'r awdurdod i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys y system reoli fewnol a ddefnyddir i reoli risg. Mae'n amlinellu prif nodweddion y system hon a pha mor effeithiol ydyw.
- **Datganiadau Ariannol** – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys pedwar o ddatganiadau ariannol sylfaenol, sef:-
- **Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth Gefn (MIRS)** - sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor wedi ei ddadansoddi yn ôl arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ac arian wrth gefn nad yw ar gael i'w ddefnyddio. Mae'r gwarged (neu'r diffyg) ar y llinell darparu gwasanaethau yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Cyngor. Ceir mwy o fanylion amdanant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol a godir ar y balans yn y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ac ar gyfer gosod rhenti anheddau. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos y sefyllfa cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd.



- **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio arferion a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o drethiant a grantiau cyffredinol yn unol â rheoliadau statudol. Mae Cynghorau'n codi trethi er mwyn talu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifo. Dangosir y sefyllfa o ran trethiant yn y Datganiad ar y Symudiad yn yr Arian Wrth Gefn.
- **Y Fantolen** - sy'n nodi sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2014 fel y cafodd ei hadlewyrchu yn lefel y balansau a'r arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor ynghyd â lefel yr asedau a'r ymrwymadau a ddelir gan y Cyngor.
- **Datganiad Llif Arian** – sy'n crynhoi'r llif arian i mewn ac allan yn ystod y flwyddyn, yn codi o drafodion gyda thrydydd bartïon i ddibenion referniw a chyfalaf.
- **Y Cyfrif Refeniw Tai** yw cofnod o wariant referniw ac incwm sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Ei brif bwmpas yw sicrhau bod gwariant ar reoli tenantiaethau a chynnal anheddau yn cael ei gydbwysu gan y rhenti a godir ar denantiaid. Mae Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor yn gwbl ar wahân i gronfa gyffredinol y Cyngor.
- **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol** – y bwriedir iddynt egluro'r ffigyrau allweddol a ddangosir yn y datganiadau ariannol. Mae'r nodiadau'n cynnwys y Datganiad ar Bolisiau Cyfrifon sy'n cefnogi ac yn egluro sail y ffigyrau yn y Cyfrifon ac yn nodi'r polisiau cyfrifo pwysicaf a'r technegau amcangyfrifo a ddefnyddir i baratoi'r Cyfrifon;

## 2. FFRAMWAITH STATUDOL

Yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (OS 2005/368 (W.34), fel y cafodd ei ddiwygio, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Mae Rheoliad 25 o Reoliad 2003 Awdurdodau Lleol (Cyllido Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (OS 2003/3239 (W.319), fel y cawsant eu diwygio), yn nodi mai'r Côt Ymarfer ar Gyfrifon Cynghorau Lleol 2012/13 a gyhoddwyd gan CIPFA, sy'n cynrychioli arferion priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Côt Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 a'r Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2013/14 a gyhoeddwyd gan CIPFA ac a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

## 3. NEWIDIADAU YN Y DRINIAETH GYFRIFO

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r driniaeth gyfrifo yn 2013/14 ac o'r herwydd, dim ond newidiadau bychan i'r polisiau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio yn y Cyngor. (Gweler nodyn 2b)

## 4. CRYNODEB O'R FLWYDDYN

Mae'r Cyngor yn gwario arian mewn dwy ffordd; referniw a chyfalaf. Mae gwariant referniw yn digwydd ar eitemau sy'n cael eu defnyddio o fewn blwyddyn ac mae'n cael ei dalu o'r Dreth Gyngor, grantiau gan y Llywodraeth, rhenti ac incwm arall. Mae gwariant cyfalaf fel arfer yn ymwneud â gwariant a fydd yn rhoi budd i'r Cyngor am gyfnod o fwy na blwyddyn. Mae gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido'n bennaf o dderbyniadau cyfalaf, grantiau a chyfraniadau cyfalaf, neu trwy fenthyca.

## 5. GWARIANT AC INCWM REFENIW 2013/14

### Beth yw Gwariant ac Incwm Refeniw?

Cyn dechrau blwyddyn ariannol, mae'r Cyngor yn paratoi ei gyllideb refeniw flynyddol sy'n adlewyrchu'r gwariant a'r incwm y disgwylir y bydd eu hangen yn ystod y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau. Mae gwariant yn ymwneud â chostau rhedeg fel cyflogau gweithwyr a gorbenion, costau trwsio a chynnal, costau ynni, trethi a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag adeiladau'r Cyngor, costau rhedeg ei gerbydau a chost cyflenwadau a gwasanaethau i gefnogi adrannau'r Cyngor. Mae incwm yn ymwneud ag arian a dderbynnir yn sgil gwerthu nwyddau ac arian a ddaw i mewn o ffioedd a thaliadau gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff allanol eraill.

Mae'r Cyngor yn darparu adroddiadau chwarterol ar wariant refeniw ar gyfer y Tîm Rheoli ac Aelodau Portffolio. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi sylw i adroddiadau ar y sefyllfa ariannol a'r perfformiad ariannol bob chwarter.

### Y swm yr oeddem yn bwriadu ei wario a'r hyn a wariwyd mewn gwirionedd

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos ein perfformiad ariannol a'r gwariant net a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Cytunodd y Cyngor ar y gyllideb gwariant ar gyfer 2013/14 ym mis Chwefror 2013. Mae'r gyllideb hon wedi ei diweddarau yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu arian ychwanegol a ddaeth ar gael ac ailbroffilio cyllidebau i mewn i 2013/14 a arweiniodd at gyllideb refeniw derfynol o £129m.

Cyllidwyd hwn gan y Grant Cefnogi Refeniw a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, sef £78.203m, ynghyd â derbyniadau o £22.025m o'r Gronfa Genedlaethol ar gyfer Trethi Annomestig a derbyniadau o £30.212m yn sgil y Dreth Gyngor.

#### a) Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor

Yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2014 derbyniodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor adroddiad yn dangos tanwariant net o £846k yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r sefyllfa alldro yn dangos tanwariant net o £1.217m erbyn hyn.

Yn gyffredinol mae'r tanwariant wedi digwydd oherwydd

- cyfyngiadau cyffredinol ar wariant gan wasanaethau mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol a ragwelwyd yn y Cyngor;

Fodd bynnag, bu cyfres o amrywiadau sylweddol yng nghyllidebau ar draws pob maes gwasanaeth ac mae'r manylion i'w gweld yn y paragraffau a ganlyn:-

#### **Addysg Gydol Oes**

##### *Addysg Ganolog*

Tanwariant net o £118k. Mae yna nifer o feysydd sydd wedi gorwario o fewn y gwasanaeth tra bod eraill wedi tanwario. Gellir crynhoi'r symiau sylweddol fel a ganlyn:-

- Cludiant Disgyblion  
Roedd gorwariant o £177k yn y gyllideb ar gyfer cludo disgyblion i ysgolion a cholegau. Roedd hyn yn cynnwys yr holl sectorau h.y. Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Arbennig yn ogystal â sefydliadau Addysg Bellach.
- Prydau Ysgol Cyfun  
Gorwariant o £172k i'w briodoli'n rhannol i niferoedd uwch yn cymryd prydau ysgol am ddim a'r ffaith bod incwm o brydau ysgol yn yr ysgolion cynradd heb gyrraedd y targed yn y gyllideb.

- Gweinyddu Addysg Ganolog  
Gorwariant o £126k yn y gyllideb hon. Mae'r gorwariant hwn ar draws nifer o feysydd gwasanaeth gan gynnwys cyflenwadau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae tanwariant ar gostau ynni a chanlyniadau gwell nag a ragamcanwyd ar gyfer incwm/cyfraniadau wedi gwrthwyso'r gorwariant hwn yn rhannol.
- Cynnal  
Gorwariant o £135k - yn bennaf oherwydd costau nad oedd darpariaeth gyllidebol ar eu cyfer ar gyfer cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cynnal - roedd y gwasanaeth yn cynnwys cymorth TG, cymorth Cwricwlwm a rheoli gweinyddiaeth.
- Costau Canolog Eraill  
Tanwariant o £92k yn y gyllideb ar gyfer rheoli perfformiad a hynny'n rhannol oherwydd tanwariant ar gostau contractau. Roedd tanwariant hefyd o £96k yn y gyllideb ar gyfer addysgu cartref a salwch, a hynny'n bennaf oherwydd tanwariant ar gostau staffio. Roedd hefyd tanwariant llai o £24k ar Blas am Oes.

## **Gwasanaethau Cymunedol**

### ***Gofal Cymdeithasol***

Roedd y sefyllfa alldro gyda gofal cymdeithasol yn dangos gorwariant net o £180k. Y prif amrywiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yw'r rheini a ganlyn (nid yw hyn yn cynnwys yr uned ddarparu):-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed  
Mae'r maes hwn yn dangos tanwariant o £230k. Mae £84k o'r ffigwr hwn oherwydd swyddi gweigion yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hefyd yn gweld gostyngiad mewn gwariant o ganlyniad i strategaeth i symud i ffwrdd o ofal preswyl i ofal yn y cartref.
- Anabledd Dysgu  
Mae'r maes hwn yn dangos gorwariant o £142k. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i alw na chafodd ei ragweld am leoliadau i oedolion mewn gofal preswyl.
- Anabledd Corfforol  
Mae'r rhain yn dangos gorwariant o £90k yn y gwasanaeth. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i feini prawf cymhwyster tynnach ar gyfer addasiadau yn y cartref.
- Iechyd Meddwl  
Mae'n dangos gorwariant o £275k ac mae'n ganlyniad o gyfuniad o faterion sy'n ymwneud â phwysau ar y gyllideb mewn perthynas â gofal preswyl.
- Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc  
Mae'r gwasanaeth hwn yn dangos tanwariant net o £216k ac mae'n cynnwys tanwariant o £99k o ran Cymorth i Deuluoedd. Yn yr un modd, mae tanwariant o £73k yn y gyllideb ar gyfer plant gydag anabledd. Fodd bynnag, mae gorwariannau mewn rhannau eraill o'r gyllideb; mae hyn yn cynnwys gorwariant o £32k ar gostau cyfreithiol a £106k ar leoliadau all-sirol.

### ***Costau Tai nad ydynt yn gysylltiedig â'r CRT***

Mae'r gwasanaeth hwn yn dangos tanwariant net o £248k. Gwnaed darpariaeth ychwanegol o £53k o fewn y gwasanaeth ar gyfer dyledion drwg mewn perthynas â Phrydlesu Sector Preifat. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn dangos enillion o £256k mewn perthynas ag arian grant a ryddhawyd o gronfeydd grantiau wrth gefn. (Ar ôl cymryd yr addasiadau ar gyfer dyledion drwg a'r gronfa grantiau wrth gefn mae'r tanwariant net yn £45k).

### **Hamdden a Diwylliant**

Bu tanwariant o £138k yn y Gwasanaethau Diwylliant. Y prif amrywiadau oedd y rheini a ganlyn:-

- Costau rhedeg ychwanegol yn yr archifdy newydd wedi arwain at orwariant o £25k. Roedd tanwariant o £15k yn y safleoedd treftadaeth oherwydd gwell perfformiad yn Ynys Lawd. Roedd yr incwm a gafwyd o ffioedd mynediad £21k yn uwch na'r gyllideb ond roedd costau rhedeg ychwanegol o £6k yn gwrthbwysu'n rhannol y perfformiad gwell na'r disgwyl o ran incwm.
- Tanwariant o £5k ar amgueddfeydd ac orielau. Bu gorwariant o 35k yn Oriol Ynys Môn oherwydd incwm llai na'r disgwyl, ond roedd tanwariant o £10k yng Ngharchar a Lllys Biwmares. Roedd tanwariant pellach o £32k yn y gyllideb ar gyfer gweinyddu amgueddfeydd.
- Roedd tanwariant o £90k ar y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn bennaf oherwydd arbedion yn sgil swyddi gweigion, sef £60k. Roedd gorwariannau eraill ar gostau cludo a chyflenwadau a gwasanaethau, sef cyfanswm o £30k.

Roedd y Gwasanaethau Hamdden yn dangos tanwariant cyffredinol o £142k. Y prif amrywiadau oedd y rheini a ganlyn:-

- Gorwariant o £23k ar wasanaethau ar gyfer Cyfleusterau Parciau ac Awyr Agored.
- Mae tanwariant o £158k yn y gyllideb ar gyfer chwaraeon dan do ac adloniant. Mae'r incwm a gynhyrchwyd yn sylweddol uwch na'r gyllideb, sef £120k. Bu gorwariant o £33k hefyd ar gyllidebau fydd yn ymwneud ag adeiladau. Mae'r patrwm hanesyddol o orwario ar y cwrs golff wedi parhau, sef gorwariant o £44k.

### **Datblygu Cynaliadwy**

#### **Priffyrdd a Thrafnidiaeth**

Mae'r Gwasanaeth yn dangos gorwariant net o £191k. Y prif amrywiadau yw'r rheini a ganlyn:-

- Cyllideb Gweithiau (Traffig, Goleuadau a Gwaith Cynnal)  
Gorwariant cyfun o £198k. Rheswm pennaf am y gorwariant hwn oedd yr angen i ymateb i waith brys ychwanegol dros gyfnod y gaeaf.
- Rheoli Datblygu  
Tanwariant o £82k. Roedd hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd methiant i ddenu'r incwm a ragwelwyd.
- Arall  
Tanwariant o £24k ar batrolau croesi plant ysgol. Roedd hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd bod nifer o swyddi croesi plant ysgol wedi bod yn wag yn ystod y flwyddyn. Roedd yr incwm o'r meysydd parcio yn £36k yn llai na'r gyllideb. Roedd hynny oherwydd cyfuniad o wariant llai ar daliadau contract ac incwm ychwanegol y tu hwnt i'r gyllideb.

#### **Rheoli Gwastraff**

Roedd y cyfanswm tanwariant yn £265k. Y prif eitemau oedd gwelliannau o ran y trefniadau Rheoli Nwy yng nghanolfan Penhesgyn (£159k), a llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi a arweiniodd at arbedion o £60k.

#### **Cynllunio**

Y cyfanswm gorwariant oedd £211k. Y prif eitemau oedd:-

Roedd costau cyfreithiol ac ymgynghoriaeth £165k yn uwch na'r gyllideb oherwydd anghydfod ynghylch penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio. Roedd y cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer yr uned bolisi yn £23k yn uwch na'r gyllideb. Roedd datblygiadau Ynys Ynni £46k yn uwch na'r gyllideb oherwydd gwariant ychwanegol ar gyfrifiaduron.

## **Dirprwy Brif Weithredwr**

- TGCh  
Tanwariant o £167k yn y gwasanaeth hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer staff a oedd wedi tanwario oherwydd swyddi gweigion.
- Cyfreithiol a Gweinyddol  
Roedd tanwariant o £174k yn y gwasanaeth hwn o ganlyniad i gyfuniad o elfennau gwasanaeth gwahanol o fewn y gyllideb. Mae tanwariant o £42k yn y Gwasanaethau Pwyllgorau. Mae tanwariant yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gostau staffio oherwydd bod swydd Cyfreithiwr yn wag.

## **Cyfrif Refeniw Tai**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn nodi costau ac incwm mewn perthynas â stoc y Cyngor o dai. Yn 2013/14 llwyddodd y cyfrif i gyllido'r holl wariant gweithredol a gwneud cyfraniadau cyfalaf o £0.488m tuag at gynnal ac uwchraddio'r stoc yn y tymor hir. Roedd gwarged o £499k yn y gyllideb CRT ar gyfer y flwyddyn gyda gwarged alldro o £1.19m. Y prif resymau am hynny oedd:

- Roedd y galw am gyfraniadau refeniw gan y rhaglen gyfalaf yn £1.2m yn llai na'r disgwyl.
- Cafwyd canlyniadau da o ran derbyn rhenti ac roedd y perfformiad yn £500k yn well na'r disgwyl.
- Fodd bynnag, roedd y costau cyffredinol £300k yn uwch na'r disgwyl. Roedd hyn o ganlyniad i gostau ychwanegol yn ymwneud â gweithredu system gyfrifiadurol newydd.
- Roedd gwaith i uwchraddio lifftiau, larymau tân a chostau cyfleusterau carthffosiaeth yn £200k yn uwch na'r gyllideb.
- Roedd gwaith trwsio a chynnal a wnaed gydag arian refeniw yn uwch na'r disgwyl.

Fodd bynnag, ar ôl cymryd i ystyriaeth addasiad yr oedd yn rhaid ei wneud yn unol â'r gyfraith a'i gredydu i'r CRT, gwelwyd cynnydd o £1.190m y CRT gan adael balans o £1.672m. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y CRT yn y Datganiadau Atodol i'r Cyfrifon ar dudalen 88.

## **Defnyddio arian refeniw wrth gefn a balansau**

### **Cronfeydd y Cyngor**

Gwelwyd gostyngiad o £233k yn y balans yng Nghronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2014, sef o £5,910m i £5.677m. Gellir gweld y symudiadau yng Nghronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad ar Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar dudalen 17.

### **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd**

Ar 1 Ebrill 2013 roedd gan y Cyngor £16.627m mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Symudwyd £1.779m o arian yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at gynnydd yn y balansau, sydd bellach yn £18.406m (gweler Nodyn 8 - tudalen 47).

### **Balansau Ysgol**

Mae cronfeydd wrth gefn ar gyfer ysgolion wedi eu cyfyngu i'r defnydd a gymeradwywyd gan yr ysgolion unigol ac mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol. Roedd gan saith ysgol diffyg yn eu cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (10 yn y flwyddyn ariannol gynt) ac mae nifer o ysgolion eraill yn rhagweld diffygion yn eu cyllidebau i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn roedd gwariant net gan ysgolion wedi disgyn, gan arwain at £0.334m ychwanegol yn y cronfeydd wrth gefn sy'n gwneud cyfanswm o £1.518m ar 31 Mawrth 2014 (£1.184m ar 31 Mawrth 2013). Mae manylion am werth y cronfeydd wrth gefn fesul ysgol i'w gweld yn Nodyn 9 i'r Cyfrifon ar dudalen 48.

## GWARIANT CYFALAF 2013/14

### Beth yw Gwariant Cyfalaf?

Mae gwariant cyfalaf yn golygu cost darparu neu wella asedau neu wariant arall lle mae'r manteision yn parhau y tu draw i'r flwyddyn ariannol dan sylw.

### Yr hyn yr oeddem wedi bwriadu ei wario

Cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £28.8m ar gyfer 2013/14. Er nad oedd unrhyw brosiectau mawr wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn, fe gwblhawyd dau brosiect mawr. Y cyntaf oedd cwblhau'r gwaith gwella yn safle Penhesgyn a'r ail oedd adeiladu ysgol anghenion arbennig newydd, sef Canolfan y Bont.

### Yr hyn a wariwyd gennym mewn gwirionedd

Rhoddodd y Pwyllgor Gwaith sylw i adroddiad ar yr alldro cyfalaf yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2014, a oedd yn dangos bod y Cyngor mewn gwirionedd wedi gwario £24.1m ar brosiectau cyfalaf yn 2013/14.

Nodir isod fanylion y gwariant yn erbyn cyllidebau prosiect unigol:-

<i>Prosiect</i>	<i>Cyllideb ar gyfer 2013/14 £000</i>	<i>Gwariant Gwirioneddol yn 2013/14 £000</i>	<i>Amrywiad yn y Flwyddyn £000</i>
<b>Tai</b>			
Tai Cyngor	4,948	3,169	(1,779)
Grantiau Preifat	2,721	1,573	(1,148)
Tai Fforddiadwy	513	120	(393)
<b>Addysg</b>			
Ysgol y Bont	6,368	6,707	339
Ysgolion 21ain ganrif – Caerdybi	587	10	(577)
Dechrau'n Deg	535	527	(8)
Dysgu yn y Gymru Ddigidol	590	614	24
Arall	802	603	(199)
<b>Adfywio</b>			
Dat. Econ. – Isadeiledd Strategol	450	235	(215)
Dat. Econ. – Prosiect Amgylchedd yr Arfordir	80	89	9
Dat. Econ. – Eraill	1,077	356	(721)
Eiddo – Gwelliannau i Fân-ddaliadau	(1,369)	683	2,052
Eiddo - Arall	1,046	593	(453)
Penhesgyn	6	295	289
Cynllunio – Adfywio (3 tref)	2,000	830	(1,170)
Priffyrdd – Menter Benthycu	1,800	1,785	(15)
Priffyrdd – Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol	663	621	(42)
Priffyrdd – Grantiau Llwybrau Diogel mewn	422	438	16
Cymunedau	963	585	(378)
Priffyrdd – Grantiau Eraill			
<b>Arall</b>			
Tâl Cyfartal 2013 /14	4,610	2,907	(1,703)
Cynlluniau Adrannol Eraill			
<b>Cyfanswm</b>	<b>28,812</b>	<b>22,740</b>	<b>(6,072)</b>

Roedd y gwariant cyfalaf o £22.74m yn £6.07m yn llai na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Mae hyn yn is nag alldro llynedd o £25.4m, fel a ganlyn:-

Bu gostyngiad yn y gwariant blynyddol o ganlyniad i:-

Llai o weithgaredd ar rai prosiectau/cynlluniau sy'n mynd rhagddynt gan gynnwys:

- (i) Gwaith CRT (£5.5m yn llai na 2012/13) yn bennaf oherwydd cwblhau rhaglwen waith SATC (Safon Ansawdd Tai Cymru) a gwblhawyd yn ystod trydydd chwarter 2012/13 a
- (ii) Gostyngiadau eraill fel a ganlyn:

- Mân-waith mewn ysgolion – roedd y gyllideb yn fwy yn 2012/13 oherwydd roedd angen bwylwr newydd yn un o'r ysgolion (£0.6m)
- Penhesgyn – cwblhawyd y rhan fwyaf o'r prosiect yn 13/14 (£0.7m)

- Mân-ddaliadau - llai o weithgaredd oherwydd na chafwyd derbyniadau cyfalaf ar y lefel a ragwelir (mae hon yn rhaglen y mae'r cyllid ar ei chyfer yn cael ei neilltuo i'r prwpas penodol hwn ac yn cael ei chyllido o werthiant mân-ddaliadau) (£0.4m).
- Roedd Prosiectau Amgylcheddol Arfordirol Ynys Môn yn tynnu at eu terfyn yn 2013/14 (£0.4m).
- Cynlluniau eraill – llithriad mewn nifer o fân-feysydd amrywiol (£0.3m).

(iii) cynlluniau a gwblhawyd yn 2012/13 fel y Gwaith Amgylcheddol a Strydlun a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (£0.4m), gwaith a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio canolfannau hamdden (£0.8m yn 2012/13) a chynlluniau eraill (£0.3m).

Gwrthbwsywyd hyn i raddau gan wariant ychwanegol o ganlyniad i:-

- (i) y grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol a gyllidir gan LIC (£0.6m).
- (ii) mwy o weithgarwch ar brosiectau a chynlluniau fel: grantiau tai sector preifat (£0.7m), ail-leoli Ysgol y Bont gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru (£2.4m), a phrosiectau a chynlluniau eraill (£1.9m).

Cafwyd nifer o orwariannau bychain yn ystod y flwyddyn gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido o gyllidebau referniw'r gwasanaethau. Y ddau gynllun mwyaf sylweddol a aeth y tu hwnt i'r arian oedd wedi ei ddyrannu yn y gyllideb ar eu cyfer oedd cynllun ail-leoli Ysgol y Bont, sef £0.3m yn ychwanegol, a gwaith gwella yn y Ghanolfan Ailgyrchu Gwastraff Cartref ym Mhenhesgyn lle gwelwyd gorwariant o £0.3m. Roedd y gorwariant ar ail-leoli Ysgol y Bont wedi digwydd yn bennaf oherwydd cyfnod adeiladu estynedig ac eitemau ychwanegol nad oedd modd eu rhagweld. Roedd y gorwariant yng nghanolfan Penhesgyn yn rhannol oherwydd costau ychwanegol yn y cyfnod dylunio ar gyfer y prosiect, ynghyd â gwaith ychwanegol a gomisiynwyd i wella asedau isadeiledd mewn perthynas â ffyrdd mynediad a pharcio; cafodd y gorwariant ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau.

## Adnoddau allanol y cyllidebwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn

### Grantiau Cyfalaf

Hawliwyd y rhan fwyaf o'r grantiau cyfalaf yn llawn.

### Derbyniadau Cyfalaf

Cafwyd £928k o dderbyniadau cyfalaf gwirioneddol yr oedd modd eu defnyddio. Amcangyfrifwyd y byddai'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd amdanynt yn dod ag arian o £1.6m i mewn. Roedd y diffyg yn bennaf oherwydd methiant i werthu tiroedd fel y rhagwelwyd ond roedd llithriad yn y rhaglen yn gwneud iawn am y diffyg hwn.

### Sut y talwyd am y rhaglen gyfalaf

Mae cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn dibynnu ar adnoddau grantiau, derbynebion cyfalaf a ragwelir ac ar lefel o fenthycy sy'n agos at y lefel a dybiwyd gan Cynulliad Cymru wrth weithio allan y gefnogaeth referniw.

	Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cyfanswm £000
<b>Gwariant Cyfalaf</b>	<b>20,936</b>	<b>3,169</b>	<b>24,105</b>
Grantiau a Chyfraniadau	10,567	2,600	13,167
Cyfraniadau Refeniw	0	488	488
Derbyniadau Cyfalaf	847	81	928
Benthycy gyda Chefnogaeth	992	0	992
Benthycy Di-gefnogaeth	5,985	0	5,985
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	1,180	0	1,180
<b>Cyfanswm y Cyllid</b>	<b>19,571</b>	<b>3,169</b>	<b>22,740</b>
<b>Yr Adnoddau oedd ar gael ar 31 Mawrth 2014</b>			
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf	565	0	565
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwella Cyfleusterau Hamdden	196	0	196
Benthycy gyda chefnogaeth a ddygwyd ymlaen	4,050	0	4,050
<b>Cyfanswm ar gael</b>	<b>4,811</b>	<b>0</b>	<b>4,811</b>

Roedd gwerth £2.07m (2012/13: £6.8m) o ymrwymadau cyfalaf yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cronfeydd wrth gefn cyfalaf o £0.56m a chapasiti benthyca a gymeradwywyd ac sydd heb ei ddefnyddio o £4.1m wedi cael eu rhoddi o'r neilltu i gwrdd yn rhannol â'r ymrwymadau hyn. Rhagwelir y bydd balans gweddilliol yr ymrwymadau cyfalaf cyfredol a chostau prosiectau newydd sy'n cael eu dwyn ymlaen yn y blynyddoedd i ddod yn cael eu cyllido o grantiau cyfalaf, derbyniadau o werthu asedau a benthyciadau.

### **Y PRIF DDYLANWADAU AR GYFRIFON 2013/14**

Mae yna nifer o ffactorau allanol sydd wedi cael effaith sylweddol ar gyfrifon 2013/14 a sefyllfa ariannol y Cyngor; effaith yr economi a'r strategaeth fenthyca'r Cyngor: Effaith yr economi ar y diffyg yn y gronfa bensiwn.

### **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS**

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i'r cyfanswm refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigon i gwrdd â gwariant a bod rhaid i'r arian a ddaw i mewn fod yn ddigon i gwrdd â'r arian sy'n mynd allan. Rhan allweddol o'r gwaith Rheoli'r Trysorlys yw sicrhau bod y llif arian wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo'i angen.

### **BENTHYCA**

Yn unol â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd, roedd y Cyngor wedi tanfenthyca (benthyca'n fewnol) erbyn diwedd y flwyddyn, sef sefyllfa a ddechreuodd yn 2011/12. Roedd hynny'n golygu nad oedd yr angen i fenthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) yn cael ei gyllido'n llawn trwy fenthyciad oherwydd defnyddio cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor fel mesur dros dro. Mae'r dull hwn o weithredu'n un ddoeth oherwydd bod elw ar fuddsoddiadau yn isel a risg gwrthbartion yn uchel. Nid oedd disgwyl chwaith y byddai cyfraddau llog yn codi'n sydyn.

Roedd y Cyngor mewn sefyllfa o danfenthyca erbyn dechrau'r flwyddyn (£10.3m). Yn ystod y flwyddyn aeddfedodd un benthyciad o £6.5m ac fe gynyddodd angen y Cyngor i fenthyca gan £3.8m a arweiniodd at sefyllfa o danfenthyca o £20.6m erbyn diwedd y flwyddyn. O ganlyniad i barhau i fenthyca'n fewnol, roedd y benthyciadau erbyn diwedd y flwyddyn yn £89.6m (31 Mawrth 2013: £89.59m) gyda chyfradd gyfartalog o 5.72% (31 Mawrth 2013: 5.53%).

### **Effaith yr economi ar strategaeth fenthyca'r Cyngor**

Mae'r hinsawdd ariannol gyfredol wedi parhau i ddylanwadu ar ymagwedd y Cyngor tuag at ei weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Strategaeth y Cyngor yw defnyddio balansau arian i gyllido gwariant cyfalaf yn hytrach na benthyciadau tymor hir newydd. Mae hyn yn golygu y gellir osgoi cadw gafael ar asedau ariannol (arian a buddsoddiadau) nad oeddent yn cynhyrchu elw sylweddol. Mae gan y Cyngor ddigon o falansau arian i weithredu'n effeithiol a gall gael at arian ychwanegol ar rybudd byr am gost isel iawn os bydd angen.

### **BUDDSODDIADAU (arian parod a ddelir fel adnau am ragor na 3 mis)**

Gweithredodd y Cyngor o fewn ei Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y flwyddyn. Roedd y buddsoddiadau erbyn diwedd y flwyddyn yn £9.2m (31 Mawrth 2013: 13.5m).

### **Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2014**

Yn ystod 2013/14, roedd arian wrth gefn y Cyngor yn £152.072m, cynnydd o £1.611m o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd y cynnydd hwn i'w briodoli i gyfuniad o arian wrth gefn defnyddiadwy yn codi gan £2.793m o £24.47m i £27.272m a'r balans o ran yr arian wrth gefn nad oedd modd ei ddefnyddio yn gostwng o £125.982m i £124.800m, gostyngiad o £1.182m. Gwelir dadansoddiad o falansau'r arian wrth gefn nad oes modd ei ddefnyddio yn nodyn 11 ar dudalen 49.

Mae'r Fantolen hefyd yn dangos cynnydd yn y prisiadau o asedau tymor hir, cynnydd net o £11.477m. Yr un modd, gwelwyd gostyngiadau o ran balansau'r asedau cyfredol a'r ymrwymadau cyfredol, sef £6.326m a £6.941m yn y drefn honno. Yn ogystal, gwelwyd cryn symudiad yn yr ymrwymadau tymor hir, sydd wedi cynyddu gan £10.451m - y mwyafrif ohonynt i'w priodoli i'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau (gweler isod).



## **PENSIYNAU**

- **CYNLLUN PENSIYNAU ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddion penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar gyfran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

- **CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd swyddogion yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r gronfa pensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn cael y buddion yn y dyfodol.

Safon Gyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19 – Buddion Gweithwyr sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol ac sy'n berthnasol i Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd a weinyddir gan y Gyngor Sir Gwynedd.

Caiff yr hinsawdd economaidd gyfredol hefyd effaith sylweddol ar yr Ymrwymiad Pensiwn Net. Mae un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol ar y Fantolen yn ymwneud â chronfa wrth gefn y Cyngor ar gyfer pensiynau ac mae wedi cynyddu o £80.034m i £91.152m, cynnydd o £11.118m. Mae'n bwysig nodi bod y dirywiad ymddangosiadol yn y sefyllfa pensiwn yn seiliedig ar amrywiadau actiwaraid ac nid yw'n golygu y bydd rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar unwaith. Caiff taliadau gwirioneddol y Cyngor i'r Gronfa Pensiwn eu hadolygu bob tair blynedd fel rhan o'r adolygiad o'r Gronfa Pensiwn a gynhelir bob tair blynedd. Caiff ymrwymiad gwirioneddol y Cyngor ei adolygu bob 3 blynedd fel rhan o'r prisiad a gynhelir bob 3 blynedd o'r Gronfa Pensiwn. Yna, penderfynir ar strategaeth fuddsoddi sy'n anelu at adennill y diffyg hwn dros gyfnod y bydd Actiwari'r Gronfa Pensiwn (Hymans Robinson) yn penderfynu arno.

Mae'r Datganiad Symudiadau yn yr Arian wrth Gefn a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddion pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu'r rhan honno o'r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan drethdalwyr y Cyngor.

## **DARPARIAETHAU**

Mae'r darpariaethau sydd gan y Cyngor yn sefyll ar £7.598m ar 1 Ebrill 2013. Yn ystod y flwyddyn gostyngodd y balans £2.290m i £5.308m, yn bennaf oherwydd setlo nifer o hawliadau tâl cyfartal y darparwyd amdanynt yn flaenorol.

Mae manylion am y symudiadau yn y darpariaethau i'w gweld yn nodyn 27 i'r Cyfrifon.

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'n ofynnol ar i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- \* wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog yw'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro, sef y Swyddog Adran 151 dynodedig.
- \* reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- \* gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Côd SAARH").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- \* dewis polisiau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson.
- \* ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus.
- \* cydymffurfio â'r Côt Ymarfer Llywodraeth Leol.

Hefyd mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- \* cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol.
- \* cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014.

**Llofnodwyd:** .....

**RICHARD MICKLEWRIGHT**

**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) DROS DRO A SWYDDOG ADRAN 151**

**Dyddiedig :** .....

### **Cymeradwyo'r Cyfrifon**

Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a'r Rheoliadau (Diwygiedig) 2010, rwy'n tystio fod y Datganiad Cyfrifon wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 30 Medi 2014.

**Arwyddwyd :** .....

**VAUGHAN HUGHES**

**CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

**Dyddiedig :** .....

## **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/03/2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### **Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31/03/2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

O ran y Datganiad Llywodraethu, cyflwynaf adroddiad i chi os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

### **Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**  
**Archwilydd Penodedig**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Cathedral Road**  
**Caerdydd**  
**CF11 9JL**

**30 Medi 2014**

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN  
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014**

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell 'Gwarged neu (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau' yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd statudol ac wrth gefn eraill' yn dangos balans statudol Cronfa'r Cyngor a'r Gronfa Refeniw Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd statudol ac wrth gefn eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

Aiiddatganwyd 2012/13	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyngor (Nodyn 8)	Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol)	Cronfa wrth gefn Derbynebon Cyfalaf (Nodyn 10)	Balansau Ysgolion (Nodyn 9)	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd (Nodyn 14)	Cronfa wrth Gefn Glustnodedig y CRT	Cyfanswm yr Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Cyfanswm yr Arian wrth Gefn nas gellir ei ddefnyddio	Cyfanswm Arian wrth Gefn y Cyngor
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2012</b>	<b>5,796</b>	<b>12,882</b>	<b>247</b>	<b>0</b>	<b>1,252</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>20,177</b>	<b>143,419</b>	<b>163,596</b>
<b>Symudiadau yr arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn</b>										
Gwarged /(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	4,788	0	(6,776)	0	0	0	0	(1,988)	0	(1,988)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	0	0	(11,147)	(11,147)
<b>Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>4,788</b>	<b>0</b>	<b>(6,776)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,988)</b>	<b>(11,147)</b>	<b>(13,135)</b>
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (nodyn 7)	(2,013)	0	8,027	14	0	262	0	6,290	(6,290)	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn trosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig</b>	<b>2,775</b>	<b>0</b>	<b>1,251</b>	<b>14</b>	<b>0</b>	<b>262</b>	<b>0</b>	<b>4,302</b>	<b>(17,437)</b>	<b>(13,135)</b>
Trosglwyddiadau i(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8)	(2,661)	2,729	(1,016)	0	(68)	0	1,016	0	0	0
<b>Cynnydd (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn</b>	<b>114</b>	<b>2,729</b>	<b>235</b>	<b>14</b>	<b>(68)</b>	<b>262</b>	<b>1,016</b>	<b>4,302</b>	<b>(17,437)</b>	<b>(13,135)</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2013</b>	<b>5,910</b>	<b>15,611</b>	<b>482</b>	<b>14</b>	<b>1,184</b>	<b>262</b>	<b>1,016</b>	<b>24,479</b>	<b>125,982</b>	<b>150,461</b>
<b>Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn</b>										
(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	(4,430)	0	(456)	0	0	0	0	(4,886)	0	(4,886)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	0	0	6,499	6,499
<b>Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(4,430)</b>	<b>0</b>	<b>(456)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(4,886)</b>	<b>6,499</b>	<b>1,613</b>
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (nodyn 7)	6,267	0	1,688	(14)	0	(262)	0	7,679	(7,679)	0
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn trosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig</b>	<b>1,837</b>	<b>0</b>	<b>1,232</b>	<b>(14)</b>	<b>0</b>	<b>(262)</b>	<b>0</b>	<b>2,793</b>	<b>(1,180)</b>	<b>1,613</b>
Trosglwyddiadau i(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8)	(2,070)	1,736	(43)	0	334	0	43	0	0	0
Addasiadau eraill	0	0	0	0	0	0	0	0	(2)	(2)
<b>(Gostyngiad)/ Cynnydd yn ystod y Flwyddyn</b>	<b>(233)</b>	<b>1,736</b>	<b>1,189</b>	<b>(14)</b>	<b>334</b>	<b>(262)</b>	<b>43</b>	<b>2,793</b>	<b>(1,182)</b>	<b>1,613</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>5,677</b>	<b>17,347</b>	<b>1,671</b>	<b>0</b>	<b>1,518</b>	<b>0</b>	<b>1,059</b>	<b>27,272</b>	<b>124,800</b>	<b>152,072</b>

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR  
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014**

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae Awdurdodau'n yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

2013/14			2012/13 Ailddatganwyd			Nodyn
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	
£000	£000	£000	£000	£000	£000	
739	(341)	398	5,684	(5,405)	279	
8,170	(3,452)	4,718	8,344	(3,297)	5,047	
71,884	(12,832)	59,052	67,797	(13,364)	54,433	
15,443	(3,970)	11,473	15,489	(4,832)	10,657	
15,237	(13,484)	1,753	13,084	(13,116)	(32)	
25,862	(23,757)	2,105	21,688	(20,140)	1,548	
35,860	(8,421)	27,439	32,934	(13,587)	19,347	
10,265	(4,761)	5,504	8,739	(3,446)	5,293	
12,836	(2,524)	10,312	12,351	(3,045)	9,306	
7,025	(1,487)	5,538	6,864	(1,451)	5,413	
76	0	76	243	0	243	
<b>203,397</b>	<b>(75,029)</b>	<b>128,368</b>	<b>193,217</b>	<b>(81,683)</b>	<b>111,534</b>	
		10,403			20,809	12
		8,566			7,957	13
		(142,451)			(138,312)	14
		<b>4,886</b>			<b>1,988</b>	
		(12,516)			(6,124)	11c,15 &17
		6,017			17,271	11ch, 41
		<b>(6,499)</b>			<b>11,147</b>	
		<b>(1,613)</b>			<b>13,135</b>	

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2014

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r Cronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y Cronfeydd wrth Gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfeydd wrth Gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn); a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

	Nodyn	31 Mawrth 2014 £000	31 Mawrth 2013 £000
Eiddo, offer a chyfarpar	15	315,636	303,537
Asedau Treftadaeth	17	3,313	3,306
Eiddo Buddsoddi	18	7,139	7,991
Asedau Annirweddol	19	379	213
Buddsoddiadau Tymor Hir	44	0	0
Dyledwyr tymor hir	24	460	433
<b>Asedau tymor hir</b>		<b>326,927</b>	<b>315,480</b>
Buddsoddiadau tymor byr	44	0	10,101
Asedau a ddelir i'w gwerthu	21	1,011	196
Rhestrau stoc	23	447	545
Dyledwyr tymor byr	24	24,701	25,798
Arian parod neu gyfatebol	25	6,459	2,304
<b>Asedau cyfredol</b>		<b>32,618</b>	<b>38,944</b>
Benthycia tymor byr	44	(1,688)	(8,447)
Credydwyr tymor byr	26	(19,395)	(18,223)
Darpariaethau tymor byr	27	(2,613)	(4,184)
Derbynebadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw	37	(288)	(71)
<b>Ymrwmiadau Cyfredol</b>		<b>(23,984)</b>	<b>(30,925)</b>
Credydwyr tymor hir	26	(59)	(0)
Darpariaethau tymor hir	27	(2,695)	(3,414)
Benthycia tymor hir	44	(89,583)	(89,590)
Ymrwmiadau tymor hir eraill	41	(91,152)	(80,034)
<b>Ymrwmiadau tymor hir</b>		<b>(183,489)</b>	<b>(173,038)</b>
<b>Asedau net</b>		<b>152,072</b>	<b>150,461</b>
Arian wrth gefn y mae modd ei ddefnyddio	8-10	27,272	24,479
Arian wrth gefn nad oes modd ei ddefnyddio	11	124,800	125,982
<b>Cyfanswm yr arian wrth gefn</b>		<b>152,072</b>	<b>150,461</b>

## DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN SY’N GORFFEN 31 MAWRTH 2014

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chyferwerthoedd Ariannol yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian trwy ddsbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a gyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-llif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariaeth gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

	Nodyn	2013/14 £000	Ailddatganwyd 2012/13 £000
<b>Diffyg Net ar Ddarparu gwasanaethau</b>		<b>(4,886)</b>	<b>(1,988)</b>
Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	28	23,261	21,405
Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	28	(12,290)	(12,166)
<b>Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu</b>		<b>6,085</b>	<b>7,251</b>
<b>Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi</b>	29	<b>4,604</b>	<b>(16,105)</b>
<b>Llif arian net o Weithgareddau Cyllido</b>	30	<b>(6,534)</b>	<b>(6)</b>
<b>Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian</b>		<b>4,155</b>	<b>(8,860)</b>
Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol	25	2,304	11,164
<b>Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol</b>	25	<b>6,459</b>	<b>2,304</b>



## NODIADAU AR GYFRIFON

### NODYN 1 - DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisiau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon

Cyfeirnod y Polisi	Teitl y Polisi
1	Egwyddorion Cyffredinol
2	Cronni Incwm a Gwariant
3	Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen
4	Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd
5	Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau
6	Treth ar Werth (TAW)
7	Asedau nad ydynt yn gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)
8	Eiddo Buddsoddiad
9	Asedau Annirwddol
10	Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir
11	Arian Parod a'i Gyfwerth
12	Offerynnau Ariannol
13	Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn
14	Cronfeydd wrth Gefn
15	Cydnabyddiaeth Refeniw
16	Llog Mewnol
17	Prydlesau
18	Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn gyfredol - Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)
19	Grantiau y Gellir eu Derbyn
20	Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)
21	Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol
22	Arian Tramor
23	Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol
24	Buddiannau'r Gweithwyr
25	Arfarnu Swyddi a Chyflog Cyfartal
26	Eitemau Eithriadol
27	Cyfrifo ar gyfer Trethi Cenedlaethol Annomestig
28	Asiantaeth, Incwm a Gwariant

#### 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2013/14 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2014. Mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y cawsant eu diwygio 2010), a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 a'r Côt Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2013/14, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbrisio rhai categorïau penodol o asedau nad ydynt yn gyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae'r holl brif bolisiau cyfrifo wedi cael eu defnyddio mewn modd cyson drwy'r flwyddyn.

## 2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd. Yn arbennig:-

- Caiff incwm a gwariant ei gyfrif amdano yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu.
- Mae'r refeniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fo'r Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddion perchenogaeth i'r prynwr a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Cyngor;
- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fo'r Cyngor yn medru mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn a gwblhawyd a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod;
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio; cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac arian cadw ac sy'n daladwy ar fenthyciadau gan gynnwys gorddrafftiau banc yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract;
- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

## 3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau;
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

## 4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Awdurdod ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n ei reoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil gwaith y gweithrediad.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan yr Awdurdod a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwy. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

## **5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau**

Gall Addasiadau Cyfnod Blaenorol ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau perthnasol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## **6. Treth ar Werth (TAW)**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## **7. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)**

Mae gwariant ar brynu, creu neu wella asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei gyfalafu ar sail gronol ar yr amod y daw â budd i'r Cyngor am fwy nag un flwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys asedau annirweddol, eiddo, peiriannau ac offer, asedau treftadaeth ac eiddo buddsoddi. Yn gyffredinol nid ydynt yn cynnwys asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu oherwydd fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd ei gydnabod yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant wrth i'r costau hynny godi.

### **Cydnabyddiaeth**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo nad ydynt yn Gyfredol yn cael ei gyfalafu ar sail gronol, ar yr amod ei bod yn debygol y byddai'r buddiannau economaidd ar gyfer y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd.

### **Mesur**

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr;

- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli,

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gafaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu ac asedau nad oes eu hangen mwyach – cost dibrisiant hanesyddol;
- tai cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- eiddo, offer a chyfarpar – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'bywyd defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn ymgymryd prisiadau o'i asedau ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Mae eitemau unigol o fewn dosbarthiadau gwahanol o asedau, e.e. ysgolion cynradd, mân ddaliadau, a.y.y.b, yn cael eu prasio mewn blwyddyn sengl, er mwyn sicrhau fod yr holl asedau o unrhyw fath yn cael eu hail-brisio o fewn cyfnod byr. Yn y blynyddoedd rhwng prisiadau, cyfeirir at y mynegon perthnasol a gwneir addasiadau i brisiadau os oes unrhyw arwydd o newid materol. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Adbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu.

Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

## **Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i amser yn mynd yn ei flaen neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir i lawr yr amhariad yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronus);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falens annigonol, ysgrifennir i lawr yr amhariad yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i'r graddau nodwyd swm y golled wreiddiol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn yr arian wrth gefn ailbriso.

## **Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnod hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr;
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnod hyd at 45 mlynedd, yn dibynnu ar werth yr ased.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

### **Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal i'w Gwerthu**

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Cânt eu nodi ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael eu Dal i'w Werthu. Mae'r ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei ailbrisiu yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau (neu grŵp gwaredu) bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

'Grŵp gwaredu' yw grŵp o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r Awdurdod gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail fesur sy'n ofynnol ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddsberthir fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu i'r grŵp cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cario'r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y grŵp gwaredu yn y drefn ddsbarthu sy'n ofynnol gan IAS 36.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

### **Cael Gwared ar Asedau nad ydynt yn Gyfredol**

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r neu golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei throsglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Rhoddir o'r neilltu gyfran o dderbyniadau yn ymwneud â gwaredu tai er mwyn lleihau'r angen i fenthycu ac i gyfateb â threuliau dyled a gyllidir o gymhorthdal tai. Mae'n ofynnol i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthycu (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

## Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn. Mae Asedau Treftadaeth a ddelir gan y Cyngor yn cynnwys adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol). Er cyflawnrwydd, bydd gwybodaeth ynglŷn ag Asedau Treftadaeth weithredol, ynghyd â chael eu hymgorffori i ddatgeliadau dan y pennawd/penawdau gweithredol perthnasol (e.e. Eiddo, Offer a Chyfarpar), byddent yn cael eu hadnabod ar wahân a'u datgelu ynghyd â materion mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth arall.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a perthnasol mewn perthynas â'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronodig, amorteiddio a cholledion amhariad). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail a dosbarthiadau arall ased (am fanylion gweler 'Eiddo, Offer a Chyfarpar nad ydynt yn gyfredol).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol.

Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad; er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuan newydd yn codi ynglŷn â'i ddilystrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler 'Eiddo, Offer a Chyfarpar').

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor bolisi i fynd ati'n weithredol i gael caffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriol Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae Eiddo Treftadaeth yn cael ei rheoli a'u cynnal a'u cadw, tra'n ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

### Trin asedau ysgol

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sydd biau ac sy'n rheoli tir ac adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig ac o'r herwydd, ni chânt eu dangos ar fantolen y Cyngor hwn. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r modd y caiff cyfrifon yr ysgolion hynny eu trin, yn benodol felly ynghylch a ddylid eu datgelu'n llawn ym mantolenni cynghorau; hyd oni fydd casgliad yr adolygiad hwn yn hysbys, bydd y Cyngor yn parhau gyda'i arfer o beidio â'u cynnwys ar ei fantolen.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion a reolir ac ysgolion sefydledig ei drin fel 'REFCUS' a'i ddileu bob blwyddyn i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn y gwasanaethau Addysg a Phlant. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2014 eu cynnwys ym mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau a ddatganolwyd i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

## 8. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. 'Dyw'r diffiniad ddim yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae Eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd fraich. 'Dyw eiddo ddim yn cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbriso'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbriso'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am Eiddo buddsoddiad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbriso a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 9. Asedau Annirweddol

Mae gwariant ar asedau nad ydynt yn ariannol sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased annirweddol i'r Awdurdod.

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau annirweddol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbriso hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol nid oes yr un o'r asedau annirweddol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased annirweddol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased - mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased annirweddol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau annirweddol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 10. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sy'n mynd rhagddo sy yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.



## 11. Arian Parod a'i Gyfwerth

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol yn daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif sy'n aeddfedu mewn dim mwy na tri mis o'r dyddiad caffael a gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg dibwys o newid i'r gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, dangosir arian parod a'i gyfwerth net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod yr Awdurdod.

## 12. Offerynnau Ariannol

### Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol a chânt eu mesur, yn y lle cyntaf, yn ôl gwerth teg ac wedyn cânt eu cario yn ôl eu cost amorteiddio. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog taladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosi gan y gyfradd llog mewn grym ar y pryd i'r offeryn. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronnus); a'r llog a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycia.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnwys yn cael eu rhoddi mewn credyd neu mewn debyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu yn digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portfolio benthycia yng nghyswllt diwygio neu ffeirio'r offerynnau presennol, yna mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu at y gost amorteiddio y benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'r cofnod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei daenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log gweithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu taenu, dros flynyddoedd y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Awdurdod yw taenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu bryd yr oedd y disgownt yn cael ei dderbyn pan ad-dalwyd. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### Asedau ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn ddau gategori:

- benthyciadau a derbyniadau posib - asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol;
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu - asedau sydd â phris marchnad cyfyngedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy.

## **Benthyciadau a derbyniadau posib**

Cydnabyddir benthyciadau a derbyniadau posib ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur ar werth teg. Wedi hynny, cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario ased wedi ei luosi gan y raddfa log berthnasol i'r offeryn. Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronnus) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer derbynyddiadau sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud nifer gyfyngedig o fenthyciadau i weithwyr am lai na'r cyfraddau ar y farchnad (benthyciadau 'meddal'). Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod gwerth y benthyciadau unigol a'r llog yn isel iawn ac o'r herwydd nid yw wedi addasu'r cofnod Incwm a Gwariant ar gyfer y benthyciadau meddal hyn.

## **Asedau sydd ar Gael i'w Gwerthu**

Lle mae hynny'n berthnasol ac o bwys, cydnabyddir asedau sydd ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contractyddol offeryn ariannol sy'n cael eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Lle mae gan ased daliadau penodol neu bendant, mae credydau blynyddol i'r llinell Gyllido ac Incwm Buddsoddi a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a geir yn seiliedig ar gost amorteiddio'r ased wedi'i luosi gan y gyfradd log ar gyfer yr offeryn. Lle nad oes taliadau penodol neu bendant, caiff incwm (e.e. difidend) ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg ei dderbyn gan y Cyngor.

Caiff Asedau yn dangos yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae prisiadau'n seiliedig ar yr egwyddorion isod:-

- Offerynnau gyda phris marchnad a ddyfynnwyd – pris y farchnad;
- Offerynnau eraill a chanddynt daliadau penodol a phendant – dadansoddiad o'r llif arian disgownt;
- Cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau marchnad penodol – gwerthusiad annibynnol o brisiadau cwmni
- Gwerth Teg – pris y cytunwyd arno rhwng y ddau barti

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwysu drwy roi cofnod yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael-i'w-Gwerthu a chaiff y budd/colled ei gydnabod yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ailbriso'r Asedau Ariannol Ar-Gael-i'w-Gwerthu. Gwneir eithriad lle ceir colledion amhariad – caiff y rhain eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd at unrhyw fudd neu golled net ar gyfer yr ased sydd wedi cronni yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael-i'w-Gwerthu.

Lle caiff asedau eu nodi fel amhariad oherwydd y tebygrwydd na fydd taliadau dan y contract (rhai penodol neu bendant) yn cael eu gwneud oherwydd rhywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol neu os bydd eu gwerth teg yn llai na'r gost, yna caiff gwerth llyfr yr ased ei gofnodi a'i roi yn erbyn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Os oes taliadau penodol neu bendant yn berthnasol i'r ased, yna caiff y golled oherwydd amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig ar gyfer y dyfodol gyda disgownt yn ôl cyfradd log gwreiddiol yr ased. Fel arall, caiff y golled oherwydd amhariad ei mesur yn erbyn cost prynu'r offeryn (net o unrhyw brif ad-daliad ac amorteiddio).

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n codi ar adeg dad-gydnabod yr ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw enillion neu golledion a gydnabyddwyd eisoes yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael-i'w-Gwerthu. Mewn achos lle na fedrir mesur gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei gario ar gost (llai unrhyw golledion amhariad).

### **13. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

#### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Awdurdod, sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif ddibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwyrddroir y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

#### **Rhwymedigaethau wrth gefn**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar yr Awdurdod, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y daw budd economaidd neu botensial i'r gwasanaeth (Nodyn 42).

#### **Asedau wrth gefn**

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posibl. (Nodyn 43)

#### **14. Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymadau ac unrhyw gyfyngiadau statudol neu wirfoddol a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgrisiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad Symudiad yn yr Arian Wrth Gefn.

Crëir Cronfeydd wrth Gefn trwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisiâu a'r nodiadau perthnasol.

#### **15. Cydnabyddiaeth Refeniw**

Mae'r polisi cydnabod refeniw yn ymwneud â gwerthu nwyddau (a gynhyrchir gan yr Awdurdod i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), cynnig gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau y mae a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladau), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y dreth gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Fodd bynnag, os ydyw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei chydnabod, yn y lle cyntaf, yn ôl y pris cywerthoedd arian. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbynyddiadau tymor byr heb log dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y dreth gyngor a threthi cyffredinol, ac felly mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

#### **16. Llog Mewnol**

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i Bolisiâu Rheoli Trysorlys a Buddsoddi, am gyfnodau o hyd at bum mlynedd ac fe gronnir a chredydir y llog i Gronfa'r Cyngor. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa log a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai Cronfeydd wrth Gefn hefyd yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

#### **17. Prydlesau**

Lle mae hynny'n berthnasol ac yn hanfodol, caiff prydlesau eu categorio fel prydlesau ariannol lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yr eiddo, cyfarpar neu offer o'r prydleswr i'r prydlesai. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw brydlesau o'r math yma ac o'r herwydd, mae'r prydlesau y mae'r Cyngor yn eu dal yn cael eu categorio fel prydlesau gweithredu. Lle mae prydles yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff y tir a'r adeiladau eu categorio ar wahân. Yn ogystal, caiff trefniadau nad ydynt â statws gyfreithiol prydles ond sy'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad eu cyfrif amdanynt dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol. Mae asedau wedi cael eu hadolygu gan gymryd i ystyried lefel bwysigrwydd y rhenti blynyddol a gwerthoedd cyfalaf ac mae eu cynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar y lefelau hyn.

## Y Cyngor fel Prydlesai

### i. Prydlesau Ariannol

Os yn berthnasol ac o werth sylweddol, byddai eitemau eiddo, cyfarpar ac offer a ddelir dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl eu gwerth teg wedi ei fesur ar adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth cyfredol y taliadau isaf ar y brydles os ydynt yn is na'r gwerth teg). Wrth gydnabod yr ased, gwneir ymrwymiad cyfatebol i dalu i'r prydleswr. Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol i'r Cyngor eu hychwanegu at swm cario'r ased. Caiff premiymau a delir ar adeg sefydlu prydles eu defnyddio i ddibrisio ymrwymiad y brydles. Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn ystod y cyfnod y bu iddynt godi.

Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng:-

- Taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles; a
- Tâl ariannol (sy'n cael ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Os yw eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu cydnabod dan brydlesau ariannol, yna byddid yn cyfrifo amdanynt drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n gyffredinol berthnasol i asedau o'r fath ar yr amod y codir am ddibrisiant yn ystod cyfnod y brydles os yw'r cyfnod hwnnw'n llai na oes ddefnyddiol dybiedig yr ased (lle nad yw perchenogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi treth gyngor i dalu costau dibrisiant neu ailbriso a cholledion amhariad sy'n codi mewn perthynas ag asedau a brydlesir. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol call o'r arian refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Yn lle dibrisiant ac ailbriso a cholledion amhariad felly, ceir cyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol a hynny drwy addasiad yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn yr Arian Wrth Gefn i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### ii. Prydlesau Gweithredol

Caiff rhent a delir mewn perthynas â phrydlesau gweithredol ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar a brydlesir. Codir tâl ar sail linell syth dros gyfnod oes y brydles; hyd yn oed oes nad yw hyn yn cyfateb i batrymau taliadau (e.e. cyfnod o rent am ddim ar gychwyn y brydles).

## Y Cyngor fel prydleswr

### i. Prydlesau Ariannol

Os bydd y Cyngor yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo neu eitem o gyfarpar neu offer, yna caiff yr ased berthnasol ei chofnodi ar y Fantolen fel un y cafwyd gwared arni. Os yn berthnasol, ar gychwyn y brydles, bydd swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei gofnodi yn y llinell 'Gwariant Gweithredol Arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni. Caiff buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni (h.y. yn cael ei ddebydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg cael gwared arni) gyda chofnod o brydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Caiff rhent a geir ar gyfer prydles ei rannu rhwng:

- Taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles (ynghyd ag unrhyw breimiymau a dderbyniwyd); a
- Incwm Ariannu (sy'n cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Yn unol â statud, ni chaniateir defnyddio'r enillion a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg cael gwared â'r ased i ychwanegu at Falans y Gronfa Gyffredinol a rhaid trin hyn fel derbyniad cyfalaf. Lle derbyniwyd premiwm, rhaid symud hwn allan o'r Balans ar gyfer y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn. Lle bydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ased a brydlesir yn cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod, caiff hyn ei symud allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf sydd wedi eu Gohirio yn y Datganiad o Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau nad ydynt yn gyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff y symiau felly eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn.

## ii. Prydlesau Gweithredol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu naill ai i'r linell gwasanaeth uniongyrchol neu'r llinell Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi (o ran incwm a gafwyd o brydlesau eiddo buddsoddi) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

## 18. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol - Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)

Cofnodir ar y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr y symiau canlynol er mwyn cofnodi'r costau gwirioneddol sydd ynghlwm wrth ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dadbrisió ac Amorteiddio asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth.
- Ailbrisió a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth.
- Elw neu golled ar adeg cael gwared ar asedau

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi treth gyngor i gwrdd â'r costau hyn. Fodd bynnag, rhaid iddo neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei anghenion benthyca yn gyffredinol. Caiff y costau hyn felly eu disodli gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf drwy gofnodi addasiad yn y Datganiad yn y Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau nad ydynt yn gyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff y symiau felly eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, rhaid i'r Cyngor godi ar Gronfa'r Cyngor ddarpariaeth ar gyfer adennill dyledion. Caiff y ddarpariaeth honno wedi ei gostwng gan swm y tâl dibrisiant a wnaed eisoes i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel y gellir codi'r MRP net ar Gronfa'r Cyngor.

Cyhoeddwyd rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru yn 2008/09 yn gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarvoudus ar gyfer MRP gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP am oes yr ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio MRP hyd oni fydd yr ased yn cael ei chomisiynu.

Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i gyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol mewn perthynas â'r gofyniad cyllid cyfalaf:-

- cyfrifo darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT agoriadol.

- Mae darpariaeth Cronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar 4% o'r CFR nad yw'n CRT hyd at 2007/08, yn unol â'r Rheoliadau a weithredwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Ers 2007/08, mae MRP yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased.

Cyfyd eithriad i'r polisi hwn o ran gwariant sy'n gyfarwyddyd cyfalafu a gyhoeddwyd dan Adran 40(6) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd unrhyw wariant o'r fath yn cael ei ddileu naill ai yn unol â'r polisi uchod neu dros nifer y blynyddoedd a nodir yn y cyfarwyddyd.

## 19. Grantiau y Gellir eu Derbyn

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a dderbyniwyd mewn ffurf grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddyd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

## 20. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor. Nid yw'r gwariant REFCUS hwn yn rhan o Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

## 21. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheini sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA) Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2013/14 (SeRCOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democraidd – costau'n gysylltiedig â statws yr Awdurdod fel sefydliad amlswyddogaethol, democraidd;
- Costau heb eu Dosbarthu - costau buddiannau dewisol a rhoddir i weithwyr yn ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad i'w codi ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn SeRCOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau sy'n Parhau.

## 22. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau grant dan y rhaglen 'Interreg' lle mae'r sefydliad sy'n arwain yn Wyddelig a'r grantiau'n cael eu dyrannu mewn Ewros. Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn ac i gyfyngu ar y peryglon a achosir gan symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

## 23. Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol;
- colledion ailbriso ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Cyfrif Ailbriso Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn;
- amorteiddio asedau annirweddol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbriso neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag, rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a glandrir ar sail bwylllog ac a bennir gan y Cyngor yn unol â chyfarwyddiadau statudol.

Felly, yn lle colledion dibrisiant, ailbriso ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

Caiff trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi eu cofnodi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

## 24. Buddiannau'r Gweithwyr

### Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i fwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. Codir y ffigwr cronol yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Awdurdod yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini na chânt eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.



## **Buddiannau Terfynu**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar 3 godi o falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a glendir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## **Buddiannau ôl-Gyflogaeth**

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg;
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

## **Cynllun Pensiwn Athrawon**

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

## **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Pensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Pensiwn 2008 ar ran yr holl weithwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol (IAS 19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig:

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol;

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real (yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd;

Mae asedau Cronfa Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned – pris bid presennol;
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:-

- a) costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt;
  - b) costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
  - c) Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddion diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi dan y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Chyfalaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod ar gyfer yr ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a budd-daliadau);
- ch)** Ail-fesuriad yn cynnwys:-
- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddion net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - Mae enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau yn yr ymrwymadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall;
- d) Enillion neu golledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau gweithredu i ryddhau'r Cyngor o ymrwymadau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth neu groniadau buddion i weithwyr a ddisgwyllir yn y dyfodol - debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
  - dd) cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Caiff elfennau (a - dd) eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn, ond er mwyn rhwystro newidiadau yn rhwymedigaethau'r pensiynau rhag cael effaith anghymesur ar y Dreth Gyngor, mae darpariaethau statudol yn bodoli sy'n cyfyngu ar y swm a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol i'r swm sy'n daladwy i'r Cyngor i'r Gronfa Bensiwn (dd). Caiff y gwahaniaeth rhwng y ddau werth ei addasu yn y Datganiad o Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn. Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeol ac yn unol â darpariaethau statudol, rhaid talu o falans y Gronfa Gyffredinol y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn ac nid yn ôl y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

Mae hyn yn golygu bod yna symudiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa pensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n mesur y budd i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag fel buddion a enillwyd gan weithwyr.

### **Buddiannau Dewisol**

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod rai pwerau i dalu buddion ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### **25. Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi**

Mae'r Cyngor wedi derbyn hawliadau gan weithwyr cyfredol a chan gyn-weithwyr mewn perthynas â thâl cyfartal, statws sengl ac arfarnu swyddi ac mae'n bwriadu amddiffyn y rhain. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn ddigon doeth i sefydlu cronfa wrth gefn a chynnwys darpariaeth i gwrdd â'r costau a allai godi o'r rhwymedigaethau hyn. Nid yw'r Datganiad Cyfrifon o'r herwydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol yr hawliadau, yn hytrach ceir amcangyfrif o'r rhwymedigaethau ariannol a fydd yn codi yn eu sgil.

### **26. Eitemau Eithriadol**

Lle mae hynny'n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

### **27. Cyfrif TCA**

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TCA, nid yw'n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda'r Llywodraeth Ganolog yn ei Fantolen. Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TCA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gyfrifon, fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol caiff y balansau hun eu cyfuno'n un cyfrif asiantaeth gyda'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigwr net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Cyngor Ynys Môn yw incwm y cyngor sy'n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### **28. Incwm a Gwariant yr Asiantaeth**

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cynghorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, awdurdodau dŵr ac adrannau'r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan. Caiff y corff sy'n gwneud y gwaith ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol.

Mae Ynys Môn wedi gweithredu fel asiant ar ran:-

- Llywodraeth Ganolog – casglu Trethi Cenedlaethol Annomestig (TCA) a thalu'r symiau a gasglwyd i'r Llywodraeth Ganolog, llai'r swm a gadwd yn ôl ar gyfer y lwfans costau casglu.

## **NODYN 2a – SAFONAU CYFRIFO A GYHOEDDWDYD OND NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU**

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifon Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2014/15 (y Côt) wedi cyflwyno sawl newid i bolisiau cyfrifo y bydd angen gweithredu arnynt o 1 Ebrill 2014. Petai'r rhain wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer flwyddyn ariannol 2013/14, ni fyddai unrhyw newidiadau mawr fel a nodir isod.

Bydd y Côt Ymarfer ar Gyfrifon Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2014/15 yn cyflwyno nifer o ofynion newydd a bydd rhaid i Gynghorau gydymffurfio gyda'r safonau newydd sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn perthynas â'r modd y cyflwynir adroddiadau. Mae'r newidiadau perthnasol yn ymwneud â'r safonau isod a byddant yn cael eu diwygio yn achos unrhyw gyfrifon a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cyfnodau ariannol sy'n cychwyn ar ôl 1af Ebrill 2014.

- IFRS 10 – Datganiadau Ariannol a Gyfunwyd
- IFRS 11 – Trefniadau ar y Cyd
- IFRS 12 – Datgelu Budd mewn Endidau Eraill
- IAS 27 – Datganiadau Ariannol ar Wahân
- IAS 28 – Buddsoddiadau mewn Mentrau Cysylltiedig a Mentrau ar y Cyd
- IAS 32 – Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad
- IAS 1 – Gwelliannau blynyddol i'r IFRS (cylch 2009-11). Bydd y newidiadau hyn yn cael eu mabwysiadu'n ôl-ddyddiedig sy'n golygu y bydd gwybodaeth am 2013/14 yn y cyfrifon hyn ar adeg eu mabwysiadu'n cael ei hailddatgan yn 2014/15 i adlewyrchu'r gofynion adrodd newydd.
- Yn y nodyn hwn, nodir y newidiadau a fyddai wedi bod mewn grym petai'r safonau newydd eisoes yn weithredol. Mae'r 5 safon gyntaf a restrir uchod yn ymwneud â'r modd y mae cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi a'r broses ar gyfer adroddiad ar fuddion mewn cwmnïau eraill. Nid yw cyfrifon 2013/14 yn cael eu cynhyrchu ar sail cyfrifon grŵp oherwydd ystyrir bod budd y Cyngor mewn cyrff o'r fath yn ddibwys ac ni fyddai mabwysiadu'r safonau newydd wedi cael effaith ar y farn honno.
- Bydd y cyfrifon hynny'n cael eu cynhyrchu'n unol â'r safonau cyfrifo newydd a amlinellir uchod. Mae'r newidiadau i IAS 1 yn egluro'r amgylchiadau lle mae'n rhaid cynnwys gwybodaeth gymharol yn y cyfrifon. Mae gwybodaeth gymharol eisoes wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn yn unol â'r gofynion newydd.

## **NODYN 2b – SAFONAU CYFRIFO A GYHOEDDWDYD AC A FABWYSIADWDYD**

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r cyfrifon hynny lle mae'r safonau newydd eisoes yn weithredol. Mae'r unig effaith o bwys yn ymwneud â'r modd y caiff costau pensiynau a therfynu eu hadlewyrchu yng Nghyfrifon y Cyngor.

- Mae gofynion dan IAS 19 wedi newid y ffordd y mae costau llog ar yr ymrwymiad pensiwn net yn cael eu dangos. O'r blaen, roedd y llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei gredu gyda dychweliad disgwylidig ar asedau yn seiliedig ar asesiad actiwari o'r dychweliadau tymor hir tebygol a geir o'r Gronfa Bensiwn mewn perthynas â'r asedau y mae'n eu dal ar ran y Cyngor. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau gwahanol ddychweliadau ar gyfer gwahanol categorïau o asedau (cyfranddaliadau, bondiau, eiddo ac ati). Yn 2012/13, roedd y dychweliad ar asedau'n £9.424m.

Yn dilyn mabwysiadu'r safon newydd, mae'r dull hwn wedi cael ei ddisodli gan un sy'n gweithio allan y llog ar yr asedau a ddelir yn seiliedig ar y ragdybiaeth y bydd yr elw tymor hir ar asedau'n cael ei weithio allan yn gwbl seiliedig ar yr elw o fondiau corfforaethol ar adeg paratoi'r Cyfrifon.

Yr elw ar yr asedau gan ddefnyddio'r safon newydd ar gyfer 2013/14 yw £8.632m, gostyngiad o £0.792m o gymharu â'r elw ar asedau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2012/13. Byddai gwerth y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad felly'n gostwng gan £0.792m gan arwain at gynnydd o'r un gwerth yn y dyffigy yr adroddwyd arno mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chyfanswm y diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Fodd bynnag, mae costau llog ar yr ymrwymiad pensiwn net yn ffurfio rhan o'r addasiadau statudol i'r Cyfrifon ac o'r herwydd nid yw'n cael unrhyw effaith ar lefel y balansau a ddelir gan Gronfa'r Cyngor nac ychwaith ar y fantolen.

- Mae'r newid arall yn sgil cyflwyno IAS 19 yn ymwneud â'r pwynt lle mae'r Cyngor yn cydnabod buddion terfynu. Dan y safon newydd, cânt eu cydnabod ar bwynt lle na fedr y Cyngor dynnu cynnig yn ôl. Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfateb i'r arferion cyfredol yn y Cyngor o ran cydnabyddiaeth ac o'r herwydd ni fydd gweithredu'r safon hon yn arwain at unrhyw newidiadau o bwys.

### **NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISIÂU CYFRIFO**

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy.
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw asedau a ddefnyddir i ddibenion datblygu economaidd, e.e. stadau diwydiannol, yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac o'r herwydd nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.
- Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen. Yn ychwanegol i hyn, Ysgolion a Gymhorthir yn Wirfoddol ac Ysgolion Sefydledig, nid yw gwerth y tir na'r adeiladau yn cael eu cynnwys yn y Fantolen.
- Caiff cyfalaf a grantiau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a yw'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grantiau perthnasol wedi eu bodloni. Os bydd y telerau a'r amodau wedi eu bodloni byddant yn cael eu cydnabod o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Os na fyddant, byddant yn cael eu cario o fewn y fantolen o fewn credydwyr hyd nes y bydd y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi eu bodloni neu fod y grant yn cael eu had-dalu i ddarparwr y grant pe na bai'r telerau a'r amodau yn cael eu bodloni. Gall y driniaeth hon olygu bod balansau o bwys yn cael eu cario yn y fantolen fel incwm a ohiriwyd yn y flwyddyn.
- Mae ffiniau'r grŵp wedi ei hadolygu gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellwyd yn y safonau cyfrifo perthnasol a'r Côt Ymarfer, nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw gwmnïau na sefydliadau y byddai angen iddo gwblhau cyfrifon grŵp.
- Mae lefel uchel o ansicrwydd am lefelau cyllido i lywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd y bydd amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau o ran darparu gwasanaeth.

## **NODYN 4a - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL O RAN AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2014 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:-

**Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 ar dudalen 53.

Yn y polisi cyfrifo ar gyfer dibrisiant Eiddo, Offer a Chyfarpar (tudalen 21) mae'n nodi:-

“Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar (Asedau nad ydynt yn gyfredol) cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.”

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol llunio barn ar ddau fater, i sefydlu:-

- Cyfran cost ased a ystyrir i gynrychioli rhan sylweddol o'r ased, a
- Trothwy cost, islaw hyn ni fyddai clandriad ar wahân o ddibrisiant ar ran o ased yn cael effaith sylweddol ar swm y dibrisiant yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Cyngor wedi gosod y ffigyrau yma fel 20% o gost gyfan yr ased a £2m yn y drefn honno. Fel nodir uchod ynglŷn â dibrisiant yn gyffredinol, gall dirywiad ffisegol o rannau unigol o ased, dros amser, arwain at batrymau gwario nad ydynt wedi eu hadlewyrchu'n llawn yn y lefelau dibrisiant a ddarparwyd yn flaenorol.

**Tai Cyngor** - Mae Stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu, i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 31%. Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd neu ar sail ranbarthol, yna gweithredir ar hyn. Byddai pob 1% o unrhyw newid o ganlyniad i hyn yn cynyddu neu ostwng gwerth y stoc adroddwyd arno o tua £3.4m.

**Darpariaethau** – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cyfres o ffactorau ansicr a allai arwain at gostau sylweddol yn ddiweddarach. Mae'n rhain yn ymwneud yn bennaf â chyflog cyfartal, costau ôl-ofal Safle Tirlenwi Penhesgyn, buddiannau terfynu posibl ar gyfer staff fydd yn gadael y Cyngor ac ymrwymadau yswiriant o bosibl. Ceir manylion llawn yn Nodyn 27. Byddai newid o 10% mewn perthynas â setlo hawliadau yswiriant yn codi neu'n gostwng gwerth yr ymrwymiad gan oddeutu £0.4m.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r dychweliadau disgwylidig ar asedau pensiwn. Mae'r Cyngor sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflogi cwmni o actiwariaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 41.

**Amhariad Dyledion Amheus / Lwfans** – Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y Cyngor falans o £29.3m i ran dyledion dymor byr. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion, fod swm amhariad o £5.6m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion amheus wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24 ar dudalen 59.

## **4 b ADDASIADAU AR GYFER Y CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISIÄU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU**

Mae addasiadau cyfnod blaenorol wedi cael eu gwneud i ddatganiadau ariannol cyhoeddus y Cyngor ar gyfer 2012/13 mewn perthynas â'r isod:

### **Ailgategoreiddio ac Addasiadau**

Yn y cyfrifon, ceir nifer o eitemau sydd wedi cael eu hailgategoreiddio ers 2012/13. Lle mae hyn yn digwydd, nodwyd naratif perthnasol o fewn y nodiadau i'r cyfrifon. Y nodiadau yw :-

(i) **Ailgategoreiddio rhwng Rhestrau Stoc ac Asedau Treftadaeth (Nodyn 23, Nodyn 17 a'r Fantolen)**

Mae stoc gwerth £64k a oedd eisoes yn cael ei gategoreiddio fel stoc wedi cael ei nodi fel Asedau Treftadaeth yn 2013/14. Mae data cymharol y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newid hwn yn y nodyn naratif.

(ii) **Adolygiad o ddarpariaeth tymor byr a thymor hir (Nodyn 27 a'r Fantolen)**

Mae'r dadansoddiad rhwng darpariaeth tymor byr a thymor hir wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r pwysau tebygol ar ddarpariaeth ac mae dadansoddiad eleni wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newid hwn.

(iii) **Newidiadau IAS 19 i'r Safon Gyfrifo (Nodyn 41, CIES, MIRS a'r Fantolen)**

Gwnaed sawl newid sylweddol o ran y safon gyfrifo genedlaethol IAS 19 – Buddion i Weithwyr. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r driniaeth gyfrifo ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl Ionawr 2013. Nid oes unrhyw effaith ar werth net yr asedau ar y Fantolen, fodd bynnag, dyma'r prif newidiadau:

### **Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau**

Mae hyn yn ymwneud â'r dychweliad ar asedau'r Cynllun Pensiwn megis y rheiny a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Nid yw IAS19 mwyach yn caniatáu credyd ymlaen llaw ar gyfer asedau (megis ecwiti) y rhagwelir y byddant yn perfformio'n well. Mae hyn wedi cael ei ddisodli gan ffigwr cyfatebol sy'n cael ei weithio allan drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt (yn hytrach na ffigwr gafodd ei weithio allan drwy ddefnyddio tybiaethau ynghylch elw ar asedau).

### **Datgelu Asedau**

Gydag IAS 19, mae angen gwybodaeth fanylach o lawer am asedau'r gronfa pensiwn. Bellach, mae angen datgelu gwerth yr asedau, wedi eu torri i lawr i gategorïau gwahanol sy'n gwahaniaethu rhwng natur a risg. Mae angen manylion pellach hefyd yn mewn perthynas â'r asedau hynny sydd â phris marchnad a'r rheiny sydd heb bris o'r fath. Nid oedd y datgeliad yn y datganiadau ariannol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2012/13 ond yn dangos y prif gategorïau o ecwiti, bondiau, eiddo ac arian yn unol â'r gofyniad. O ganlyniad i'r newid hwn, caiff rhai o'r categorïau hyn eu rhannu ymhellach.

### **Cyflwyno Datgeliadau**

Er mwyn bod yn gyson â gofynion newydd IAS 19, mae'r datgeliadau mewn perthynas â chynllun buddion pensiwn diffiniedig y Cyngor wedi newid o gymharu â'r rheiny a gyhoeddwyd yn 2012/13.

Dangosir effaith y newidiadau uchod yn y tablau a ganlyn. Mewn achosion lle mae'r datgeliadau wedi cael eu hailddatgan yn unol â'r addasiadau, mae'r pennawd 'Ailddatganwyd' ar y golofn ar gyfer 2012/13.

Addasiad i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfaw r	Gwariant Net £000	IAS 19 Ailddatgan Pensiwn £000	Ail- ddatganwyd £000
<b>Diffyg ar weithgareddau sy'n parhau</b>	<b>111,534</b>	<b>0</b>	<b>111,534</b>
Gwariant gweithredol arall	20,809	0	20,809
Cyllido ac incwm buddsoddi a gwariant	6,610	1,347	7,957
Trethi ac incwm grant amhenodol	(138,312)	0	(138,312)
<b>Diffyg ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>641</b>	<b>1,347</b>	<b>1,988</b>
(Gwarged) ar ailbriso asedau nad ydynt yn gyfredol	(6,124)	0	(6,124)
Colled Actiwaraidd ar asedau/ymrwymiadau pensiwn	18,618	(1,347)	17,271
<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>	<b>12,494</b>	<b>(1,347)</b>	<b>11,147</b>
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>13,135</b>	<b>0</b>	<b>13,135</b>

Addasiad i'r Datganiad Symudiad yn yr Arian Wrth Gefn	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd (Nodyn 8)	Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol)	Cronfa wrth Gefn Derbyn. Cyf. (Nodyn 10)	Balansau Ysgollion (Nodyn 9)	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio (Nodyn 14)	Cronfa CRT a Glustnodwyd	Cyfanswm Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Cyfanswm Arian wrth Gefn nas gellir ei ddefnyddio	Cyfanswm Arian wrth Gefn y Cyngor
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2012</b>										
<b>Symudiad yn yr Arian wrth Gefn yn ystod y Flwyddyn</b>										
(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	(1,347)	0	0	0	0	0	0	(1,347)	0	(1,347)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	0	1,347	1,347
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(1,347)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,347)</b>	<b>1,347</b>	<b>0</b>
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (Nodyn 7)	<b>1,347</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,347</b>	<b>(1,347)</b>	<b>0</b>

Llif Arian wedi ei Ailddatgan	2012/13 £,000	addasiad £000	2012/13 £000
<b>Gwarged/ (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>(641)</b>	<b>(1,347)</b>	<b>(1,988)</b>
Addasiadau i'r gwared neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau yn achos symudiadau nad ydynt yn rhai ariannol	20,058	1,347	21,405
Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y gwaged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu	(12,166)	0	(12,166)
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredol</b>	<b>7,251</b>	<b>0</b>	<b>7,251</b>
<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>(16,105)</b>	<b>0</b>	<b>(16,105)</b>
<b>Llif arian net o weithgareddau ariannu</b>	<b>(6)</b>	<b>0</b>	<b>(6)</b>
<b>Cynnydd net mewn arian parod a chywerthoedd arian parod</b>	<b>(8,860)</b>	<b>0</b>	<b>(8,860)</b>
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar gychwyn y flwyddyn ariannol	11,164	0	11,164
<b>Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol</b>	<b>2,304</b>	<b>0</b>	<b>2,304</b>



## **NODYN 5 – EITEMAU PERTHNASOL O RAN INCWM A GWARIANT**

Nid oes unrhyw eitemau o incwm neu wariant perthnasol nad ydynt wedi eu datgelu mewn rhan arall o'r cyfrifon hyn.

## **NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Swyddog Adran 151 y Cyngor ar 30 Medi 2014.

Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2014, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi ei haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

**NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN REOLIAD**

2013/14	Arian wrth Gefn y mae modd ei ddefnyddio				Symudiad yn yr Arian wrth Gefn nad oes modd ei ddefnyddio £000
	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Derbynebiadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd £000	
<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:</b>					
<b><u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>					
Taliadau am ddibrisiant a dileu asedau nad ydynt yn gyfredol	10,294	5,664	0	0	(15,958)
Ailbrisiant colledion ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	1,377	0	0	0	(1,377)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad	6	0	0	0	(6)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(8,373)	(2,600)	0	(262)	11,235
Grantiau Cyfalaf Anghynwysedig i ariannu	0	0	0	0	0
Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud	2,385	0	0	0	(2,385)
Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd	400	331	0	0	(731)
<b><u>Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u></b>					
Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Ariannu Cyfalaf	(3,402)	(1,017)	0	0	4,419
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT	(479)	(489)	0	0	968
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</u></b>					
Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol	(787)	(222)	1,009	0	0
Defnyddio Derbynebion Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	(928)	0	928
Derbynebiadau cyfalaf eraill	(46)	0	46	0	0
Cronfa Derbynebion Cyfalaf a neilltuwyd i ad-dalu dyledion	0	0	(141)	0	141
<b><u>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</u></b>					
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	104	14	0	0	(118)
<b><u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:</u></b>					
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymdeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41)	13,556	195	0	0	(13,751)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiwnwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	(8,455)	(195)	0	0	8,650
<b><u>Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Tâl Anghyfartal</u></b>					
Enillion neu Golledion ar gael gwared ar Asedau Sefydlog	0	0	0	0	0	0	(366)	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>210,866</b>	<b>21,775</b>	<b>1,605</b>	<b>(33,240)</b>	<b>(5,386)</b>	<b>195,620</b>	<b>19,170</b>	<b>214,790</b>
<b>Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>110,635</b>	<b>21,514</b>	<b>1,605</b>	<b>0</b>	<b>(5,386)</b>	<b>128,368</b>	<b>(123,482)</b>	<b>4,886</b>

2012/13

	Dadansoddiad y Gyfadran	Gwasanaethau a Gwasanaethau Cefnogol nad ydynt yn y Dadansoddiad	Symiau nas adroddwyd i'r rheolwyr ar gyfer penderfyniad	Symiau heb eu cynnwys yn y CIES	Cost Gwasanaethau	Symiau Corfforaethol	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ffioedd, prisiau ac incwm arall i'r gwasanaeth	(58,687)	0	(698)	0	(57,989)	(698)	(58,687)
Gwarged neu ddiffyg ar gysylltiadau a mentrau ar y cyd	0	0	0	0	0	0	0
Llog ac incwm buddsoddi	0	0	0	0	0	(358)	(358)
Incwm o'r dreth gyngor	0	0	0	0	0	(33,872)	(33,872)
Grantiau a chyfraniadau gan y llywodraeth	(48,430)	0	(98)	0	(48,332)	(104,440)	(152,772)
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(107,117)</b>	<b>0</b>	<b>(796)</b>	<b>0</b>	<b>(106,321)</b>	<b>(139,368)</b>	<b>(245,689)</b>
Costau Gweithwyr	79,279	(397)	(2,100)	(1,669)	75,113	3,016	78,129
Costau gwasanaeth eraill	125,193	6,883	92	(9,721)	122,447	515	122,962
Ad-daliadau gwasanaethau cefnogol	4,765	(108)	0	0	4,657	0	4,657
Dadbriso, amorteiddio ac amhariad	0	12,763	3,006	(150)	15,619	90	15,709
Taliadau Llog	0	0	19	0	19	5,392	5,411
Praeseptau ac Ardollau	0	0	0	0	0	10,713	10,713
Enillion neu Golledion ar gael gwared ar Asedau Sefydlog	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,096</b>	<b>10,096</b>
	<b>209,237</b>	<b>19,141</b>	<b>1,017</b>	<b>(11,540)</b>	<b>217,855</b>	<b>29,822</b>	<b>247,677</b>
<b>Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>102,120</b>	<b>19,141</b>	<b>1,813</b>	<b>(11,540)</b>	<b>111,534</b>	<b>109,546</b>	<b>1,988</b>

Tudalen 68

O ganlyniad i newidiadau yn safon cyfrifo IAS 19, ailddatganwyd y cymodi o ddadansoddiad cyfadranau i'r diffyg yn y ddarpariaeth o wasanaethau o fewn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2012/13, fel nodwyd yn Nodyn 4 i'r cyfrifon.

## NODYN 32 – GWEITHREDIADAU MASNACHU SYLWEDDOL

Gweithrediadau masnachu yw'r rheini y mae'r Cyngor yn eu cynnal mewn amgylchedd cystadleuol. Llynedd, roedd y Cyngor yn cynnal un gweithgaredd masnachu sef Gwasanaethau Gofal Môn.

Fodd bynnag, oherwydd ad-drefnu'r swyddogaeth weithredol, nid oes trefniant Cleient/Contractwr ffurfiol yn bodoli mwyach. Mae pecynnau gofal yn rhai penodedig p'un a ydynt yn cael eu darparu yn fewnol neu gan ddarparwr trydydd parti. Mae darparwr y pecyn gofal yn seiliedig i raddau helaeth ar ddewis y cleient ac o'r herwydd, nid yw Gofal Môn yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol. Mae cyllideb Gofal Môn wedi cael ei hail-siapiro i wneud i ffwrdd ag unrhyw elfen o ad-daliadau mewnol / elw ac o'r herwydd nid yw'n cael ei ystyried mwyach fel Gweithgaredd Masnachu.

## NODYN 33 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £0.681m (£0.668m yn 2012/13) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2013/14 £000	2012/13 £000
Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig	557	560
Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd	8	12
Costau pensiwn	62	45
Costau Yswiriant Cenedlaethol	39	34
Costau teithio	12	16
Amrywiol	3	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>681</b>	<b>668</b>

## NODYN 34 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Nifer y gweithwyr yr oedd y gydnabyddiaeth wirioneddol a dalwyd iddynt yn uwch na £60,000 ond dim yn uwch na £150,000 yn 2013/14, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo.

Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	Yn cynnwys Tâl Diswyddo 2013/14	Yn cynnwys Tâl Diswyddo 2012/13	Ac eithrio Tâl Diswyddo 2013/14	Ac eithrio Tâl Diswyddo 2012/13
	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr
£60,000 i £65,000	5	0	5	0
£65,001 i £70,000	2	2	2	2
£70,001 i £75,000	1	1	1	1
£75,001 i £80,000	1	5	1	5
£80,001 i £85,000	1	0	1	0
£85,001 i £90,000	0	1	0	1
£90,001 i £95,000	0	0	0	0
£95,001 i £100,000	2	2	2	1
£100,001 i £105,000	1	1	1	1
£105,001 i £110,000	0	0	0	0
£110,001 i £115,000	1	0	1	0
£140,001 i £145,000	1	1	1	1
<b>Total</b>	<b>15</b>	<b>13</b>	<b>15</b>	<b>12</b>

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion sy'n cael eu cyflogi ar sail barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddion eraill yn uwch na £0.06m y flwyddyn. Mae uwch swyddogion sy'n ennill mwy na £0.150m y flwyddyn cael eu henwi'n unigol hefyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol.

## 2013/14

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion	Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £000	Lwfansau Costau £000	lawndal am golli Swydd £000	Cyfraniad Pensiwn £000	Cyfanswm £000
Prif Weithredwr (Richard Parry Jones)*	153	2	0	32	187
Dirprwy Brif Weithredwr	114	0	0	26	140
Cyfarwyddwr (Dysgu Gydol Oes)	99	2	0	22	123
Cyfarwyddwr (Datblygu Cynaliadwy)	99	1	0	22	122
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)	80	1	0	18	99
Cyfarwyddwr (Cymuned)	99	0	0	22	121
Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddol	72	1	0	16	89
Pennaeth Adnoddau Dynol	61	0	0	14	75
Pennaeth Gwasanaeth (Tai)	60	1	0	14	75
<b>Cyfanswm</b>	<b>837</b>	<b>8</b>	<b>0</b>	<b>186</b>	<b>1,031</b>

\*Sylwer: Mae ffioedd a lwfansau cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys taliad o £12,000 am weithredu fel Swyddog Canlyniadau.

## Ceir ffigyrau cymharol ar gyfer 2012/13 yn y tabl isod

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion	Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £000	Lwfansau Costau £000	lawndal am golli Swydd £000	Cyfraniad Pensiwn £000	Cyfanswm £000
Prif Weithredwr (Richard Parry Jones)	144	2	0	31	177
Dirprwy Brif Weithredwr - Penodwyd 02/07/2013	85	0	0	19	104
Cyfarwyddwr (Dysgu Gydol Oes) - Penodwyd 02/07/2013	74	1	0	16	91
Cyfarwyddwr (Datblygu Cynaliadwy)	98	2	0	22	122
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) - Penodwyd 07/01/2013	19	0	0	4	23
Cyfarwyddwr (Cymuned) - Penodwyd 28/08/2013	59	0	0	13	72
Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddol	72	0	0	16	88
<b>Cyfanswm</b>	<b>551</b>	<b>5</b>	<b>0</b>	<b>121</b>	<b>677</b>

\*Sylwer: Mae ffioedd a lwfansau cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys taliad o £3,000 am weithredu fel Swyddog Canlyniadau.

## NODYN - 35 TALIADAU YMADAEL

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol ac ymadawiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod:

Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost pecynnau ymadael fesul band cost	
	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2014/13	2012/13	2013/14	2012/13
£0 - £20,000	23	14	3	2	26	16	172	67
£20,001 - £40,000	0	5	1	4	1	9	23	258
£40,001 - £60,000	1	1	0	3	1	4	45	182
£60,001 - £80,000	0	1	0	1	0	2	0	134
£80,001 - £100,000	0	0	1	0	1	0	90	0
£100,000 - £150,000	0	1	0	0	0	1	0	244
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>	<b>22</b>	<b>5</b>	<b>10</b>	<b>29</b>	<b>32</b>	<b>330</b>	<b>885</b>

Mae'r gost wedi'i chynnwys yn y cyfanswm o £1.458m a godir ar y cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2013/14. Y gwahaniaeth yw cost 66 o weithwyr ychwanegol yn gadael yn ystod 2014/15.



## NODYN 36 – FFFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:

	2013/14 £000	2012/13 £000
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn	193	155
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol	169	170
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	145	143
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau eraill	0	4
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP am waith arall fel yr archwiliwr apwyntiedig	8	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>515</b>	<b>472</b>

## NODYN 37 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2013/14:

	Nodyn	2013/14 £000	2012/13 £000
<b>Wedi'u credydu i Incwm Treth a Grantiau Amhenodol</b>			
Grant Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	14	5,166	n/a
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgáu)	14	73,036	73,544
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	14	8,373	8,518
Grant - Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	14	2,600	2,600
Arall (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgáu)	14	1,267	729
<b>Cyfanswm</b>		<b>90,443</b>	<b>85,391</b>
<b>Wedi'u credydu i Wasanaethau</b>			
<b>Grantiau:</b>			
Budd-dal Treth Gyngor a roddwyd		0	5,218
Grant ôl 16 (Addysg)		3,205	3,383
Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg)		2,385	2,255
Grant Taliad Teithio Consesiwn		734	664
Cymhorthdal budd-dâl		18,794	18,459
Grant Cefnogi Pobl (SPG a SPRG)		3,052	2,859
Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		1,722	1,715
<b>Cyfanswm</b>		<b>29,892</b>	<b>34,553</b>
<b>Grantiau eraill:</b>			
Gwasanaethau Canolog		121	0
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig		467	612
Gwasanaethau Plant Ac Addysg		3,614	4,305
Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant		1,190	2,451
Gwasanaethau Tai eraill		455	801
Grantiau Gofal Cymdeithasol Oedolion		1,217	1,353
Cynllunio a Datblygu		3,868	2,400
Gwasanaethau Amgylcheddol		412	132
Craidd Democraidd a Chorfforaethol		798	819
Gweithrediadau Masnachu		0	117
<b>Cyfanswm</b>		<b>12,142</b>	<b>12,990</b>
<b>Cyfraniadau:</b>		<b>9,802</b>	<b>9,285</b>
<b>Cyfanswm</b>		<b>142,279</b>	<b>142,219</b>

## Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

	2013/14 £000	2012/13 £000
<b>Balans agoriadol</b>	<b>71</b>	<b>144</b>
Ychwanegu: Grantiau Cyfalaf newydd a dderbyniwyd ymlaen llaw (heb gwrdd ag amodau defnydd)	11,285	9,953
Grantiau Cyfalaf wedi eu Had-dalu	0	(75)
Llai: symiau a ryddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi cwrdd â'r amodau)	(11,068)	(9,951)
<b>Balans Cau</b>	<b>288</b>	<b>71</b>

## **NODYN 38 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2013/14, talwyd cyfanswm o £4.407m mewn grantiau ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£4.861m yn 2012/13). Mae'r Cyngor wedi asesu maint y trafodion unigol yn codi drwy'r partiön cysylltiedig ac mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â thrafodion rhwng y Cyngor a'r parti cysylltiedig sydd yn uwch na £0.02m o ran eu gwaith:

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £0.069m iddi yn 2013/14 (£0.069m yn 2012/13).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau, neu mewn sefydliadau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor, yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £0.240m gan y Cyngor yn 2013/14 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£0.783m yn 2012/13).

- Y Cynghorydd F M Hughes – mae ei gŵr yn gyfarwyddwr Huws Gray, cwmni nwyddau adeiladu a thalwyd £0.166m i'r cwmni yn ystod 2013/14 (£0.161m 2012/13).
- Y Cynghorydd G Winston Roberts OBE – taliadau o £0.047m i Hyfforddiant Parys, cwmni y mae'r Cynghorydd Winston Roberts yn berchen arno (£0.104m 2012/13).

Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chynghorwyr sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddi fel Aelodau Etholedig o'r Awdurdod p'un a ydyw'n berthnasol i ran o'r flwyddyn ariannol neu'r cyfan ohoni. Mae gwerth y taliadau a wnaed yn ymwneud â chostau blwyddyn lawn.

Llywodraeth Cymru sy'n gosod y blaenoriaethau cenedlaethol, y cyd-destun strategol a lefel gyffredinol cyllideb i wasanaethau. Y Cynghorau sydd â'r cyfrifoldeb i gyflwyno'r gwasanaethau yma ar lefel lleol o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Golyga'r berthynas yma fod Cynulliad Cymru yn ymarfer dylanwad arwyddocaol dros yr Awdurdod. Ceir yn nodyn 14 wybodaeth am y berthynas gyllido sy'n bodoli rhwng y Cyngor a Chynulliad Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, drwy reolaeth gyffredinol gan Llywodraeth ganol, yn barti cysylltiedig i'r Cyngor. Cyfanswm y taliadau a wnaed i BIPBC gan y Cyngor am 2013/14 oedd £1.020m ac nid oedd unrhyw arian yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm y derbyniadau i'r Cyngor gan BIPBC oedd £2.174m, gyda £0.895m yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae nifer o sefydliadau'n annibynnol o'r Cyngor ond sy'n cael effaith ar ei feysydd gwasanaeth. Fel y gall y Cyngor gynnal partneriaethau effeithiol gyda nifer o'r sefydliadau hyn, mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, Cynghorwyr etholedig fel arfer, yn gwasanaethau ar amryfal bwyllgorau a fforymau sy'n gyfrifol amdanynt. Ceir rhestr o'r cyrff allanol a chynrychiolwyr y Cyngor arnynt yn Atodiad 1.

### **DIDDORDEBAU MEWN CWMNIAU**

Mae gan y Cyngor ddiddordeb o 50% mewn un cwmni, (Cwmni Cynnal Cyf.) a'r aelod arall yw Cyngor Gwynedd:-

#### **Cwmni Cynnal Cyf**

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau addysg leol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Mae cyfrifon y cwmni am 2012/13 yn dangos incwm net o £0.286m (£0.516m yn 2011/12). Trosiant y cwmni am 2012/13 oedd £5.766m (£5.910m yn 2011/12). Dengys cyfrifon cyhoeddiedig y Cwmni asedau net o £1.395m ar 31 Mawrth 2013 (asedau net yn £0.415m yn 2011/12).

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Nid yw adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2013 wedi ei gadarnhau. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14 cyfrifyddodd y Cyngor am gostau o £1.133m yn ymwneud a phrynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

### **Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf**

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyfyngedig, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei swyddogaeth yw darparu gwasanaethau arholiad a datblygu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliant eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14 cyfrifyddodd y Cyngor am gostau o £147,577 (£0.36m 2012/13) yn ymwneud a a phrynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y Cwmni am 2012/13 (h.y. at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi), yn dangos symudiad net positif mewn cronfeydd o £3.06m (symudiad net positif mewn cronfeydd o £3.98m yn 2011/12). Trosiant y cwmni am 2012/13 oedd £39.90m (£40.67m yn 2011/12) a'i asedau net yn £22.53m ar 30 Medi 2013 (£19.47m ar 30 Medi 2012).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Nid yw adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 30 Medi 2013 wedi ei gadarnhau.

### **Menter Môn Cyfyngedig**

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac yn un o dri aelod ar 31 Mawrth 2013. Mae'r cwmni yn hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14, cyfrifyddodd y Cyngor am £1.071m o daliadau i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£1.360m 2012/13).

Mae cyfrifon y Cwmni am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2012 yn dangos incwm net ar ôl treth o £0.053m (incwm net o £0.068m yn 2011). Trosiant y Cwmni am 2012 oedd £5.436m (£5.526m yn 2011) a'i asedau net yn £1.013m ar 31 Rhagfyr 2012, (£1.049m yn 2011).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Llys Goferydd, Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn. Nid yw adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2012 wedi cael ei gadarnhau.

### **Ysgol Sefydledig Caergeiliog**

Mae balansau ar gyfer asedau a rhwymedigaethau cyfredol dan reolaeth Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma, ac felly dim ond eu hasedau cyfredol net y mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y'u nodir yn y Fantolen hon, yn eu cynrychioli. Mae gan yr ysgol hefyd asedau nad ydynt yn gyfredol o £0.667m (£0.674m ar 31 Mawrth 2013) a nodir ar Fantolen yr ysgol, ar sail cyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu cyfuno yn y Fantolen hon.

## NODYN 39 - CRONFEYDD YMDDIRIEDOL

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adran Gyllid. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion, a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

### Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell UK Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu cyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrrff elusennol a gwirfoddol.

Yn 2013/14, derbyniodd y Cyngor £0.215m (£0.230m yn 2012/13) tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn.

### Cronfa'r Degwm

Ar hyn o bryd, gweinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd yr hen Gyngor Sir Gwynedd er bod cynlluniau i'w trosglwyddo i'r Cyngor hwn. Yn y cynllun i weinyddu'r gronfa dywedir y bydd raid defnyddio'r incwm at ddibenion elusennol - rhai addysgol, adloniadol a chymdeithasol - yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

### Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae 75% o'r incwm net o Stad Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd balansau'r Cronfeydd Ymddiriedol (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

<b>Crynodebau datganiad cyn eu harchwilio</b>	<b>2013/14 Incwm £000</b>	<b>2013/14 Gwariant £000</b>	<b>2013/14 Asedau £000</b>	<b>2013/14 Ymrwymadau £000</b>
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn(*)	1,176	438	20,816	1,941
Cronfa'r Degwm (**)	15	19	815	14
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn(***)	85	160	1,764	0

<b>Ailddatganwyd – Datganiadau wedi eu Harchwilio</b>	<b>2012/13 Incwm £000</b>	<b>2012/13 Gwariant £000</b>	<b>2012/13 Asedau £000</b>	<b>2012/13 Ymrwymadau £000</b>
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn(*)	2,202	342	19,640	1,504
Cronfa'r Degwm (**)	16	18	536	11
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn(***)	81	88	1,838	0

(\*) Ffigurau 2012/13 wedi eu hailddatgan i adlewyrchu'r cyfrifon terfynol

(\*\*) Cyfran y Cyngor yn unig

(\*\*\*) Ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn amodol ar eu harchwilio

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2014, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad yw £0.236m (£0.213m ar 31 Mawrth 2013).

## **NODYN 40 - CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2013/14, talodd y Cyngor Sir £2.99m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 14.17% o dâl pensiynadwy athrawon (£3.1m a 14.2% yn 2012/13). Yn ychwanegol, 'roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac ati a wnaed ar sail talu-wrth-fynd yn £DIM (£0.006m yn 2012/13). Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig, a manylir arnynt yn Nodyn 41 isod.

## **NODYN 41 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

### **Buddiannau Ymddeoliad**

#### **Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Awdurdod Leol**

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau, sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cyfranogi yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

## a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac felly, mae gwir gost buddiannau ymddeoliad yn cael eu gwrth-droi allan o'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y CIES a'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	2013/14 £000	2012/13 ailddatgan £000
<b>Cost y gwasanaeth yn cynnwys:</b>		
Costau cyfredol y gwasanaeth	9,996	4,160
Colledion ar setliadau neu gwtogiadau	76	243
<b>Cyfanswm cost y Gwasanaeth</b>	<b>10,072</b>	<b>4,403</b>
<b>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</b>		
Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig	12,275	11,093
Incwm llog ar Asedau'r Cynllun	(8,596)	(8,077)
<b>Cyfanswm y buddion Ôl-Gyflogaeth sy'n cael eu codi i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth y Gwasanaeth</b>	<b>13,751</b>	<b>7,419</b>
Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net)	489	(13,296)
Colledion Actiwaraidd yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	5,528	30,544
Elw a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	0	0
<b>Arall</b>	<b>0</b>	<b>23</b>
<b>Ailfesur yn llwyr yr ymrwymiad o ran buddion net diffiniedig yn cynnwys</b>	<b>6,017</b>	<b>17,271</b>
<b>Cyfanswm y buddion Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>19,768</b>	<b>24,690</b>
Gwyrddroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddion ymddeoliad yn unol â'r côd	5,101	(983)
<b>Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:</b>		
Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	8,650	8,402
<b>Cyfanswm y buddion Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>13,751</b>	<b>7,419</b>

## b) Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae ymrwymadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r ymrwymadau o ran Buddion Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2014.

<b>Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas ai gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:</b>	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	<b>Ailddatganwyd 31 Mawrth 2013 £000</b>
Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun	199,636	(190,773)
Gwerth Presennol Ymrwymadau'r Cynllun	(290,788)	(270,807)
<b>Ymrwymiad net yn codi o'r rhwymedigaethau diffiniedig</b>	<b>(91,152)</b>	<b>(80,034)</b>

**c) Cysoni Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun**

	2013/14 £000	2012/13 wedi ei ailddatgan £000
<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>270,807</b>	<b>230,971</b>
Cost gyfredol y gwasanaeth	9,996	4,160
Cost llog	12,274	11,092
Cyfraniadau gan y sawl sy'n rhan o'r cynllun	2,058	2,057
<b>Ailfesur (elw) a cholledion</b>		
Colledion actiwaraidd yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	5,529	30,544
Colledion actiwaraidd yn codi o eraill	0	23
Costau y gwasanaeth yn y gorffennol	0	0
Colledionar gwtogiadau	76	243
Ymrwymiadau tybiaethol mewn cyfuniad busnes	0	0
Ymrwymiadau a ddaeth i ben ar adeg setlo	0	0
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(1,042)	(1,031)
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(8,910)	(7,252)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>290,788</b>	<b>270,807</b>

**Cysoni gwerth presennol asedau'r cynllun:**

	2013/14 £000	2012/13 wedi'i ailddatgan £000
<b>Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill</b>	<b>190,773</b>	<b>167,224</b>
Incwm Llog	8,596	8,077
Elw ar asedau a gynlluniwyd (heb gynnwys gwariant llog net)	(489)	13,296
Cyfraniadau gan aelodau	2,058	2,057
Cyfraniadau gan y cyflogwr	7,608	7,371
Cyfraniadau mewn perthynas â buddion nad oeddynt yn cael eu cyllido	1,042	1,031
Buddion a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(1,042)	(1,031)
Buddion a dalwyd	(8,910)	(7,252)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>199,636</b>	<b>190,773</b>

**ch) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun**

Mae asedau cynllun Pensiwn y Cyngor yn cynnwys :-

	2013/14 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	2013/14 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	2012/13 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000	2012/13 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £000
Arian a chywerthoedd arian	4,864		4,219	
Buddsoddiad ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)				
Defnyddwyr	3,737		2,269	
Sefydliadau Ariannol	1,668		3,205	
Ynni a Chyfleustodau	4,779		5,786	
Iechyd a Gofal	8,847		9,619	
Technoleg Gwybodaeth	5,570		2,989	
Arall	9,107		9,190	
Buddsoddiadau Ecwiti Preifat		9,554		9,392
Ecwiti	44,780	58,485	4,247	58,706
Bondiau		29,673	38,500	25,212
Isadeiledd		881		
<u>Eiddo Tirïog</u>				
Eiddo yn y DU		17,181		16,361
Eiddo dramor		510		588
Deiliadau				
Chwyddiant				490
<b>Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau</b>	<b>83,352</b>	<b>116,284</b>	<b>80,024</b>	<b>110,749</b>
<b>Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol</b>		<b>199,636</b>		<b>190,773</b>

## Prif categorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau isod, fesul cyfran o'r holl asedau a ddelir:

	31 March 2014	31 March 2013
Arian a chyfwerthoedd arian		2%
<b>Buddsoddiadau ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)</b>	2%	
Defnyddwyr		1%
Ynni a chyfleustodau	2%	3%
Sefydliadau Ariannol	2%	2%
Iechyd a Gofal	1%	5%
Technoleg Gwybodaeth	4%	2%
Arall	3%	5%
<b>Buddsoddiadau Ecwiti</b>	5%	5%
	5%	
<b>Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Buddsoddi</b>		
Ecwiti		33%
Bondiau	52%	33%
Isadeiledd	15%	<1%
<b>Eiddo Tiriog</b>	<1%	9%
<b>Eiddo</b>	9%	<1%
Eiddo Tramor	<1%	
<b>Cyfanswm</b>	<b>100%</b>	<b>100%</b>

### d) Hanes y Cynllun

#### Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun

	31 Mawrth 2014 £000	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000	31 Mawrth 2011 £000	31 Mawrth 2010 £000
Gwerth Teg yr Asedau yn y cynllun pensiwn	199,636	190,773	167,224	165,562	175,644
Gwerth Cyfredol Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig	(290,788)	(270,807)	(230,971)	(212,134)	(311,535)
Diffyg yn y Cynllun	<b>(91,152)</b>	<b>(80,034)</b>	<b>(63,747)</b>	<b>(46,572)</b>	<b>(135,891)</b>

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos maint y rhwymedigaethau gwaelodol sydd gan yr Awdurdod i'w talu yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeoliad. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth o £290.8m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cofnodwyd yn y Fantolen, yn arwain at rwymedigaeth net o £91.1m.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Cyngor yn parhau i fod yn iach. Bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel yr asesir gan actwari'r cynllun, dros weddill oes waith y gweithwyr.



**dd) Y Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd:**

	2013/14	2012/13
<b>Rhagdybiaethau Marwoledd:</b>		
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol:		
Dynion	22.0 blwyddyn	20.5 blwyddyn
Merched	24.0 blwyddyn	23.0 blwyddyn
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol:		
Dynion	24.4 blwyddyn	23.3 blwyddyn
Merched	26.6 blwyddyn	25.6 blwyddyn
Graddfa Cynnydd Chwyddiant Pensiwn	2.8%	2.8%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	4.6%	5.1%
Dychweliad disgwylidig ar yr asedau	4.3%	4.5%
Graddfa ddisgownt	4.3%	4.5%
<b>Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:</b>		
Gwasanaeth i Ebrill 2008	50.0%	50.0%
Gwasanaeth ôl Ebrill 2008	75.0%	75.0%

**e) Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau posibl i'r rhagdybiaethau a all yn rhesymol ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n tybio yn achos pob rhagdybiaeth y cafodd y newidiadau eu dadansoddi tra roedd yr holl ragdybiaethau eraill yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd er enghraifft yn tybio y gall disgwylid oes ar gyfer merched a dynion gynyddu neu ostwng. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd ac efallai y bydd perthynas rhwng newidiadau yn rhai o'r rhagdybiaethau. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifo ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull cost uned rhagdybiedig. Nid wy'r dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn wahanol i'r dulliau a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd o'r blaen. Caiff y sensitifeddu mewn perthynas â'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymadau'r cynlluniau eu nodi isod:

Newid yn y rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2014	% y Cynnydd yn fras i'r Cyflogwr	Swm Ariannol Bras £'000
0.5% o ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt wirioneddol	10%	30,160
Cynnydd o 1 flwyddyn yn nysgwylid oes yr aelodau	3%	8,724
Cynnydd 0.5% yn y gyfradd gyflogau	4%	10,652
Cynnydd o 0.5% yn y pensiynau	7%	18,926

**f) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd mor gyson a phosib. Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari'r cynllun i sicrhau lefel gyllido o 100% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol. Caiff y prisiad tairblwyddol nesaf ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2016.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

Yn unol â'r Ddeddf, efallai na fydd yr GPLIL yn Lloegr a Chymru a'r prif gynlluniau cyfredol eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn darparu buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 yn achos y prif gynlluniau pensiwn eraill ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yn Lloegr a Chymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r cynllun mewn fframwaith cyffredinol er mwyn sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar yr enillion cyfartalog yn ystod gyrfu wedi eu hailbrisio er mwyn talu pensiynau a buddion eraill.

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiad sydd ar y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ôl-gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r rhwymedigaeth net o £91.52m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cafodd ei gofnodi yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach.

Gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu'r cyfraniadau dros weddill oes gweithio'r gweithwyr (h.y. cyn y bydd y taliadau'n ddyledus) yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun; nid oes angen cyllid ond i gwrdd â chostau buddion dewisol pan fydd y pensiynau'n cael eu talu.

#### **ff) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2014/15**

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn talu cyfraniad o £7.5m i'r cynllun yn 2014 /15. Mae hyd cyfartalog rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun ar ôl ei bwysoli yn 17.9 o flynyddoedd.

Roedd y swm sy'n parhau i fod yn daladwy i Gyngor Sir Gwynedd mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer 2013/14 yn £0.796m ar 31 Mawrth ac wedi ei gynnwys yn y nodyn datgelu ar gyfer credydwr tymor byr.

#### **NODYN 42 – RHWYMEDIGAETHAU AMODOL**

##### **Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi**

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o hawliadau cyflog cyfartal gan weithwyr presennol a chan gyn-weithwyr sydd wedi eu cyflwyno i'r Cyngor. Bwriada'r Cyngor amddiffyn yr hawliadau hyn. Fodd bynnag, ni wyddys i sicrwydd faint fydd y swm terfynol a fydd yn daladwy oherwydd amrywiadau posibl yn y symiau setlo yn achos hawliau cyfredol ac oherwydd y posibilrwydd y caiff hawliadau pellach eu cyflwyno.

##### **Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983**

Yn dilyn dyfarniadau a gadarnhawyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac adroddiad diweddar gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn lleoedd eraill, nid oedd grym i godi am wasanaethau a ddarparwyd dan Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'r Cyngor yn wynebu ad-daliadau. Mae chwe achos wedi eu setlo. Er bod nifer o achosion wedi cael eu setlo, mae cyfanswm yr ymrwymiad hwn yn anodd ei gyfrifo ond mae swm wedi ei neilltuo mewn cronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer ad-daliadau o'r fath ond ni wyddys i sicrwydd faint fydd yr ymrwymiad terfynol.

##### **Pier Biwmares**

Mae Pier Biwmares wedi cael ei adnewyddu fel rhan o'r Prosiect Amgylchedd Arfordirol. Er bod y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau, mae trafodaethau'n parhau ynghylch gwerth contract y gwaith a wnaed dan y contract. Efallai y bydd angen i'r Cyngor dalu swm ychwanegol dan y contract gwaith ond ni fedrir asesu gwerth y swm gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd.

#### **NODYN 43 – ASED AU AMODOL**

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda'r Cyngor hefo'r hawl am ran o'r enillon ar werthiant yr eiddo. Ar 31 Mawrth 2014 roedd 143 eiddo o'r fath a rhagamcanwyd mai'r uchafswm a ellid, o bosib ei dderbyn oedd tua £9.4m (£9.4m yn 2012/13). Fodd bynnag, bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn ac efallai bydd yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

## NODYN 44 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:-

	Tymor hir		Cyfredol	
	31 Mawrth 2014 £000	31 Maerth 2013 £000	31 Mawrth 2014 £000	31 Mawrth 2013 £000
<b>Buddsoddiadau</b>				
Benthyciadau a Derbyniadau	0	0	0	10,101
<b>Balansau Arian parod</b>				
Adneuon banc	0	0	11,498	5,834
<b>Cyfanswm arian a buddsoddiadau</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>11,498</b>	<b>15,935</b>
<b>Dyledwyr</b>				
Benthyciadau a Derbyniadau	460	433	8,337	8,098
<b>Cyfanswm Dyledwyr</b>	<b>460</b>	<b>433</b>	<b>8,337</b>	<b>8,098</b>
<b>Benthyciadau</b>				
Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio	89,583	89,590	6,850	11,977
<b>Cyfanswm Benthyciadau</b>	<b>89,583</b>	<b>89,590</b>	<b>6,850</b>	<b>11,977</b>
<b>Credydwyr</b>				
Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio	0	0	12,567	11,563
<b>Cyfanswm Credydwyr</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>12,567</b>	<b>11,563</b>

Nid yw dyledwyr a chredydwyr yn y tabl hwn yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, gwerth damcaniaethol yr absenoldebau sydd wedi cronni ac sy'n ddyledus i staff ac incwm a thaliadau'n codi o drethi sy'n golygu hefyd fod trafodion sy'n ymwneud â'r dreth gyngor a threthi busnes hefyd wedi eu gadael allan.

## Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion

Caiff yr enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol eu mesur fel a ganlyn:-

	2013/14			2012/13		
	Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £000	Cyfanswm £000	Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau wedi eu hailddatgan £000	Cyfanswm £000
Treuliau Ilog	5,274	0	5,274	5,316	0	5,316
<b>Cyfanswm treuliau mewn Gwarged neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>5,274</b>	<b>0</b>	<b>5,274</b>	<b>5,316</b>	<b>0</b>	<b>5,316</b>
Incwm Ilog	0	(185)	(185)	0	(284)	(284)
<b>Cyfanswm incwm mewn Gwarged neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>(185)</b>	<b>(185)</b>	<b>0</b>	<b>(284)</b>	<b>(284)</b>
<b>Enilliad/(Colled) Net am y flwyddyn</b>	<b>5,274</b>	<b>(185)</b>	<b>5,089</b>	<b>5,316</b>	<b>(284)</b>	<b>5,032</b>

## Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau ariannol, asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau a dyledwyr a chredydwyr tymor hir yn cael eu cario yn y Fantolen ar gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Amrediad amcangyfrifedig graddfeydd llog ar 31 Mawrth 2014 o 2.181% i 4.32% ar gyfer benthyciadau o'r Bwrdd Gwaith Benthycia Cyhoeddus (PWLb) wedi ei seilio ar y graddfeydd benthycia newydd ar gyfer benthyciadau cyfatebol ar y dyddiad hwnnw;
- Ni chydnyddir ad-daliad cynnar neu amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu yn y 12 mis nesaf, tybir bod y swm a gludir yn cyfateb yn fras i werth teg;
- Cymerir bod gwerth teg dyledwyr a chredydwyr tymor byr yn cyfateb i'r swm y maent yn eu cario ar ddyddiad y Fantolen.

Dadansoddiad yn ôl dyddiad aeddfedu:

### 2013/14

	2013/14 Prifswm Gweddillol £000	2013/14 Llog wedi Cronni £000	2013/14 Cost lai Amorteiddio Cronedig £000
>25 blwyddyn	60,514	0	60,514
15-25 blwyddyn	2,187	0	2,187
10-15 blwyddyn	2,638	0	2,638
5-10 blwyddyn	13,707	0	13,707
2-5 blwyddyn	10,529	0	10,529
1-2 blwyddyn	8	0	8
<b>Cyfanswm y benthyciadau tymor hir</b>	<b>89,583</b>	<b>0</b>	<b>89,583</b>
<b>Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (&lt; 1 blwyddyn)</b>	<b>7</b>	<b>1,681</b>	<b>1,688</b>

### 2012/13

	2012/13 Prifswm Gweddillol £000	2012/13 Llog wedi Cronni £000	2012/13 Cost lai Amorteiddio Cronedig £000
>25 blwyddyn	60,515	0	60,515
15-25 blwyddyn	2,213	0	2,213
10-15 blwyddyn	4,482	0	4,482
5-10 blwyddyn	16,848	0	16,848
2-5 blwyddyn	5,526	0	5,526
1-2 blwyddyn	6	0	6
<b>Cyfanswm y benthyciadau tymor hir</b>	<b>89,590</b>	<b>0</b>	<b>89,590</b>
<b>Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (&lt; 1 blwyddyn)</b>	<b>6,507</b>	<b>1,940</b>	<b>8,447</b>

Mae'r gwerth teg a gyfrifir fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2014		31 Mawrth 2013	
	Swm Cario £000	Gwerth Teg £000	Swm Cario £000	Gwerth Teg £000
Rhwymedigaethau Ariannol	94,629	115,177	99,627	126,953
Credydwyr Tymor Hir	59	59	4	4

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau yn fwy na'r swm a gludir oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fenthyciadau yn cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog yn uwch na'r graddfeydd cyffredinol ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog uwchben y graddfeydd marchnad bresennol yn cynyddu faint sydd raid i'r Cyngor ei dalu, pe gofynnai'r benthyciwr am, neu y cytunai ar, ad-daliad cynnar o'r benthyciadau.

	31 Mawrth 2014		31 Mawrth 2013	
	Swm Cario £000	Gwerth teg £000	Swm Cario £000	Gwerth teg £000
Benthyciadau a derbyniadau	11,958	12,015	16,368	16,482

Mae gwerth teg yr asedau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fuddsoddiadau'n cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog a dderbynnir yn uwch na'r graddfeydd sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen. Dengys hyn enilliad tybiannol i'r dyfodol (wedi'i seilio ar amodau economaidd ar 31 Mawrth 2014) y priodolir i'r ymrwymiad i dderbyn llog uwchlaw'r graddfeydd marchnad bresennol.

## **NODYN 45 - DATGELU NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae gwaith y Cyngor yn codi sawl risg ariannol:

**Risg Credyd** - y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fydd yr arian gan y Cyngor i gwrdd ag ymrwymadau yng nghyswllt taliadau.

**Risg y Farchnad** - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

### **Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi oherwydd yr adneuo'n mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen).

Nid ydym yn trefnu adneuo'n gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu harchwilio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o gyfyngiadau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol gyrff, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthycu rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'n monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynnyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn crynhoi'r potensial i'r Cyngor fod yn agored i risg credyd, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygion a methu â chasglu dros yr ugain mlynedd diwethaf.

	Swm 31 Mawrth 2014 £000	Profiad hanesyddol o ddiffyg talu %	Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2013/14 * £000	Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2012/13 * £000
Banciau a Chyrrff Ariannol (dim wedi Gwladoli)	2,546	0	0	0
Banciau DU sydd Wedi Gwladoli/ Gwladoli'n Rhannol	8,952	0	0	0
Awdurdodau Lleol y DU	0	0	0	0
	3,146	10	315	287
Dyledwyr masnach dan 1 flwyddyn	435	20	87	81
Dyledwyr masnach rhwng 1-2 flynedd	837	30-70	419	468
Dyledwyr masnach rhwng 2-6 blynedd	138	100	138	214
Dyledwyr masnach 6+ blwyddyn				
<b>Cyfanswm dyledwyr masnach</b>	<b>4,556</b>		<b>959</b>	<b>1,050</b>

\* Amcangyfrif o Swm Uchaf y Diffyg a Dyledion Anghasgladwy y gall y Cyngor fod yn agored iddynt

Roedd yr holl adneuron a oedd yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu gwneud yn wreiddiol am lai na blwyddyn.

Ni aethpwyd tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorwyd unrhyw feini prawf gwrthbartion. Nid yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd unrhyw golledion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartion yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuron. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o ddiffyg ac mewn ymateb mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf credyd llymach ar gyfer gwrthbartion buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Mae'r dyledwyr masnachol a ddangosir yn y rhan hon yn ymwneud â dyledion sy'n cael eu casglu drwy system mân-ddyledwyr amrywiol y Cyngor yn unig. Mae'r ffigurau dyledwyr a ddangosir yn nodyn 24 y Datganiad yn cyfeirio at y swm llawn sy'n ddyledus i'r Cyngor o bob ffynhonnell, gan gynnwys grantiau'r llywodraeth, y dreth gyngor a chyfraddau busnes a gaiff eu casglu ar wahân i'r mân-ddyledion.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae gan y Cyngor weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar gyfer rhai dyledion gohriedig fel hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal.

Gellir dadansoddi dyledwyr masnach y Cyngor yn ôl oed fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2014 £000	31 Mawrth 2013 £000
Llai na chwe mis	2,617	2,453
Chwe mis i flwyddyn	529	416
Dros flwyddyn	1,410	1,566
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,556</b>	<b>4,435</b>

Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach gan gynnwys benthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeedig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cilyddol gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i hawlio dyledion yn ôl yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig.

## Risg Hylifedd

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael arian ac mae'r Cyngor hefyd bob amser yn rhydd i fynd at y Bwrdd Benthycia ar gyfer Gweithiau Cyhoeddus (PWL) fel corff i fenthycia oddi arno ar ôl methu fel arall. Felly nid oes risg sylweddol y bydd yn methu â chodi'r arian i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn anffafriol. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd rhagor na 30% o'r benthyciadau i'w had-dalu mewn unrhyw gyfnod o 3 blynedd, ac asesu'n gyson gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle'r rhai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn nodyn 44 ar dudalen 76.

Mae holl daliadau masnach a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

## Risg y Farchnad

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol - byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthycia'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog oddi ar y PWLB, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog ar y pryd a rhagolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr, yna ailasesid y sefyllfa portffolio ac mae'n debygol y byddai hynny'n arwain, fel arfer, at godi cyllid cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.

Mae'r cyfan o holl fenthyciadau'r Cyngor ar hyn o bryd ar gyfraddau sefydlog. Byddai effaith cynnydd 1% mewn cyfraddau llog felly ond yn effeithio'r llog a dderbynnir ar ei fuddsoddiadau a benthyciadau cyfredol ac ar y nifer cyfyngedig o fenthyciadau tymor hir sydd gan y Cyngor ar gyfraddau amrywiol. Petai'r cyfraddau llog wedi bod 1% uwch, gyda'r holl amrywiadau eraill yn parhau'n gyson, dyma fyddai'r effaith ariannol:-



<b>Risg o ran Cyfraddau Llog</b>	<b>2013/14 £000</b>	<b>2012/13 £000</b>
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol gyfredol	0	0
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau tymor hir cyfradd amrywiol	0	0
Cynnydd yn y llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau llog amrywiol cyfredol	231	285
Cyfran yr effaith gyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai	10	8
<b>Effaith Net ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>241</b>	<b>293</b>

**Risg Cyfnewid Arian Tramor** – Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau cymorth grant cymharol fach dan raglen 'Interreg' ble bo'r corff arweiniol yn sefydliad Gwyddelig, ac mae'r grantiau mewn arian Ewro. Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn ac i leihau effaith symudiadau mewn graddfeydd cyfnewid. Roedd y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn yn 1.323m Ewro (1.219m yn 2012/13): cyfateb i £1.093m (£1.035m yn 2012/13).

#### **NODYN 46 – CYD-BWYLLGORAU**

Mae'r Cyngor a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r is-bwyllgorau isod:

- Cyd-bwyllgor Cynllunio
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r Cyngor a Chyngorau Gwynedd, Conwy, Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o gydbwyllgor GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am weithrediad y tri chydbwyllgor a chaiff y balansau diwedd blwyddyn eu hadlewyrchu yn eu mantolenni ac fe'u dangosir yn y tabl isod:

	Cyd-bwyllgor GwE		Cyd-bwyllgor Cynllunio		Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	
	2013/14 £000	2012/13 £000	2013/14 £000	2012/13 £000	2013/14 £000	2012/13 £000
Dyledwyr Tymor Byr	1,041	0	45	107	311	189
Credydwyr Tymor Byr	(440)	0	(45)	(107)	(34)	(24)
<b>Asedau Net</b>	<b>601</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>277</b>	<b>165</b>

#### **NODYN 47 – TROI TAI'N GARTREFI**

Mae'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru yn gweithredu fel asiantiaid Llywodraeth Cymru i ddarparu benthyciadau ailgylchadwy dan y Cynllun Troi Tai'n Gartrefi, ar gyfer trwsio eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir gyda'r nod o ddod â nhw yn ôl i ddefnydd. Cyngor Sir Y Fflint yw'r awdurdod arweiniol/bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Derbyniwyd cyfanswm o £2.333m mewn incwm gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2013/14 gyda thaliadau yn erbyn y swm hwn yn dod i £2.060m ac o'r swm hwnnw, neilltuwyd £160k i'r Cyngor hwn. Yn 2012/13, derbyniwyd £1.847m gan Lywodraeth Cymru ac o'r swm hwnnw, neilltuwyd £0.301m i'r Cyngor hwn.

#### **NODYN 48 – Y DRETH GYNGOR**

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i Gyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen i'r Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 oedd £29,662.00 (£29,856.38 yn 2012/13).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2013/14, £1,194.14 (£1,139.68 yn 2012/13) yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol a bydd hynny wedyn, ar ôl caniatáu disgownt a budd-dal, yn rhoi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Caiff Sylfaen y Dreth Gyngor ei weithio allan fel a ganlyn:

Band	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I	Cyfanswm
Cyfanswm yr Anheddau	15	3,901	5,885	5,866	6,517	4,923	2,320	974	141	42	30,584
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9	
Band "D"											
Cyfatebol	8.06	2,600.67	4,576.83	5,214.44	6,516.50	6,017.00	3,350.39	1,623.33	284.50	98.00	30,289.72

	2013/14 £000	2012/13 £000
Band D cyfatebol fel yr uchod	30,289.72	30,179.55
Cyfradd Gasglu	97.50%	98.50%
Band D cyfatebol diwygiedig	29,532.48	29,726.86
Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol	129.52	129.52
<b>Sylfaen y Dreth Gyngor am 2013/14</b>	<b>29,662.00</b>	<b>29,856.38</b>

### Sylfaen y Dreth Gyngor am 2013/14

**29,662.00**

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Cyllidwyd hyn yn rhannol gan y grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o £5.166m (gweler nodyn 14).

Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:	2013/14 £000	2012/13 £000
Y Dreth Gyngor Gros	35,739	33,939
Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylfeydd	(5,394)	0
Treth Gyngor sy'n Gasgladwy	<b>30,345</b>	<b>33,939</b>
Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nas cyfrifwyd amdano o'r blaen	(362)	(67)
<b>Enillion Net o'r Dreth Gyngor</b>	<b>29,983</b>	<b>33,872</b>

### NODYN 49 – TRETHI CENEDLAETHOL ANNOMESTIG (TCA)

Mae'r TCA yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn pennu cyfradd – 46.2c yn 2013/14 (45.2c yn 2012/13, ac mae busnesau lleol yn talu trethi a gyfrifir trwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r elw i'r Gronfa Genedlaethol o Drethi Annomestig dan weinyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Mae CCC yn aiddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i awdurdodau lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TCA, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau (yn cynnwys Rhyddhad Trethi Busnesau Bach LIC), yn £9.651m yn 2013/14 (£14.606m yn 2012/13) yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £38.727m (£40.292m yn 2012/13). Yn ystod 2013/14, roedd gostyngiad sylweddol yn yr incwm TCA oherwydd

- Gostyngiad sylweddol yng ngwerth trethadwy etifeddiant ynni mawr ac yn ogystal, ôl-ddyddiwyd y gostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf;
- Gostyngiad sylweddol i waith diwydiannol mawr sydd ond yn cael ei ddefnyddio'n rhannol erbyn hyn.

Y gwerth trethadwy ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn oedd £39.103m (£41.793m yn 2012/13).

Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:	2013/14 £000	2012/13 £000
Trethi annomestig casgladwy	9,651	14,606
Cost lwfans casglu	(142)	(143)
Llog dalwyd ar ordaliadau	0	1
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	(181)	(133)
Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusenol/gwledig	55	68
Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol	<b>9,383</b>	<b>14,399</b>
Aiddosbarthu o'r gronfa genedlaethol	<b>22,025</b>	<b>18,787</b>

**DATGANIAD ARIANNOL ATODOL  
CYFRIF REFENIW TAI**

**Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2014**

	2013/14 £000	2012/13 £000
<b><u>Incwm</u></b>		
Incwm rhent gros:		
-Rhenti preswyl	(13,022)	(12,413)
-Rhenti dibreswyl	(198)	(184)
-Taliadau am gyfleusterau a gwasanaethau	(54)	(20)
-Cyfraniadau tuag at wariant	(63)	(428)
Arall	(147)	(71)
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(13,484)</b>	<b>(13,116)</b>
<b><u>Gwariant</u></b>		
Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw	4,577	3,331
Goruchwyllo a Rheoli		
-Cyffredinol	2,100	1,753
- Arbennig	805	634
Rhenti, Ardrethi a Trethi Eraill	72	104
Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai taladwy	1,696	1,888
Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	5,664	5,324
Costau rheoli dyled	15	15
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	245	46
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>15,174</b>	<b>13,095</b>
<b>Cost Net Gwasanaethau CRT</b>	<b>1,690</b>	<b>(21)</b>
Symudiad cronnus Absenoldebau Cronedig	7	(11)
<b>Cost Net Gwasanaethau CRT fel yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>1,697</b>	<b>(32)</b>
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Corfforaethol a Craidd Democraidaidd	56	55
<b>Cost Net Gwasanaethau CRT</b>	<b>1,753</b>	<b>23</b>
Colled ar werthiant Asedau CRT nad ydynt yn gyfredol	109	8,065
Llog sy'n daladwy a threuliau cyffelyb	1,202	1,296
Incwm buddsoddiad CRT	(8)	(8)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau derbyniadwy	(2,600)	(2,600)
<b>Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT</b>	<b>456</b>	<b>6,776</b>

## Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

### Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

	2013/14 £000	2012/13 £000
Gwahaniaeth rhwng y symiau a godir ar incwm a gwariant ar gyfer Amorteiddiad premiymau a disgownt a bennwyd yn unol â'r Còd a'r tâl am y flwyddyn yn unol â statud	(13)	(31)
Dibrisiant ac amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	(5,664)	(5,324)
Croniad Absenoldebau Cronnus	(7)	11
Colled ar werthiant asedau CRT nad ydynt yn gyfredol (yn cynnwys dadgydnabod)	(109)	(8,065)
Taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol ag IAS 19	0	0
<b>Eitemau na chynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a gynhwyswyd yn y symudiad ar y Balans CRT am y flwyddyn</b>	<b>(5,793)</b>	<b>(13,409)</b>
Trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn	2,643	3,616
Isafswm Darpariaeth Refeniw CRT	1,017	782
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a buddiannau ymddeoliad sy'n daladwy'n uniongyrchol i bensiynwyr	0	0
Gwariant cyfalaf a gyllidwyd gan y CRT	488	2,000
	<b>4,148</b>	<b>6,398</b>
<b>Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w gredydu i'r Balans CRT am y flwyddyn</b>	<b>(1,645)</b>	<b>(7,011)</b>

### Nodyn i'r Datganiad Symudiad ar Falans y CRT

	2013/14 £000	2012/13 £000
Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT	456	6,776
Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w gredydu i'r CRT	(1,645)	(7,011)
<b>Cynnydd yn y Balans CRT</b>	<b>(1,189)</b>	<b>(235)</b>
<b>Cyfrif Balans CRT a ddygwyd ymlaen</b>	<b>(482)</b>	<b>(247)</b>
<b>Cyfrif Balans CRT i'w ddwyn ymlaen</b>	<b>(1,671)</b>	<b>(482)</b>

## **NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI**

### **NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarpariaeth tai awdurdod lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

### **NODYN 2 – STOC DAI**

Yn ystod 2013/14. Gwerthodd y Cyngor 3 annedd dan y Cynllun Hawl i Brynu (gweler nodyn 5). Roedd nifer yr anheddau yn stoc dai'r Awdurdod, ar 31 Mawrth 2014, yn 3,802 eiddo. Mae'r anheddau wedi eu rhannu fesul math fel a glyn:

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
<b>Stoc y Cyngor</b>		
Tai	2,030	2,033
Byngalos	1,044	1,044
Fflatiau	721	721
Fflatiau un ystafell	7	7
<b>Cyfanswm Stoc y Cyngor</b>	<b>3,802</b>	<b>3,805</b>

### **NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI**

	2013/14 £000	2012/13 £000
<b>Buddsoddiad cyfalaf</b>		
Tai	3,169	8,751
	<b>3,169</b>	<b>8,751</b>
<b>Ffynonellau ariannu</b>		
Benthycia wedi'i gefnogi	0	(4,121)
Derbyniadau Cyfalaf	(81)	(30)
Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill	(2,600)	(2,600)
Cyllido Refeniw Uniongyrchol	(488)	(2,000)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(3,169)</b>	<b>(8,751)</b>

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.6m yn llawn yn ystod 2013/14 (£2.6m yn 2012/13)).

### **NODYN 4 – DIBRISANT AC AMHARIAD MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR**

	2013/14 Amhariad £000	2013/14 Dibrisiant £000	2013/14 Cyfanswm £000	2012/13 Amhariad £000	2012/13 Dibrisiant £000	2012/13 Cyfanswm £000
Tir	0	0	0	0	0	0
Tai	2,969	2,565	5,534	2,534	2,660	5,194
Eiddo Arall – Asedau Gweithredol	0	130	130	0	130	130
	<b>2,969</b>	<b>2,695</b>	<b>5,664</b>	<b>2,534</b>	<b>2,790</b>	<b>5,324</b>

## NODYN 5 – DERBYNIADAU CYFALAF O WAREDU TIR, TAI AC EIDDO ARALL YN Y CYFRIF REFENIW TAI

	2013/14 Nifer gwerthiannau	2013/14 £000	2012/13 Nifer gwerthiannau	2012/13 £000
<b>Anheddau Cyngor</b>				
Hawl i Brynu	3	189	2	126
Ad-dalu disgownt		0		0
<b>Derbyniadau Arall</b>				
Gwerthiant tir	0	0	0	0
Gwerthiant eiddo arall				
Eiddo Morgais		33		0
		<b>222</b>		<b>126</b>
Llai Gosod o'r Neilltu		(141)		(8)
		<b>81</b>		<b>118</b>

## NODYN 6 – CYMHORTHDAL TAI

Yn 2013/14, talodd y Cyngor £1.696m mewn cymhorthal tai i Lywodraeth Cymru (£1.888m yn 2012/13).

## NODYN 7 – ÔL-DDYLEDION RHENT A DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS

Roedd ôl-ddyledion rhent ar 31 Mawrth 2014 yn £0.759m (£0.757m ar 31 Mawrth 2013). Nid yw hyn yn cynnwys blaendaliadau o £0.174m ar 31 Mawrth 2014 (£0.135m ar 31 Mawrth 2013).

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg ddyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £0.428m ar gyfer rhenti (£0.458m yn 2012/13).

## NODYN 8 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a ariennir, sy'n golygu fod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o'r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:

Cyfrif Incwm a Gwariant CRT	2013/14 £000	2012/13 £000
Cost Gwasanaeth Gyfredol	(195)	(169)
Cyfraniadau Cyflogwr a dalwyd yn wirioneddol	195	169
<b>Cyfraniad i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Ni fu'n bosib pennu faint o gost llogau pensiwn a dychweliad disgwylidig ar yr asedau'r adroddiad actiwaiaid sy'n gysylltiedig â'r Cyfrif Refeniw Tai, felly mae'r rhain wedi eu dyrannu'n llawn i Gronfa'r Cyngor.

**DATGELIAD PARTION CYSYLLTIEDIG CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID  
GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI**

Sefydliadau Trydydd Parti	Cynrychiolaeth Cydranddeiliaid
Age Concern Gwynedd a Môn	Jim Evans
Grŵp Mynediad Ynys Môn	Robert G Parry OBE
CAB Ynys Môn	Robert Llewelyn Jones
Cyngor Iechyd Cymuned Môn	Ann Griffith & Jeffrey M Evans
Cydbwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn)	Lewis Davies, Richard A Dew, Derlwyn Rees Hughes, Victor Hughes & J Arwel Roberts
Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr	Kenneth P Hughes
Eiriolydd Gofalwyr	Llinos Medi Huws
Llys Llywodraethwyr, Prifysgol Cymru, Bangor	Ieuan Williams
Cwmni CYNNAL CCC	Alwyn Rowlands
Cwmni Fran Wen	R Meirion Jones
Cymdeithas Tai Eryri	Kenneth P Hughes
Pwyllgor Rheoli CYNNAL	R Meirion Jones & Ieuan Williams
Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn	Kenneth P Hughes & Alun Wyn Mummery
Grŵp Llandrillo/Menai	Ieuan Williams
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn	Ieuan Williams
Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-dal)	Hywel Eifion Jones
Gwasanaeth Effeithiolrwydd Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)	Ieuan Williams
Grŵp Ymgynghorol Prosiect Horizon Nuclear	John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones & Dafydd Rhys Thomas
Cyd-gyngor Cymru	John Griffith
Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd)	Ieuan Williams
Arweinydd ar gyfer Diogelu Oedolion	Kenneth P Hughes
Medrwn Môn	Ieuan Williams
Aelod o'r Bwrdd Consortium Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW)	Richard A Dew & Kenneth P Hughes
Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Afon Menai	NEB
Menter Môn	Aled Morris Jones
Cyd-bwyllgor Cefnfyrrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Richard A Dew & Victor Hughes
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru	Aled Morris Jones & Ieuan Williams
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Lewis Davies, Jim Evans & Jeffrey M Evans
Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jim Evans
Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Lewis Davies & Jeffrey M Evans
Cymdeithas Dai Gogledd Cymru	Kenneth P Hughes
Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	William Thomas Hughes
Grŵp Llywio – Adolygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru	J Arwel Roberts
Cyd-bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Richard A Dew & J Arwel Roberts
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Aled Morris Jones
Cyd-bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig	Gwilym O Jones (Cadeirydd) Trefor Lloyd Hughes, Llinos Huws R Meirion Jones, R Llewelyn Jones Derlwyn Hughes

<b>Sefydliadau Trydydd Parti</b>	<b>Stakeholder</b>
Tribiwnlys Priso Gogledd Cymru - Cyd-Banel Penodi	Hywel Eifion Jones
Eiriolydd Pobl Hŷn	Robert Llewelyn Jones
Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy	Derlwyn Rees Hughes
Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd)	Hywel Eifion Jones
Cyd-Bwyllgor Effeithiolrwydd a Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol	Ieuan Williams
Datganiad Technegol Rhanbarthol (Fforwm Aelodau)	J Arwel Roberts
Cyd-bwyllgorTAITH	Richard A Dew & Robert G Parry
TALNET (Cymdeithas Lyfryddol ar y Cyd)	Richard A Dew & Vaughan Hughes
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	Jim Evans, Kenneth P Hughes, Alun Wyn Mummery, Alwyn Rowlands & Ieuan Williams
Cydbwyllgor Addysg Cymru	Ieuan Williams
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	J Arwel Roberts & Ieuan Williams
Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa	John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones & Alwyn Rowlands



# **GEIRFA**

## **ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

## **ADNODDAU HYLIFOL**

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

## **AMHARIAD**

Lleihad mewn gwerth ased nad yw'n gyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

## **ARCHWILIO CYFRIFON**

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

## **ASED**

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categorio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol, (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

## **ASED AMODOL**

Mae ased amodol yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

## **ASEDAU ANNIRWEDDOL**

Gellir diffinio eitem annirweddol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Annirweddol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

## **ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

## **ASEDAU ISADEILEDD**

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

### **ASEDAU GWEITHREDOL**

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

### **ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**

Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

### **ASEDAU TREFTADAETH**

Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol, neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

### **BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

### **BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

### **BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

### **BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

### **BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

### **BUSNES HYFYW**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

### **BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycia ei hun.

### **CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo.

### **CONTRACT TYMOR HIR**

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

### **COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

### **COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

### **COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

### **COST LLOG (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

### **CRAIDD CORFFORAETHOL DEMOCRATAIDD**

Mae'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

### **CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur referniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf fel y Gronfa Ailbrisi Wrth Gefn i gwrdd â gwariant cyfredol.

### **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

### **CRONIADAU**

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm referniw a chyfalaf a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

### **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

### **CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

### **CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

### **CYLLIDEB**

Rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf net dros y flwyddyn ariannol.

### **CYLLIDO CYFALAF**

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf deffiniad, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **CYMHORTHDAL NEGYDDOL**

Dengys y cyfrifiad Cymhorthdal Tai Cyfrif Refeniw Tai fod incwm tybiedig y Cyngor yn fwy na gwariant gan arwain at "gymhorthdal negyddol". Yn yr achos hwn, rhaid i'r Cyngor dalu swm sy'n cyfateb i'r diffyg, o'i Gyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### **CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

### **CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

### **DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

### **DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

### **DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

### **DIBRISANT**

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technol neu rai eraill.

### **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

### **DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

## **DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

## **DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## **EITEMAU ANGHYFFREDIN**

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau o'r flwyddyn flaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â'r flwyddyn flaenorol.

## **ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARIAID**

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

## **GRANT CYNNAL REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

## **GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfriad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuoel neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

## **GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

## **GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar gaffael ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol.

## **GWARIANT REFENIW**

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

## **GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

## **GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

## **GWERTH LLYFR NET**

Y swm y mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

## **GWERTH NET**

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

## **GWERTH TEG**

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

## **GWERTH TRETHADWY**

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

## **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

## **LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronodig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n yn lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

## **MATEROLIAETH**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

## **OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased nad yw'n gyfredol.

## **PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn IAS 24. I bwrpasu'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu'n ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

## **PRAESEPT**

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

## **PRYDLES ARIANNOL**

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased nad yw'n gyfredol i'r prydleswr.

## **PRYDLES WEITHREDOL**

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased nad yw'n gyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

## **RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

## **RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau deffiniad, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

## **RHWYMEDIGAETH**

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

## **RHWYMEDIGAETH AMODOL**

Mae rhwymedigaeth amodol naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

## **RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

## **TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)**

Mae'r Trethi Annomestig Cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

## **TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

## **Y FANTOLEN**

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### **1 CEFNDIR**

Hwn yw'r Datganiad Llywodraethu cyntaf ar gyfer y Cyngor a etholwyd ar wardiau newydd ym Mai 2013 ar ddiwedd cyfnod o ymyrraeth llywodraeth. Mae'n gosod allan y trefniadau llywodraethu oedd yn eu lle ar gyfer y flwyddyn gan ganolbwyntio ar faterion llywodraethu arwyddocaol cyfredol mewn perthynas â chaniatáu i'r awdurdod gyflawni ei weledigaeth. Mae'n tynnu sylw at newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ac mae'n cynnwys gwerthusiad byr lle mae gwendidau neu welliannau sylweddol yn cael eu nodi.

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu, ac fe ymgorfforwyd y rhain yn y Cynllun Trawsnewid ar gyfer yr awdurdod a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2013 yn gosod yr agenda ar gyfer ei waith hyd at 2016. Fe'i cynlluniwyd fel rhaglen o newid yn cael ei yrru gan y Cyngor ei hun. Ein gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn, erbyn 2016:

***“Yn Gyngor proffesiynol a threfnus sydd ag ymagwedd eangfrydig ac arloesol, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon, a werthfawrogi yn fawr gan ein dinasyddion.”***

Rydym hefyd yn pwysleisio y bydd sicrwydd a llywodraethiant yn allweddol i sicrhau y caiff y cynllun corfforaethol ei wireddu.

“Wrth wneud hynny, byddwn yn –

- darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i lawr at y broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygiad perfformiad unigol
- casglu a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad a chymryd camau i wella lle mae angen gwneud hynny
- cefnogi datblygiad prosesau'r Cyngor o ran gwneud penderfyniadau democrataidd a sgriwrtini
- cryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cyfraniad nhw at brosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau
- parhau i gryfhau ein prosesau sy'n ymwneud â chyllid ac adrodd ar y gweithlu a'i fonitro
- sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer delio â'n heriau ariannol, gan sicrhau fod gwasanaethau'n trawsnewid a bod arloesedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud”

Y chwe thema allweddol i gefnogi'r weledigaeth yw:

- **Proffesiynol a Threfnus**
- **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
- **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
- **Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl**
- **Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth**
- **Cyflawni**



Mae'r Datganiad Llywodraethu yn asesu'r trefniadau yn erbyn y chwe egwyddor llywodraethu:

Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol
Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir
Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad
Gwneud penderfyniadau tryloyw sydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael eu sgrwttineiddio'n effeithiol a rheoli risg
Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol
Ymgysylltu gyda phobl leol a chydranddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

## 2 CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol a'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, yn cael ei ddefnyddio'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwella parhaus yn digwydd o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Ceir copi o'r côd lleol ar ein gwefan yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-lywodraethu/lywodraethu-corrfforaethol/>. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r côd ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blyneddol ac yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## 3 PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Dylai alluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac yn ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gall ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus, wedi'i dylunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, asesu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei lle yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn.

## 4 Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel mae'n berthnasol i bob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Gorfforaethol yn yr atodiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol sydd ar gael yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-lywodraethu/lywodraethu-corrfforaethol/>.

Mae'r crynodeb sy'n dilyn yn pwysleisio'r gwendidau a'r gwaith a wnaed i ddatblygu a chryfhau'r fframwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14.

**Egwyddor Un: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol.**

**Thema Allweddol: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth; Cyflawni**

Roedd Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-15 yn parhau i arwain gwaith y Cyngor hyd nes mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol (2013-17) ar gyfer y Cyngor newydd ym mis Rhagfyr 2013. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) bod y Cynllun yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac yn egluro sut y mae'r blaenoriaethau yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â rhai'r Cyngor a phartneriaid eraill. Mae'r Cynllun Trawsnewid, a oedd yn allweddol i'r gwelliannau llywodraethu yn 2013, yn parhau i gefnogi trawsnewid yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth a'i flaenoriaethau. Er bod yr agweddau strategol yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol newydd mae'r agweddau eraill yn helpu i flaenoriaethu gwaith Byrddau Trawsnewid yr Awdurdod.

Roedd y Cynllun Strategol Integredig Sengl a ddatblygwyd o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi'i sefydlu erbyn 1 Ebrill 2013 yn ôl y gofyn, gan ddisodli'r Strategaeth Gymunedol a'r strategaethau ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Plant; a Diogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd bellach ar waith ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd ac mae Cynlluniau Integredig Sengl ardal y ddau gyngor yn cael eu cyfuno i roi ffocws newydd ar y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Cymeradwywyd cyllideb flynyddol a Strategaeth ar gyfer Cyllideb Refeniw Tymor Canol ym Mawrth 2013 a'i ddiweddarau yn Chwefror 2014 yn dilyn ymgynghori cyhoeddus. Rydym yn parhau i wneud toriadau ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Roedd y broses gyllidebol yn cynnwys trafodaeth gyhoeddus ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn; cadernid amcangyfrifon a threfniadau rheoli trysorlys yn ôl y disgwyl. Ni wnaed llawer o gynnydd yn ystod y flwyddyn ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, ac mae angen ei datblygu o hyd. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar Strategaeth Effeithlonrwydd i nodi a chadarnhau'r arbedion sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gytbwys. Mae'r toriadau parhaus i'r cyllid a'r galw cynyddol am wasanaethau ac ar gyfer gwell perfformiad yn her sylweddol i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig.

Cyhoeddwyd Datganiad Cyfrifon gyda barn archwilio ddiamod ar ddiwedd mis Medi 2013. Amlygodd Llythyr Archwilio Blynyddol yr archwiliwr fod gwall wrth gynhyrchu'r cyfrifon drafft a oedd wedi arwain at gamdatganiad o sylwedd, oedd wedi ei gywiro wedi hynny, gan gynnig gwelliannau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Cymeradwywyd adroddiad y Cynllun Gwella (Adolygiad Perfformiad) gan y Cyngor Sir ym mis Hydref 2013. Mae'r Cynllun yn edrych yn ôl er mwyn asesu ein perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau fel y cawsant eu nodi yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-13. Cafodd hyn ei asesu gan SAC yn ei Lythyr Asesiad Gwella a dywedwyd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cafwyd gweithdy Hunanasesiad Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2014 ac fe gynhwysir y casgliadau mewn datganiad o'r hunan asesiad

Mae trefniadau llywodraethu partneriaeth yn eu lle ar sail achos wrth achos, ond nid oes fframwaith partneriaeth cynhwysol yn ei le. Mae hyn wedi ei nodi fel gwendid wrth i bartneru a chomisiynu ddod yn fwy o flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae rhaglen waith yn cael ei gynllunio. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu a chraffu ar waith ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd newydd a'r Uned Partneriaeth ar y Cyd cysylltiedig. Mae cynllun trawsnewid yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod y trefniadau hyn yn effeithiol a bod y bartneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i amcanion y sefydliadau cyfansoddol.

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y ffordd y mae safonau ansawdd gwasanaeth yn cael eu gosod a'u mesur, ac anghenion gwybodaeth yn cael eu hasesu a'u gwella. Cryfhawyd y broses o osod targedau yn ystod y flwyddyn er bod lle i wella. Roedd gwendidau o ran rheoli perfformiad ac atebolrwydd wedi cyfrannu at y diffygion yn Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae bellach yn cael ei gydnabod bod gwelliannau o ran cynllunio ac atebolrwydd wedi gwella'r rhagolygon ar gyfer y gwasanaethau allweddol hyn. Bydd arferion da yn y gwasanaethau hyn eu hystyngiadau i rannau eraill o'r Cyngor.

Roedd Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys cardiau sgorio chwarterol, heriau hanner blwyddyn i Wasanaethau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Pwyllgor Sgriwtini. Mae'r fframwaith yn parhau i gael ei datblygu i ganolbwyntio ar hunanasesiad gan Benaethiaid Gwasanaeth, ac ar y meysydd allweddol o risg a thrawsnewid. Mae hefyd yn canolbwyntio ar welliannau i adrodd ar y gweithlu a gwybodaeth ariannol. Yn ystod hydref 2013, cynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth a oedd yn cwmpasu cyllidebau a pherfformiad a oedd yn hysbysu proses y gyllideb.

Roedd trefniadau Rheolaeth Ariannol yn eu lle trwy'r flwyddyn, er bod gwendidau wedi eu hadnabod yn yr hen ledjer ariannol a systemau cysylltiedig a ddefnyddiwyd i gau'r cyfrifon ar gyfer 2012-13. Bwriad gweithredu system ariannol newydd a aeth yn fyw ym mis Ebrill 2013 oedd datrys y gwendidau hyn, ond mae gweithredu'r system wedi arwain at oedi a gwallau wrth wneud a chofnodi rhai trafodion. Yr effaith oedd bod bylchau mewn rheolaethau ariannol a diffyg cydymffurfio â rheolaethau system. Mae adnodd ychwanegol wedi ei gyflwyno i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, mae'r sefyllfa yn cael ei arolygu a Chynllun Gweithredu yn ei le i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill.

Roedd y gwaith a gynlluniwyd ar ddatblygu strategaeth gomisiynu a diweddarau polisiau a gweithdrefnau caffael wedi cael ei ohirio. Mae gwendidau o gydymffurfiaeth a Gwerth am Arian yn ymwneud â Chaffael a derbyniwyd adroddiad beirniadol gan ymgynghorydd yn ystod y flwyddyn. Mae Rhaglen Wella ar gyfer Caffael ar y gweill.

Mae Archwilio Mewnol yn adolygu ac yn adrodd ar brosesau sy'n cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor ac mae eu hadroddiad blynyddol yn rhan bwysig o'r adolygiad o effeithiolrwydd a ddisgrifir yn Adran 5 y Datganiad hwn.

Bu rheoli hawliadau grant yn wendid ers nifer o flynyddoedd ac roedd amod ar dystysgrif yr archwilydd ar ran uchel o'r hawliadau yn 2013. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro. Mae cynllun gweithredu mewn lle a chyhoeddir cyfarwyddiadau gweithredu newydd gyda hyn.

**Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.**

**Thema Allweddol: Proffesiynol a Threfnus**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn Pwyllgor Gwaith gydag Arweinydd a etholir gan y Cyngor ynghyd a Phwyllgor Gwaith o hyd at chwe aelod a benodir gan yr Arweinydd. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau ar faterion strategol allweddol ac yn gyfrifol am weithredu'r polisiau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Mae gan bob Cyngorydd bortffolio i swyddogaeth benodol y Cyngor. Mae dau bwyllgor sgrwtini yn dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif, mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith. Mae pwyllgorau rheoleiddio yn cynnwys Cynllunio, Trwyddedu, Apeliadau ac Archwilio, ynghyd â nifer o bwyllgorau eraill a sefydlwyd at ddibenion penodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau a'r cynllun dirprwyo i swyddogion ac aelodau wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r strwythur pwyllgorau ac i'r swyddogaeth sgrwtini dros y blynyddoedd diwethaf yn arbennig felly wrth baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2013 a'r gostyngiad yn nifer yr aelodau o ddeugain i ddeg ar hugain ac ar gyfer wardiau aml-aelod.

Mae Protocol Perthynas newydd rhwng Aelodau a Swyddogion ac yn ystod 2013 cytunwyd ar raglen, gyda chefnogaeth CLILC i gynorthwyo i ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a'r ffordd y mae aelodau ac uwch swyddogion yn cydweithio; mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Cwblhawyd strwythur uwch reoli'r Cyngor yn ystod 2012. Gwnaed adolygiad o'r haen nesaf – y Penaethiaid Gwasanaeth yn 2013-14 ac arweiniodd hyn at ostyngiad o chwe swydd ar y lefel hon. Roedd y dasg wedi ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2013.

Mae'r strwythur Uwch Reoli yn cynnwys Prif Weithredwr sydd wedi ei ddynodi'n Bennaeth y Gwasanaeth Tâl; Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am arwain ar swyddogaethau mewnol y Cyngor ac am sicrhau llywodraethu corfforaethol da; a thri Chyfarwyddwr sy'n arwain y rhaglenni ar gyfer eu grŵp o wasanaethau, gan gymryd cyfrifoldeb am bolisi, cynllunio a pherfformiad y swyddogaethau hynny. Y pum swyddog hyn yw Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) yr Awdurdod.

Y ddau Bennaeth Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau ac ar gyfer Busnes y Cyngor yw'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) dynodedig a'r Swyddog Monitro. Mae'r ddau swyddog yn adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli eu perfformiad ac am gydlyn eu swyddogaethau llywodraethu o fewn y fframwaith llywodraethu corfforaethol, perfformiad a rheoli newid.

Y model rheoli a gytunwyd yw bod yr UDA yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ac yn cael eu dal i gyfrif yn y swyddogaeth honno; a bod rôl weithredu gan y tîm rheoli ehangach. Mae'r PSC a'r Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd yr UDA yn ôl y galw ac yn aelodau allweddol o'r tîm Penaethiaid Gwasanaeth. Mae ganddynt fynediad parod at y Prif Weithredwr a'r UDA a'i aelodau unigol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn i'r Prif Weithredwr adolygu cyfrifoldebau a chyfansoddiad yr UDA.

Mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn asesu eu trefniadau yn flynyddol yn erbyn Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol ac yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth neu'n egluro unrhyw drefniadau gwahanol. Ers Ionawr 2013, mae'r model rheoli a gymeradwywyd yn fodel gwahanol i'r hyn a ragwelir gan Ddatganiad CIPFA ond bwriedir iddo gael yr un effaith. Mae effeithiolrwydd y protocol ar gyfer papurau pwyllgor wedi cael ei hadolygu, ac fe'i diwygiwyd a'i roi ar waith ym mis Chwefror 2014. Bydd effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei adolygu gan y rheolwyr yn Hydref 2014.

Mabwysiadodd y Cyngor y Safonau Archwilio Mewnol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2013 Mae yna hefyd ddisgwyliad bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae trefniadau'r Cyngor yn gyson â'r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad. Cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd Archwilio Mewnol.

Roedd rhai gwasanaethau corfforaethol wedi eu cryfhau fel rhan o'r ymateb i'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009. Yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i'r toriadau yn y gyllideb, ac anawsterau o ran recriwtio, mae nifer o wasanaethau corfforaethol yn awr yn edrych ar ffyrdd o reoli'r galw cleient gan swyddogaethau rheng flaen ac maent ar hyn o bryd yn destun adolygiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

Telir lwfansau i aelodau yn ôl trefn leol sy'n seiliedig ar benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddwyd adroddiadau penodol i'r Cyngor hwn ynglŷn â'r flwyddyn dan sylw. Y Cyngor Llawn sy'n penderfynu ar faterion dewisol ac mae'r cynlluniau, a'r taliadau a wnaed i aelodau dan y cynllun, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mabwysiadwyd Datganiad Polisi Tâl ym Mawrth 2012 yn ôl y galw ac fe'i diweddarwyd ym Mawrth 2013 a 2014.

**Egwyddor Tri: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.**

**Thema Allweddol: Proffesiynol a Threfnus**

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-15 yn nodi gwerthoedd y Cyngor a daeth y rheini'n rhan greiddiol o Weledigaeth y Cynllun Trawsnewid a'r Diwylliant Trawsnewid. Mae'r chwe thema allweddol yn sail i'r ffordd gorfforaethol o weithio a rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd llywodraethu da yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Mae'r Côt Lleol Llywodraethu Corfforaethol wedi ei ddiweddarau yn Hydref 2013.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad ynghyd â chynlluniau atodol.

Mae Pwyllgor Safonau gweithgar ac effeithiol wedi'i sefydlu ac fe adroddodd ar ei waith mewn adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Bu hanes o gwynion yn erbyn aelodau'r cyngor, yn aml gan aelodau eraill. Mae nifer y cwynion hyn wedi gostwng yn sylweddol iawn heb unrhyw gwynion a gadarnhawyd yn ystod y flwyddyn, a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at welliant mawr mewn safonau o fewn y cyngor sydd wedi arwain yn naturiol at ostyngiad mewn materion ymddygiad a chwynion yn cael eu codi.

**Egwyddor Pedwar: Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgrwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg.**

**Thema Allweddol: Arloesol, Uchelgeisiol ac Iach**

Mae'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gweithredol i Aelodau unigol yn cael dealltwriaeth draws yr Awdurdod ac fe ailgyhoeddwyd canllawiau ym mis Awst 2013. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei adolygu gan y rheolwyr yn yr hydref.

Yn 2012, cyflwynodd y Cyngor systemau newydd i sicrhau mynediad hawdd i bapurau a chofnodion y Cyngor ac o fis Mai 2013 mae aelodau a'r cyhoedd wedi cael budd llawn y mynediad at bapurau pwyllgor a'r wybodaeth gefndirol. Mae gan aelodau fynediad uniongyrchol i'r systemau electronig yn ystod y cyfarfodydd.

Cryfhawyd rôl y swyddogaeth sgriwini fel rhan o raglen waith y Comisiynwyr a chyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol ym mis Mai yn gosod allan y gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Roedd sgriwini hefyd yn destun Astudiaeth Gwella genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynnar yn 2013 a chynhaliodd y Cyngor hunanwerthusiad fel rhan o'r astudiaeth. Mae canlyniadau'r hunanwerthusiad yn dangos canfyddiad nad yw sgriwini eto'n cefnogi'n gadarnhaol y Cyngor a'i Wasanaethau. Bydd canlyniadau'r hunanwerthusiad yn cael ei ystyried yng nghyd-destun newidiadau a wnaed ers Mai 2013 a'r adroddiad a'r canllawiau cenedlaethol sydd i ddod. Ers Mehefin 2013 lleihawyd nifer y pwyllgorau sgriwini o bump i ddau ac mae effeithiolrwydd y newid yn cael ei adolygu. Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gweithio gyda Sgriwini er mwyn cyflwyno dull gweithio mwy corfforaethol, gyda'r bwriad bod Sgriwini yn ychwanegu gwerth i berfformiad gwasanaethau ac i'r Cyngor gyflawni ei amcanion. Mae grŵp gweithio wedi ei greu i adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgorau Sgriwini.

Bu trefniadau Rheoli Risg yn datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac fe ail-gadarnhawyd a mabwysiadu'n ffurfiol y polisiau a'r arweiniad ym mis Medi 2012. Parheir i fewnosod y trefniadau yn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol ond mae cynnydd yn araf. Mae adnoddau ychwanegol wedi eu hadnabod i gefnogi cynnydd.

Bu rheoli newid yn wan o fewn yr awdurdod a doedd rheoli prosiect ddim wedi ei sefydlu. Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd camau breision i ddatblygu fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect newydd ac i greu capasiti i gefnogi'r Cynllun Trawsnewid. Mae effeithiolrwydd y fframwaith yn cael ei adolygu.

Mae Pwyllgor Archwilio effeithiol yn ei le. Cwblhaodd y pwyllgor hunanasesiad yn ystod y flwyddyn gan adrodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau tryloyw a hygyrch ar gyfer delio gyda chwynion a daeth Polisi Pryderon a Chwynion newydd i rym yn Ebrill 2013 yn seiliedig ar y polisi safonol a ddatblygwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal profion sampl o gydymffurfiaeth ac mae adroddiad wedi ei gynhyrchu. Cafodd y meysydd gwasanaeth lle'r oedd diffyg cydymffurfio sylw yn gorfforaethol trwy Gynllun Gweithredu y cytunwyd arno. Roedd nifer y cwynion i'r Ombwdsmon unwaith eto yn gymharol isel, a dim un ohonynt wedi ei ymchwilio.

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi diweddarau ac ail-lansio ei Bolisi ar Rannu Pryderon i gydymffurfio â'r prawf cyfreithiol statudol newydd. Mae'r Polisi wedi cael mwy o amlygrwydd ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cydnabyddir bod diffygion, sef bod angen gweithdrefn ddogfenedig, mae angen i gynyddu ymwybyddiaeth / hyfforddiant ac i ddatblygu cronfa ddata gorfforaethol ganolog i ddal y wybodaeth a sicrhau ei bod yn cael ei dadansoddi a'i hadrodd yn briodol. Y bwriad yw y byddir yn hyfforddi cyn bo hir ar gyfer rheolwyr canol trwy'r Gynhadledd Rheolwyr Canol ac y bydd delio â chwynion datgelu camarfer yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant sgiliau ymchwilio sy'n cael ei drefnu ar hyn o bryd.

**Egwyddor Pump: Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.**

**Thema Allweddol: Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl**

Yn ystod y flwyddyn enillodd y Cyngor y Siartr Gymreig ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau a ddatblygwyd gan CLILC ac awdurdodau i gynnig canllaw, ysgogiad a chydabyddiaeth i awdurdodau sy'n dymuno cynnig lefel uchel o gefnogaeth i'w haelodau. Mae disgrifiadau swydd wedi bod yn eu lle i aelodau ers 2012 ac mae nifer o aelodau wedi cwblhau adolygiadau datblygu personol. Cyflwynwyd rhaglen gynefino i aelodau newydd o fis Mehefin 2013 ymlaen. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n goruchwyllo'r meysydd hyn ac y mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau. Mae disgrifiadau swydd / person ac adolygiadau datblygiad personol ar gyfer Aelodau etholedig bellach wedi cael eu hystyngiadau i gynnwys y saith aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau. Adolygwyd disgrifiadau swydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddar i roi ystyriaeth i faterion yn codi. O 2014, mae aelodau hefyd yn paratoi adroddiadau blynyddol unigol sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cwblhawyd Strategaeth Adnewyddu Ddemocrataidd yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd ym Mai 2013. Cyfrannodd y Strategaeth at gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn yr etholiad a'r canran a bleidleisiodd. Mae pryder o hyd am ddiffyg amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r aelodaeth.

Mae gennym Strategaeth Pobl a strategaethau ar gyfer Datblygu'r Gweithlu, Talent, a Chynllunio Olyniaeth ac mae gan y Cyngor achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Roedd rhaglen anwytho staff yn ei le i staff a rheolwyr trwy'r flwyddyn.

Bwriadwyd bod y cynllun corfforaethol ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol wedi ei sefydlu yn gadarnach yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys Uwch Reolwyr. Fel mae'n digwydd disgynnodd y raddfa cydymffurfiaeth yn is na'r blynyddoedd a fu, yn rhannol oherwydd newidiadau rheolwyr. Gosodwyd targed o 70% i sicrhau graddfa uwch yn ystod 2014-15. Mae trefniadau yn cael eu gwneud i dargedu hyfforddiant a datblygiad ar sail fwy cyson a gyda ffocws pendant, sydd â chysylltiad â'r broses werthuso, wrth i gyllidebau leihau.

O ganlyniad i'r flaenoriaeth a roddwyd i gwblhau'r prosiect Arfarnu Swyddi corfforaethol, roedd llai o gynnydd ar ddatblygu'r cynlluniau Adnoddau Dynol corfforaethol. Byddwn yn diweddarau'r strategaethau i gynnwys anghenion y Cynllun Trawsnewid a chanlyniadau'r arolwg staff.

Mae fforwm Rheolwyr Canol bywiog ac mae'r Clwb Sbardun yn cynnig sesiynau dysgu ac ysbrydoli sydd ar gael i'r holl staff. Fel rhan o weithgaredd y Cynllun Trawsnewid a gweithgaredd ymgysylltu â staff, rhoddwyd cyfle i unigolion ar draws yr awdurdod i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

**Egwyddor Chwech: Ymgysylltu gyda phobl leol a chydranddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.**

**Thema Allweddol: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**

Roedd y Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a baratowyd yn 2011 yn ei lle o hyd ac fe'i cefnogwyd gan y Canllawiau ar Ymgynghori ac Ymgysylltu â Staff. Mae'r strategaeth wedi dyddio bellach a bwriedir ei ddisodli gan Siartr Gofal Cwsmer ynghyd â'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol. Cyflawnwyd ymgynghori cyhoeddus effeithiol fel rhan o'r prosesau cynllunio corfforaethol a gosod y gyllideb, yn ogystal ag yn datblygu strategaethau ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol yn y dyfodol. O ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cronfa o ddinasyddion sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor fel ymgynghoreion yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Menter Môn drwy'r prosiect Lleisiau Lleol i wneud y gorau o gyfleoedd ymgynghori.

Mae trefniadau mewn lle ar gyfer ymgysylltu gyda grwpiau o gydranddeiliaid sy'n cynnwys Siartr Cynghorau Cymuned a Chompaact Sector Gwirfoddol.

Cynhaliodd y Cyngor arolwg o'i thrigolion yn 2012 ond mae bellach yn defnyddio canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael adborth ar sail gymharol yn flynyddol ar draws awdurdodau Cymru. Mae'r arolwg 2014 yn dangos bod 59% o ymatebwyr Ynys Môn yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae'r gyfradd hon yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn welliant sylweddol ar y llynedd (48%). Dangosodd yr arolwg fod ychydig yn fwy o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod y Cyngor yn dda am roi gwybod i bobl sut mae'n perfformio - hefyd yn well na'r cyfartaledd a chynnydd sylweddol ar y llynedd.

Mae trefniadau mewn grym i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol, rheoleiddwyr allanol a CLILC. Cryfhawyd y rhain yn ystod y cyfnodau diweddar o ymyrraeth ac mae angen eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu i'r dyfodol.

Roedd Strategaeth Gyfathrebu mewn grym ar gyfer y flwyddyn. Mae pedair rhan i'r strategaeth: Ymgysylltu a'r Dinesydd a'r Gymuned; Y Wasg; Brand y Cyngor; a Chyfathrebu Mewnol. Daeth Cyfathrebu Mewnol yn faes creiddiol i'w ddatblygu yn y Cynllun Trawsnewid.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio. O Mehefin 2014, mae aelodau unigol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol hefyd.

Denodd arolwg staff cyntaf y Cyngor ers rhai blynyddoedd gyfradd ymateb o 32% ac roedd y canlyniadau yn galonogol. O'r staff hynny a ymatebodd, mae'r rhan fwyaf (71%) yn falch o weithio i'r Cyngor ac 75% yn fodlon gyda'r Cyngor fel cyflogwr. Mae 89% o'r staff yn mwynhau eu gwaith y rhan fwyaf o'r amser a 85% yn fodlon ar eu swydd. Mae'r arolwg wedi amlygu bod angen gwaith ar bob lefel i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, i gyfathrebu ac ymgynghori yn well ar faterion pwysig sy'n effeithio ar staff ac i roi gwybod iddynt am benderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar Ynys Môn yn ei chyfarwydd.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer ymgysylltu â staff: gyda'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol, a chyfathrebu gyda staff yn gyffredinol trwy, er enghraifft fwletinau staff misol. Mae ymgynghori â rheolwyr a staff a chant eu cynnwys yn y penderfyniadau fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.

## **5 ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD**

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud a'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Trawsnewid;
- adolygiad o'r chwe thema sy'n sail gwerthoedd yr awdurdod;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGGCC a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglŷn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweiliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith.



Mae adolygiadau a monitro cyson yn golygu:

- gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, yn gyson efo'r cynllun archwilio mewnol, ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o wella perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Cymeradwyir y polisiâu allweddol, ac unrhyw addasiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysidir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd gweithdy Hunanasesiad Corfforaethol gan Uwch Aelodau a Swyddogion, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gwybodaeth arall. Byddwn yn ymgynghori ar ganlyniadau'r hunanasesiad a'i wneud ar gael i staff a cydranddeiliaid. Mae hefyd wedi llywio'r Datganiad hwn a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig.]

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio am farn ar effeithlonrwydd a chyflawnrwydd y fframwaith a sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r DLIB hwn cyn cyflwyno drafft terfynol yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio i'w gytuno.

## 6 MATERION LLYWODRAETHU O SYLWEDD

Gwnaed cynnydd rhagorol ar draws nifer o themâu llywodraethu yn ystod y flwyddyn gan arwain at Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn casglu y “bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15. Canfuwyd bod:

- “y Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol.”
- “bod gweithdrefnau mwy trylwyr a chyson a datblygu trefniadau llywodraethu wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau”; ac
- “os ydynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol, y dylai cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gynorthwyo gwelliannau ei helpu i ymateb i'r heriau ariannol a heriau eraill sydd i ddod.”

Hefyd gwnaethant y cynnig: “Er mwyn gwneud cynnydd a chyflawni amcanion y Cynllun Trawsnewid, dylai'r Cyngor:

- sicrhau digon o gapasiti, gallu a sefydlogrwydd yn ei wasanaeth cyllid corfforaethol; a
- nodi a gwella gwendidau o ran rheoli'r system cyfriflyfr ariannol.”

Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar y fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae'n nodi un adolygiad a wnaed yn ystod y flwyddyn a dderbyniodd raddfa sicrwydd “coch”. Mae'r adroddiad yn ymwneud â thaliadau credydwy'r a wnaed trwy'r system CIVICA newydd a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn, gan nodi rhai bylchau rheolaeth a rhywfaint o fethiannau cydymffurfio â rheolau. Rhoddwyd lefel sicrwydd o goch/amber ar adroddiadau ar ddwy system arall sy'n seiliedig ar CIVICA (dyledwyr a ledjer) am resymau tebyg. Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn nodi pump o feysydd lle y byddai gwendidau o sylwedd mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu'n rhesymol ar y systemau o reolaeth fewnol ar gyfer y systemau a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- Parhad Busnes;
- Rheoli Risg;
- Llywodraethu: cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol;
- Rheoli Gwybodaeth; a
- Chyflwyno Systemau, yn arbennig ynglŷn â chyflwyno systemau ariannol allweddol.

Gwnaed cynnydd da ar nifer o'r camau a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13 fel Materion Arwyddocaol:

- Rydym wedi sefydlu Byrddau Rhaglen Trawsnewid; Swyddfa Rheoli Rhaglen Corfforaethol a threfniadau llywodraethu cysylltiedig;
- Gwnaed cynnydd ar ddiogelwch data a rheoli asedau gwybodaeth, ond mae mwy eto i'w wneud;

ond mae cynnydd yn arafach ar gynllunio ar gyfer a chyflawni arbedion sydd eu hangen yn y Cyngor, er y cynnydd sy'n cael ei wneud yn awr.

Mae cynnydd hefyd yn arafach ar rai o'r meysydd eraill yn y Cynllun Gweithredu Llywodraethu ac Aswariant:

- Rheoli Risg, er bod y fframwaith wedi ei gytuno'n ffurfiol bellach;
- Parhad Busnes;
- Cydymffurfio efo polisïau corfforaethol allweddol;
- Systemau Gwybodaeth.

Adlewyrchir yr eitemau hyn yn adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn yr hunan asesiad neu yn yr AGB a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu am 2014-15.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a amlinellir uchod, ac yn benodol, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol; yr hunan asesiad corfforaethol, ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru mae'r materion canlynol wedi eu nodi fel y materion llywodraethu o sylwedd ynglŷn â chyflawni gweledigaeth yr awdurdod:

<b>Materion Llywodraethu o Sylwedd</b>	
<b>Mater</b>	<b>Gweithredu sydd wedi ei adnabod</b>
<i>Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen yn y Cyngor</i>	<i>Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion</i>  <i>Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor</i>  <i>Cyflwyno Polisi a Strategaeth Gomisïynu a Chaffael</i>
<i>Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain</i>	<i>Cwblhau'r cynllun gweithredu sydd wedi ei gytuno</i>  <i>Gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr ail-arolwg sydd ar y gweill ynghyd a'r ymateb i'w hadroddiad</i>
<i>Capasiti Gwasanaethau Corfforaethol</i>  <i>i gynnwys Cyllid, TGCh, Cyfraith, AD a sgrïwtini</i>	<i>Adolygu trefniadau cyfredol a'r rhai i'r dyfodol</i>  <i>Mae'r gwasanaethau yn drafftio "cynnig" y gwasanaethau corfforaethol i'w drafod ac er mwyn sicrhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth</i>
<i>Systemau Ariannol, yn benodol y system ledjer</i>	<i>Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno yn dilyn adolygiad ôl-gyflwyno</i>
<i>Rheoli Risg</i>	<i>Rhaglen o waith yn yr Hydref</i>
<i>Caffael</i>	<i>Rhaglen Gwella Caffael yn cael ei drefnu</i>
<i>Cydymffurfio gyda pholisïau corfforaethol allweddol</i>	<i>Adnabod y polisïau perthnasol</i> <i>Cytuno ffurf gorfforaethol ar gyfer y polisïau perthnasol</i> <i>Pennu system ar gyfer rheoli polisïau a chyfarwyddiadau gweithredu</i>

Mae cynllun gweithredu manwl ar gael ar wefan y Cyngor.

## 7 ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym wedi ein cyngori ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau **yn parhau i'w hystyried yn addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu ac aswariant yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

-----  
**Arweinydd y Cyngor**

**Dyddiad:**

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

-----  
**Prif Weithredwr**

**Dyddiad:**

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2013/2014

**Cyhoeddwyd:** Medi 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** C14216

### **Diben y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon ar ffurf ddrafft a ddarperir yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn cadarnhau cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt y'i darperir.

### **Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru a/neu'r Archwilydd Penodedig ac erys felly. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd o dan swyddogaethau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol a allai gael ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel y caniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyfarwyddwr Ymgysylltu perthnasol ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Lluniwyd y ddogfen hon gan PricewaterhouseCoopers LLP ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett. Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Lynn Pamment, Joe Hargreaves a Martin George o PricewaterhouseCoopers LLP.

# Cynnwys

---

Mae Anthony Barrett, fel yr Archwilydd Penodedig, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion y mae angen eich hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

---

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	5
Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	16

---

## Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	17
Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn	23
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt	25

---

# Adroddiad cryno

---

## Cyflwyniad

1. Mae Anthony Barrett, yn rhinwedd ei swydd fel yr Archwilydd Penodedig, yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. PricewaterhouseCoopers LLP sy'n gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y lefel feintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £2,343,000 . Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion i'w hystyried sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2013-14, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ar 30 Mehefin 2014 ac ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn roedd y canlynol heb eu cwblhau:
  - Cadarnhau'r addasiadau i brisiadau asedau
  - Gwaith ar ddarpariaeth ar gyfer hawliadau Cyflog Cyfartal ychwanegol
  - Asesu cynnydd mewn perthynas â Gwerthuso Swyddi
  - Llythyr cadarnhau manylion banc gan RBS
  - Gwaith ar drafodion partïon cysylltiedig
  - Gwaith ar y dadansoddiad segmentaidd
  - Gwaith ar ddatganiad llif arian parod
  - Gweithdrefnau cwblhau ac adolygu'r datganiadau ariannol terfynol

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon ar hynt y materion hyn ar lafar ar 23 Medi 2014.

7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol.



---

Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddog a.151 dros dro, Richard Micklewright.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

## Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

#### *Gwall wrth Gyfrifo dibrisiant*

DR Cost dibrisiant	£102,000
CR Dibrisiant cronedig	£102,000

Bu gwall o £633 mewn eitem o ddibrisiant a brofwyd, gan allosod y ffigur hwnnw i wall amcanestynedig o £102,000. Digwyddodd y gwall am fod yr oes economaidd ddefnyddiol a gymhwyswyd at ased o fewn y cyfrifiad dibrisio yn anghywir.

#### *Blaendaliadau*

DR Cost Gwasanaethau	£174,000
CR Blaendaliadau	£174,000

Bu gwall o £174,000 o achos blaendaliadau a gafwyd eu dwyn ymlaen o 2012/13 ond heb wedi'u gwrthdroi yn briodol ar ddechrau 2013/14.

### Camddatganiadau a gywirwyd

11. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

---

## Risgiau archwilio sylweddol

12. Yn ein Strategaeth Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol ac uwch a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny:

---

*Risgiau sylweddol*

Risgiau	Camau a gymerwyd
<b>Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli</b>	
<p><b>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</b> Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwnaethom ddeall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheoli mewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio. Gwnaethom adolygu a phrofi priodoldeb sampl o'r dyddlyfrau a broseswyd â llaw yn ystod y flwyddyn.</li><li>• Edrychwyd yn ofalus ar unrhyw amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac ystyriwyd a oedd unrhyw duedd yn perthyn iddynt.</li><li>• Gwnaethom ddeall y rhesymeg fusnes dros drafodion sylweddol yr ymddengys nad ydynt yn fusnes arferol.</li><li>• Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd yn cynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.</li></ul> <p>Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n profion hyd yma.</p>

## Risgiau

### Cydnabod refeniw a gwariant

Mae risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Rydym wedi nodi dwy risg yn benodol. Mae a wnelo'r gyntaf ag arian grant refeniw anghylchol, am ei bod yn bosibl na chaiff refeniw ei gydnabod yn unol â thelerau ac amodau ei broses ariannu pan fwriedir i'r grantiau hyn gael eu defnyddio ar gyfer rhaglenni penodol neu ddibenion untro.

Mae a wnelo'r ail â gwariant sy'n ymwneud â chostau nad ydynt yn gostau cyflogres a all gael eu cydnabod yn anghyflawn, yn anghywir neu yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir.

## Camau a gymerwyd

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- gwerthuso rheolaethau allweddol er mwyn cadarnhau ein dealltwriaeth o gynllun y rheolaeth;
- profi cysoniadau allweddol.
- profi incwm grant refeniw anghylchol er mwyn cadarnhau bod gan y Cyngor yr hawl i'w gynnwys yn ei ddatganiadau ariannol
- profi gwariant nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn briodol yn y cyfrifon.
- profi bod trafodion a ddigwyddodd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol yr oeddent yn berthnasol iddi.

Rydym wedi ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Gymdeithas ac wedi cynnal y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant er mwyn canfod unrhyw gamddatganiad perthnasol.

Rydym hefyd wedi ystyried y gwaith a wnaed gennym mewn perthynas â'r risg y gallai rheolwyr anwybyddu rheolaethau (gweler uchod). Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n gwaith.

---

## Risgiau uwch

Risgiau	Camau a gymerwyd
<b>Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol</b>	
<p><b>Eiddo, offer a chyfarpar</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a ddelir ar y Fantolen yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r swm cario yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Nodwyd yn flaenorol addasiadau archwilio ynghylch asedau na chawsant eu prisio'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn nad ydynt wedi'u haddasu ar sail amherthnasedd. Mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol.</p>	<p>Gwnaethom ystyried dull y Cyngor o asesu a chyfiawnhau'r prisiad o'i eiddo, offer a chyfarpar ar 31 Mawrth 2014 ac ystyried pa un a oedd yn ddigonol ac yn briodol. Gwnaethom ofyn i'n harbenigwyr prisio mewnol ystyried cadernid tybiaethau ac amcangyfrifon allweddol rheolwyr.</p> <p>O ganlyniad i'n gwaith, gwnaed rhai diwygiadau i'r datganiadau ariannol (gweler isod ac atodiad 3).</p>
<p><b>Rhwymedigaeth pensiynau</b></p> <p>Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor rwymedigaeth net berthnasol o ran ei rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen.</p> <p>Nodwyd gwallau yn nata'r cyfrifiad a oedd yn sail i'r ffigur ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn net yng nghyfrifon y Cyngor yn 2012/13 o ganlyniad i fethiant y Cyngor i ddarparu digon o wybodaeth, yn amserol, am symudiadau cyflogeion a newidiadau mewn rolau i gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd.</p>	<p>Gwnaethom asesu dull y Cyngor o asesu ei rwymedigaeth pensiwn net ar 31 Mawrth 2014 a phrofi cywirdeb a chyflawnder data sylfaenol y cyfrifiad a ddarparwyd i'r cynllun pensiwn.</p> <p>O ganlyniad i'n gwaith, gwnaethom nodi nifer o anghysondebau yn nata'r cyfrifiad a oedd yn sail i'r rhwymedigaeth pensiwn net. Mae ein gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a gall arwain at ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol (gweler isod). Nododd y Cyngor hefyd wall yn adroddiad yr actiwari, ac ailgyflwynodd yr actiwari ei adroddiad yn sgil hynny, gan addasu'r rhwymedigaeth pensiwn o £11.6m (gweler atodiad 3).</p>

## Risgiau

### Darpariaeth cyflog cyfartal a Gwerthuso Swyddi

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor ddarpariaeth berthnasol ar ei fantolen o ran nifer o hawliadau Cyflog Cyfartal y mae wedi cyfrifo y bydd angen iddo, o bosibl, eu setlo. Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno eto i hawlwr.

At hynny, mae'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad o gyflogau a graddau fel rhan o'i ymarfer Gwerthuso Swyddi. Yn seiliedig ar y graddau y gallai rhwymedigaeth godi i ôl-ddyddio unrhyw wahaniaethau cyflog a thalu iawndal i staff, mae'n bosibl y bydd angen i'r Cyngor wneud darpariaeth bellach ar gyfer hyn.

## Camau a gymerwyd

Gwnaethom asesu effaith cynigion i hawlwr ar gyfer Cyflog Cyfartal a wnaed gan y Cyngor ar ei ddarpariaeth yn ogystal â nodi hawliadau eraill a wnaed yn ystod y cyfnod cyfamserol.

Gwnaethom nodi camddatganiadau o ganlyniad i'n gwaith yn y maes hwn (gweler isod ac atodiad 3).

Gwnaethom asesu cynnydd y Cyngor wrth gynnal yr adolygiad o gyflogau a graddau a pha un a oedd angen rhwymedigaeth o ganlyniad i hyn.

Mae ein gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a gall arwain at ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol (gweler isod).

## Risgiau eraill

13. Gwnaethom hefyd nodi dwy risg arall y dylid rhoi sylw iddynt wrth ystyried y risgiau archwilio sylweddol ac uwch a nodwyd uchod.

## Risgiau

**Paratoi cyfrifon:** Cafodd anawsterau o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar broses llunio cyfrifon y Cyngor yn 2009/10 a 2010/11. Llwyddodd staff interim profiadol i gwblhau'r gwaith erbyn y terfynau amser yn 2011/12 a 2012/13. Fodd bynnag, mae dau aelod o staff interim profiadol a oedd yn cyflawni rolau cyfrifyddu allweddol wedi gadael y Cyngor. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicrhau bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

## Camau a gymerwyd

Gwnaethom weithio'n agos gyda'r rheolwyr er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed wrth baratoi a llunio cyfrifon 2013/14. Llwyddodd y staff i gydymffurfio â'r terfynau amser perthnasol.

Mae gennym bryderon o hyd ynghylch y ddibyniaeth ar staff dros dro o fewn y tîm cyllid ac rydym wedi nodi hyn isod.

Risgiau	Camau a gymerwyd
<p><b>Rhoi system cyfriflyfr cyffredinol newydd (Civica) ar waith:</b> Rhoddwyd system cyfriflyfr cyffredinol newydd ar waith ar 1 Ebrill 2013. Bydd cywirdeb a chyflawnder datganiadau ariannol 2013/14 yn dibynnu ar y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol a balansau terfynol ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cael eu cario ymlaen yn gywir ac yn gyflawn.</p>	<p>Gwnaethom gynnal gwaith er mwyn cadarnhau bod y balansau terfynol ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'u cario ymlaen yn gywir ac ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau.</p> <p>Nodwn fod Archwilwyr Mewnol y Cyngor wedi hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am faterion yn ymwneud â gweithredu Civica, yn enwedig mewn perthynas â nodi taliadau dyblyg a wnaed, a rhoi hawliau estynedig i staff y Cyngor godi neu gymeradwyo anfonebau er mwyn clirio ôl-groniadau blaenorol. Nid ydym wedi ailadrodd eu canfyddiadau yn yr adroddiad hwn. Nodwn ein bod wedi gwneud gwaith pellach i asesu a oedd yr hawliau mynediad hyn wedi'u defnyddio'n briodol.</p> <p>Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n gwaith.</p>

## Amcangyfrifon arwyddocaol

- Yn ystod ein harchwiliad ymgymerwyd â gweithdrefnau penodol mewn perthynas â meysydd sy'n destun risg o ran amcangyfrif.

## Prisiadau asedau sefydlog

- Ailbrisiodd y Cyngor gyfran o'i bortffolio asedau sefydlog fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2014 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu i ailbrisio asedau bob pum mlynedd. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar gadernid y cyfrifiadau a wnaed gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad.
- Ar gyfer yr asedau a ailbrisiwyd yn ffurfiol gan y Cyngor, nodwyd camddatganiad o £55k yng ngwerth Eiddo Buddsoddi yn seiliedig ar wall yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ei gyfrifiad. Nodwn fod gwall tebyg wedi codi yn y flwyddyn flaenorol.
- Nodwyd camddatganiad ychwanegol o ganlyniad i asesiad gan brisiwr y Cyngor nad oedd nifer o asedau wedi'u dosbarthu'n Eiddo Buddsoddi mwyach. Dilëwyd y rhain o werth asedau Eiddo Buddsoddi'r Cyngor, ond ni chawsant eu hychwanegu at categorïau eraill o asedau sefydlog yn dilyn hynny. Y gostyngiad net mewn eiddo buddsoddi oedd £429k a bu cynnydd o £794k mewn perthynas ag eiddo, offer a chyfarpar.
- Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer mynegeio er mwyn canfod pa un a yw gwerth y categorïau sylweddol hynny o dir ac eiddo nas prisiwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 wedi'u cam-ddatgan mewn ffordd berthnasol. Nid oedd ymarfer o'r fath wedi'i gynnal gan y Cyngor pan roddwyd y Datganiadau drafft o Gyfrifon i'r tîm archwilio.

- 
19. Gwnaethom herio'r Cyngor i ddarparu tystiolaeth nad oedd gwerth y categorïau sylweddol hynny o dir ac eiddo nas prisiwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi'u cam-ddatgan mewn ffordd berthnasol. O ganlyniad, cynhaliodd priswyr y Cyngor ailbrisiadau ffurfiol o'r mwyafrif o'u hasedau tir ac eiddo. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn gwerth asedau sefydlog o £7.3m o ganlyniad i ailbrisiadau ffurfiol. Diwygiwyd hyn yn y datganiadau ariannol.
  20. At hynny, o ganlyniad i'r ymarfer ailbrisiu, nodwyd nad oedd rhan o'r eiddo yn Ysgol David Hughes wedi'i throsglwyddo i system cofrestr asedau bresennol y Cyngor pan gafodd ei chyflwyno, gan olygu bod gwerth yr ysgol wedi'i danddatgan tua £2.8m. Diwygiwyd hyn yn y datganiadau ariannol.
  21. Yn ystod y flwyddyn flaenorol nodwyd bod y Cyngor yn defnyddio dull Beacon o brisio ei stoc tai cyngor, sy'n cynnwys dewis nifer o eiddo 'beacon' sy'n nodweddiadol o gategorïau neu haenau gwahanol o dai cymdeithasol, eu prasio, ac yna gymhwyso'r gwerth hwn at bob haen yn ei thro.
  22. Er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng tai preifat a thai cymdeithasol (fel anheddau cyngor) lle mae gan denantiaid lawer mwy o hawliau, mae dull Beacon yn defnyddio ffactor addasu.
  23. Ar adeg y prisiad ffurfiol diwethaf, nid oedd data ar gael ar y ffactorau addasu ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ranbarth cymharol (Swydd Efrog a Humberside) a chymhwysodd y ffactor addasu hwn, sef 31%.
  24. Cyhoeddwyd papur ymchwil gan DVS (arbenigwyr prasio yn y sector cyhoeddus) ym mis Ebrill 2011 a nododd wybodaeth ddangosol am ffactorau addasu ar gyfer rhanbarthau Cymru, a'r ffactor a roddwyd ar gyfer Gogledd a Gogledd-ddwyrain Cymru oedd 39%. Fodd bynnag, nid yw'r papur hwn wedi'i gynnwys mewn unrhyw ganllawiau ffurfiol hyd yma.
  25. Byddai newid o 1% yn y ffactor addasu a gymhwyswyd yn cael effaith berthnasol ar werth anheddau cyngor. Felly ystyriodd y Cyngor yn ofalus pa ffactor addasu y dylid ei gymhwyso, gan ddod i'r casgliad na fu'r papur ymchwil yn destun ymgynghori a dilysu digonol i allu dibynnu arno fel sail ar gyfer gwneud newid mor sylweddol yn ei ddatganiad o gyfrifon. Felly, mae wedi cadw'r ffactor addasu presennol, sef 31% ond mae wedi tynnu sylw darllenwyr at y papur ymchwil yn ei ddatganiad o gyfrifon gan nodi y gallai arwain at newid sylweddol yng ngwerth anheddau'r cyngor yn y dyfodol o tua £3m fesul 1% o wahaniaeth. Rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol.

### Rhwymedigaethau cyflog cyfartal

26. Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur 'Gytundeb Statws Sengl'. Fel rhan o ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, rhoddodd y cytundeb rwymedigaeth ar awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, gan fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol.
27. Mae'r Cyngor wedi cael hawliadau cyflog cyfartal yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chafodd ragor o hawliadau yn ystod 2013/14. Mae'r rheolwyr wedi asesu amlygiad



---

posibl y Cyngor i hawliadau er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r hawliadau cyfreithiol hyn.

28. Yn ystod 2013/14, cafodd nifer o'r hawliadau hyn eu setlo gan y Cyngor a chafodd taliadau iawndal eu gwneud. Cronnwyd taliadau iawndal a wnaed ar ôl diwedd y flwyddyn. Cyfanswm y taliadau iawndal a'r croniadau a wnaed oedd £3.3m.
29. Ni ddilëwyd gwerth taliadau iawndal na chroniadau o'r balans ar gyfer y ddarpariaeth bresennol yn y cyfrifon drafft. Mae hyn bellach wedi'i gywiro.
30. Roedd gan y Cyngor hefyd gronfa wrth gefn ar gyfer Ôl-groniadau Cyflog Anghyfartal gwerth £1.9m a sefydlwyd yn 2011/12 er mwyn gohirio effaith darparu ar gyfer hawliadau Cyflog Cyfartal ar Gronfa'r Cyngor hyd nes y câi'r hawliadau eu setlo. Ni ryddhaodd y Cyngor y gronfa wrth gefn er mwyn effeithio ar Gronfa'r Cyngor pan gafodd yr hawliadau eu setlo yn ystod 2013/14, felly cynigiwyd addasiad i'r perwyl hwn. Bwriad y Cyfarwyddyd Cyfalafu a roddwyd gan Lywodraeth Cymru oedd lliniaru'r addasiad £1.9m hwn yn unig, yn hytrach na'r £3.3m yr oedd y Cyngor wedi rhoi cyfrif amdano, felly gwnaed addasiad pellach er mwyn dwygio ar gyfer hyn.
31. Ar ôl gwneud taliadau iawndal, cafodd y Cyngor tua 200 o hawliadau Cyflog Cyfartal pellach. Ni ddarparwyd ar gyfer yr hawliadau hyn yn y Datganiad o Gyfrifon drafft. Gwnaethom herio'r rheolwyr ynglŷn â hyn, a gwnaethant gytuno i ddarparu ar gyfer y 200 o hawliadau ychwanegol a gafwyd (gweler atodiad 3) gwerth £1.9m.
32. Rydym wedi cynnal profion trylwyr ar y cyfrifiadau a wnaed gan y rheolwyr ac wedi trafod yr amcangyfrif gyda'r swyddog a151. Mae ein gwaith mewn perthynas â dyfarniadau allweddol o fewn cyfrifiad y ddarpariaeth yn mynd rhagddo a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor archwilio am ganlyniad y gwaith hwn yn y cyfarfod ar 23 Medi 2014.

### Gwerthuso swyddi

33. Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal ei ymarfer Gwerthuso Swyddi, ond nid yw eto wedi gallu rhoi asesiad manwl o'i rwymedigaethau posibl sy'n deillio o'r gofyniad i gyflwyno system cyflogau a graddau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2007.
34. Mae sgoriau Gwerthuso Swyddi sy'n gysylltiedig â swyddi wedi cael eu rhoi i Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor, sydd wedi ymateb i nifer o gwestiynau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Nid yw sgoriau Gwerthuso Swyddi wedi cael eu rhoi i aelodau unigol o staff eto, nac wedi eu cysylltu â system cyflog a graddio newydd.
35. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Cyngor gydnabod rhwymedigaeth berthnasol mewn perthynas â'r ymarfer hwn. Mae ganddo gronfa wrth gefn o £2.4m a neilltuwyd i ariannu'r costau a ragwelir. Gan nad yw'r Cyngor wedi cynnig system cyflogau a graddau newydd eto ac nad yw wedi cyfrifo maint unrhyw rwymedigaethau posibl i dalu ôl-gyflog, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â'r ymarfer gwerthuso swyddi er bod rhwymedigaeth wrth gefn wedi'i ddatgelu.

- 
- 36.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn rhan o drafodaethau sy'n mynd rhagddynt â'r undebau llafur i fodelu strwythur cyflogau a graddau newydd. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

### Darpariaeth gwastraff

- 37.** Mae'r Cyngor wedi cadw darpariaeth o £2.7m yn y datganiad o gyfrifon mewn perthynas â chostau ôl-ofal ar ran o safle gwastraff Penhesgyn a gapiwyd. Mae prisiad y ddarpariaeth hon yn deillio o asesiad amgylcheddol arbenigol a gynhaliwyd yn 2008 ac asesiad y Cyngor yn seiliedig ar gostau ôl-ofal parhaus. Mae'r asesiad yn rhagamcanu costau ôl-ofal dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer y safle cyfan. Mae'r costau hyn, sef costau refeniw, yn rhai gofynnol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol ac felly darperir ar eu cyfer yn gywir.
- 38.** Rydym wedi cynnal rhywfaint o waith dadansoddi sensitifrwydd, disgowntio yn seiliedig ar y costau a nodwyd yn yr asesiad amgylcheddol arbenigol a'r rheini a brofwyd gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, gan gymhwyso nifer o ragdybiaethau o ran cyfradd ddisgowntio a chwyddiant er mwyn rhoi amrywiaeth o werthoedd posibl o ran darpariaeth. Rydym yn fodlon bod darpariaeth y Cyngor yn dod o fewn amrediad rhesymol o amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddisgowntio.

### Pensiynau

- 39.** Mae gan y Cyngor rwymedigaeth pensiwn net o ganlyniad i'w rwymedigaethau i aelodau o'r cynllun pensiwn presennol, ac mewn perthynas â chyfran y Cyngor o rwymedigaethau cynllun pensiwn blaenorol Cyngor Sir Gwynedd. Rhoddir gwybodaeth am y rhwymedigaethau hyn i'r Cyngor gan ei actiwariaid, Hymans Robertson, mewn dau adroddiad ar wahân. Fodd bynnag, rhoddodd Hymans Robertson wybodaeth anghywir i'r Cyngor i gychwyn. Nodwyd hyn gan y Cyngor yn dilyn hynny, a chafwyd gwybodaeth newydd gan Hymans Robertson gan arwain at ostyngiad o £11.6m yn rhwymedigaeth pensiwn y Cyngor a cholled actiwaraid cysylltiedig. Addaswyd hyn yn y Datganiad o Gyfrifon.
- 40.** Yn ystod archwiliad 2012/13, ar ôl profi cywirdeb a chyflawnder data aelodaeth a ddarparwyd i'r cynllun pensiwn, nodwyd bod y data aelodaeth a ddefnyddiwyd gan yr actwari yn anghywir, gan arwain at ddiwygiad o £2m i rwymedigaeth pensiwn net y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, rydym wedi cynnal rhagor o brofion ar y data aelodaeth a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ac wedi nodi nifer o wahaniaethau o gymharu â'r data a ddelir gan y Cyngor mewn perthynas â dyddiad dechrau cyflogaeth a chyflogau pensiynadwy cyflogeion.
- 41.** Os yw'r data a ddelir gan y Cyngor a'r hyn a ddefnyddir gan yr actiwari'n wahanol iawn, mae'n bosibl bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud addasiad perthnasol mewn perthynas â'i rwymedigaethau pensiwn. Mae ein gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Medi 2014.

---

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

42. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisiau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datganiadau'r datganiadau ariannol yn ddiuedd, yn deg ac yn glir.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Mae un mater arall sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano.**

Mae'r ddibyniaeth ar staff dros dro ar gyfer nifer o swyddi allweddol yn nhîm cyllid y Cyngor wedi parhau. Mae hyn wedi parhau i roi pwysau ar y tîm cyllid i lunio fersiwn ddrafft derfynol o'r Datganiad o Gyfrifon sy'n cydymffurfio â Chod CIPFA mewn pryd ar gyfer y pwyllgor archwilio. Mae'n hanfodol bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod gan y tîm cyllid ddigon o adnoddau medrus, priodol yn y dyfodol.

Nodwyd dau wall perthnasol yn ystod ein gwaith maes archwilio a nifer o wallau amherthnasol pellach (gweler Atodiad 3). Gallai'r materion hyn fod wedi cael eu nodi drwy adolygiad manylach wrth baratoi'r cyfrifon.

Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol eraill yn y rheolaethau ond rydym wedi nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaethau. Caiff y rheolwyr eu hysbysu am y rhain ar wahân.

- **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- Fel nodir uchod, mae'r Archwilwyr Mewnol y Cyngor wedi hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am faterion yn ymwneud â gweithredu Civica, yn enwedig mewn perthynas â nodi taliadau dyblyg a wnaed, a rhoi hawliau estynedig i staff y Cyngor godi neu gymeradwyo anfonebau er mwyn clirio ôl-groniadau blaenorol.

Nodom hefyd gwendidau yn y llwybr archwilio yn sgil defnyddwyr yn postio dyddlyfrau â llaw i fewn i'r cyfrifyfr. Ni nododd ein profion unrhyw faterion dadleuol mewn trafodion perthnasol

a ymgymrwyd tra bo'r hawliau mynediad estynedig wedi'u caniatáu, fodd bynnag, rydym yn ystyried bod yr amgylchedd rheoli wedi gwanhau yn ystod y cyfnod hwn.

Nodwyd ein gwaith maes, fod cais twyllodrus i newid manylion banc un o gyflenwyr y Cyngor wedi dod i law ac wedi'i weithredu yn ystod y flwyddyn.

---

Gwnaed taliad o tua £0.3m i'r manylion banc anghywir fel rhan o fusnes arferol y Cyngor. Fodd bynnag, ataliwyd y trafodyn gan fancwyr y Cyngor a hysbyswyd y Cyngor amdano. Cysylltodd y Cyngor â'r cyflenwr yn dilyn hynny a gadarnhaodd nad oedd wedi gwneud unrhyw gais i ddiwygio ei fanylion banc. Deallwn fod Archwilwyr Mewnol y Cyngor bellach yn ymchwilio i'r mater.

- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

43. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
44. Mae PwC yn darparu gwasanaethau ardystio grantiau i'r Cyngor, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chodir taliadau blynyddol o tua £160,000 am hynny.
45. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydb berthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

## Materion eraill

46. Yn ein cynllun archwilio a gyflwynwyd i chi ym mis Ebrill, nodwyd ein perthnasedd cyffredinol arfaethedig a ddefnyddiwyd gennym wrth gynllunio'r strategaeth archwilio cyffredinol, yn seiliedig ar Ddatganiad o Gyfrifon 2012/13. Gwnaethom amrywio ein perthnasedd i £2.3m yn seiliedig ar Ddatganiad o Gyfrifon drafft 2013/14 a dderbyniwyd gan y tîm archwilio ym mis Gorffennaf.

# Atodiad 1

---

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Penodedig  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

[Dyddiad]

## Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2013/14

Cyflwynir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/03/2014 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt a pha un a ydynt wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi gael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol. Rydym yn cadarnhau bod yr atodiad i'r llythyr hwn yn cynnwys rhestr gyflawn o bartïon cysylltiedig y Cyngor. Datgelwyd pob achos o drosglwyddo adnoddau, gwasanaethau a rhwymedigaethau rhwng y Cyngor a'r partïon hyn i chi, ni waeth pa un a chodwyd tâl am hynny ai peidio. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bartïon cysylltiedig eraill, na thrafodion rhwng partïon cysylltiedig a ddatgelwyd.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi nodi pob rheolwr allweddol i chi, fel y diffinnir gan IAS 24, ac wedi cynnwys eu cydnabyddiaeth yn y datgeliadau o gydnabyddiaeth rheolwyr allweddol.

Ar sail y cynnydd a wnaed hyd yma, ar hyn o bryd ni allwn asesu ein rhwymedigaethau posibl o ran ôl-gyflog mewn perthynas â'r ymarfer Gwerthuso Swyddi.

Mae'r ddarpariaeth 'Arall' (a gynhwysir mewn perthynas â hawliadau Cyflog Cyfartal) yn seiliedig ar ein hamcangyfrif gorau o'r rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o setlo'r hawliadau hyn, ac ystyriwyd pob hawliad a datblygiad o dan gyfraith achosion gymwys yr ydym yn ymwybodol ohoni. Rydym yn cadarnhau bod y Cyngor yn bwriadu ceisio setlo'r hawliadau hyn y tu allan i driwlynlys ac mai dim ond i'r hawlwyd hynny sydd â hawliad dilys ym marn y Cyngor y caiff setliadau eu cynnig, ac mae wedi gwneud darpariaeth yn y datganiadau o gyfrifon ar eu cyfer yn unol â hynny.

Rydym yn cadarnhau ein bod yn fodlon bod y ffigurau a roddwyd mewn perthynas ag Asedau Sefydlog ac Eiddo Buddsoddi yn y Datganiadau o Gyfrifon yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o werth yr asedau hynny a bod y dulliau prisio a ddefnyddiwyd yn briodol.

Mae'r rhagdybiaethau sylfaenol a'r data ar aelodaeth a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd y cynllun pensiwn yn briodol i Gyngor Sir Ynys Môn.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymglyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

#### *Gwall wrth Gyfrifo dibrisiant*

DR Cost dibrisiant £102,000

CR Dibrisiant cronodig £102,000

Bu gwall o £633 mewn eitem o ddibrisiant a brofwyd, gan allosod y ffigur hwnnw i wall amcanestynedig o £102,000. Digwyddodd y gwall am fod yr oes economaidd ddefnyddiol a gymhwyswyd at ased o fewn y cyfrifiad dibrisio yn anghywir.

#### *Blaendaliadau*

DR Cost Gwasanaethau £174,000

CR Blaendaliadau £174,000

Bu gwall o £174,000 o achos blaendaliadau a gafwyd eu dwyn ymlaen o 2012/13 ond heb wedi'u gwrthdroi yn briodol ar ddechrau 2013/14.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod y gwallau yn y flwyddyn flaenorol wedi'u nodi a'u meintioli'n gywir.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau na bwriadau a allai newid gwerth cario a lle y bo'n gymwys fesuriadau neu ddsbarthiadau gwerth teg asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol mewn ffordd berthnasol.

Mae gan y Cyngor hawl foddhaol i'r holl asedau ac nid oes unrhyw hawlrywmau na llyffetheiriau ar asedau'r awdurdod, ac eithrio'r rhai a ddatgelir yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cynnal adolygiadau priodol o leihad mewn gwerth, gan gynnwys asesu pryd y dylid cynnal adolygiadau o'r fath, os nad ydynt yn orfodol. Rydym yn cadarnhau ein bod wedi defnyddio'r tybiaethau priodol gyda'r adolygiadau hynny. Adolygwyd buddsoddiadau'r Cyngor mewn perthynas â lleihad mewn gwerth ac adlewyrchir unrhyw leihad mewn gwerth o'r fath yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny.

Mae'r Cyngor yn fodlon nad yw'r tâl dibrisiant yn y cyfrifon wedi'i gam-ddatgan mewn ffordd berthnasol o ganlyniad i'w ddull o gydranoli.

Lle rydym wedi pennu gwerthoedd teg ar gyfer offerynnau ariannol, rydym yn cadarnhau bod y technegau prisio, y mewnbynnau i'r technegau hynny a'r tybiaethau a wnaed yn briodol ac yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, a'u bod yn unol â'r amgylchedd busnes rydym yn gweithredu ynddo.

Mae'r Cyngor wedi cofnodi neu ddatgelu, fel y bo'n briodol, bob rhwymedigaeth, gwirioneddol ac wrth gefn, ac wedi datgelu yn y datganiadau ariannol bob gwarant a



roddwyd gennym i drydydd partiön, gan gynnwys gwarantau ar lafar a wnaed gan yr awdurdod ar ran cyswllt, aelod, swyddog neu unrhyw drydydd parti arall.

Mae'r holl fuddiannau ymdeol sylweddol y mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'w darparu, gan gynnwys unrhyw drefniadau sy'n statudol, yn gytundebol neu'n ymhlyg yng ngweithrediadau'r awdurdod, pryd bynnag y byddant yn codi, pa un a gânt eu hariannu neu eu cymeradwyo ai peidio, wedi'u nodi a chyfrif priodol wedi'u rhoi amdanynt a/neu eu bod wedi'u datgelu. Rydym yn cadarnhau ein bod wedi rhoi gwybod i chi am unrhyw gynlluniau buddiannau cyflogeion y mae cyflogeion y Cyngor yn rhan ohonynt.

Gwnaed darpariaeth lawn ar gyfer yr holl rwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen gan gynnwys gwarantau, ymrwymadau (yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau dileu swyddi) a chynlluniau wrth gefn lle y disgwylir i'r eitemau arwain at golled sylweddol. Mae'r cyfryw eitemau eraill, lle nad oes angen darpariaeth yn fy marn i, wedi'u datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, yn unol â gofynion IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn), bod datganiadau ariannol yr Awdurdod yn cynnwys amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaethau posibl sy'n ddyledus sy'n deillio o'r hawliadau cyflog cyfartal a ddygwyd yn erbyn y Cyngor.

Mae'r holl drefniadau cytundebol (gan gynnwys llythyrau sy'n egluro neu'n addasu telerau cytundebau) y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y cofnodion cyfrifyddu neu, lle maent yn berthnasol (neu gallent fod yn berthnasol) i'r datganiadau ariannol, wedi'u datgelu i chi.

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion trethiant pob gwlad rydym yn gweithredu ynddi ac wedi dwyn i gyfrif bob rhwymedigaeth am drethiant sy'n ddyledus i'r awdurdodau treth perthnasol p'un a yw'n ymwneud â threth gorfforaeth, unrhyw dreth uniongyrchol arall neu unrhyw drethi anuniongyrchol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio a fyddai'n esgor ar rwymedigaethau ychwanegol ar ffurf cosb neu log ac rydym wedi datgelu'n llawn unrhyw ymholiadau neu ymchwiliadau gan yr Awdurdod Refeniw rydym yn ymwybodol ohonynt neu sy'n mynd rhagddynt.

Wrth reoli materion treth y Cyngor, rydym wedi ystyried unrhyw ddarpariaethau arbennig megis prisio trosglwyddiadau, capio dyledion, datgelu achosion o osgoi treth a deddfwriaeth reoledig cwmnïau tramor fel y'u cymhwysir mewn awdurdodaethau treth gwahanol.



## Sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni. Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 26 Medi 2014.

Llofnodwyd gan:

[Swyddog sy'n llofnodi ar ran rheolwyr]

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

[Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (cyfarwyddwr yn unig yn achos cwmnïau)]

Dyddiad:

## Related parties

### *Welsh Government*

Welsh Government has significant influence over the general operations of the Authority in respect of providing the statutory framework within which the Authority operates, providing the majority of funding in the form of revenue and capital grants, revenue support grant and NNDR. Further details regarding grant income received and due can be found in Note 37 to the Accounts, whilst details of revenue support grant received and NNDR Pool transactions are summarised in Note 14 to the Accounts.

### *Precepting bodies*

These are set out in Note 12 to the Accounts.

### *Members*

Members of the council have direct control over the Authority's financial and operating policies. The total of members allowances paid in 2013/2014 is shown in Note 33 to the Accounts.

Members have declared interests in contracts, or in organisations, which may have dealings with the Council, in the Statutory Register of Members' Interests. Details of transactions with these entities are disclosed in Note 38 to the accounts.

### *Chief Officers*

Details of chief officers' emoluments are provided in Note 34 to the accounts.

### *Pension Contributions*

Employer's contributions are made to the Teachers' Pension Agency and the Gwynedd Pension Fund in respect of the Authority's employees. Further details of amounts involved are given in Notes 40 and 41 to the Accounts.

### *Menter Môn Cyfyngedig*

The Council is a member of Menter Môn Cyf, and was one out of a total of 3 members at 31 March 2014.

### *Cwmni Cynnal Cyf*

This company was established jointly by Ynys Môn and Gwynedd Councils on local government reorganisation. It provides education support services under contract to maintained schools and to the local education authorities and schools inspection services to Estyn.

### *Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf*

Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf is a Local Council Waste Disposal Company established jointly by predecessors of the Anglesey and Gwynedd Councils in 1994. The two Councils decided to close the company down during 2007/08 and to undertake the work in-house. The relevant operational assets and liabilities and the staff were transferred to the Council in January 2008.

### *Other Bodies*

The Authority is a member of the Welsh Joint Education Committee - WJEC CBAC Limited and the Welsh Local Government Association (WLGA).

The Council also acts as trustee for a number of trust funds, including the Isle of Anglesey Charitable Trust, Welsh Church Fund and Anglesey Further Education Trust. Details of transactions with these entities are disclosed in Note 38 and 39 to the accounts.

## Atodiad 2

---

### Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn

#### Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/03/2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

#### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

#### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

#### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31/03/2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

O ran y Datganiad Llywodraethu, cyflwynaf adroddiad i chi os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

### **Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### **[Archwilydd Penodedig**

**Cyfeiriad**

**Dyddiad]**

## Atodiad 3

### Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

	Natur y cywiriad	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Dr	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cr	BS Dr	BS Cr
		£'000	£'000	£'000	£'000
1	<p>DR Darpariaethau CR Croniadau CR Gwariant Cost Gwasanaethau DR Cronfa Gyffredinol (MiRS) CR CAA (MiRS)</p> <p>Cafodd nifer o rwymedigaethau mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal a wnaed yn erbyn y Cyngor eu setlo yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14. Gwnaed darpariaeth ar gyfer unrhyw setliadau a ddeilliodd o'r hawliadau hyn yn y cyfrifon mewn blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, ni ddangoswyd y taliadau yn glir yn erbyn y ddarpariaeth bresennol fel y dylid bod wedi ei wneud ac roedd y modd yr ymdriniwyd â'r taliadau a wnaed yn amhriodol.</p>	3,731	431 3,300	3,300	3,300
2	<p>DR Darpariaethau CR Gwariant Cost Gwasanaethau</p> <p>Gwnaed darpariaeth gan y rheolwyr ar gyfer gosod cwlfert newydd yn lle un a oedd wedi'i ddifrodi'n rhannol ar safle tirlenwi Penhesgyn. Fodd bynnag, gan y byddai unrhyw waith adnewyddu yn cael ei gyfalafu fel ased seilwaith, nid oes unrhyw ofyniad i wneud darpariaeth o'r fath yn y datganiadau ariannol. Mae'r</p>		2,000	2,000	

	Cyngor wedi sefydlu cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer y balans hwn.				
3	DR Cronfa gyffredinol CR Cronfa cyflog anghyfartal wrth gefn DR Cyfrif Addasu Cyfalaf CR Cronfa gyffredinol Sefydlwyd cronfa cyflog anghyfartal wrth gefn gan y Cyngor yn 2011/12 er mwyn ei alluogi i ohirio effaith darparu ar gyfer hawliadau Cyflog Cyfartal yn erbyn y Cyngor ar y gronfa gyffredinol hyd nes y câi'r hawliadau eu setlo Gan fod nifer o hawliadau sy'n fwy na'r gwerth hwn wedi'u setlo bellach, dylai'r gronfa cyflog anghyfartal wrth gefn fod wedi'i gwrthdroi. Dylid lleddfu effaith hyn ar y gronfa gyffredinol drwy gymhwyso Cyfarwyddyd Cyfalafu'r Awdurdod			1,935 1,935	1,935 1,935
4	DR Gwariant Cost Gwasanaethau CR Darpariaethau DR Cyfrif Addasu Cyfalaf CR Cronfa Gyffredinol Ar ôl setlo nifer o rwymedigaethau mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal a wnaed yn erbyn y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14, cafwyd hawliadau ychwanegol nas darparwyd ar eu cyfer eto. Mae'r addasiad yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth a amcangyfrifwyd gan gynghorydd adnoddau dynol y Cyngor ac a awgrymwyd gan gwmsler cyfreithiol.	1,438		1,438	1,438 1,438
5	DR Cyfrifon derbyniadwy CR Cyfrifon taladwy Mae'r Cyngor wedi cofnodi nifer o gyfrifon grant derbyniadwy a balansau taladwy yn yr un cyfrif yn y cyfriflyfr cyffredinol, gan arwain at gyflwyniadau net yn y datganiadau ariannol drafft. Ni ddylid cyflwyno symiau fel cyfanswm net, ond fel cyfrifon derbyniadwy a balansau taladwy ar wahân.			1,337	1,337
6	DR Eiddo, offer a chyfarpar CR Eiddo deallusol CR Colled ar ailbrisio eiddo		365	794	429

	deallusol  Nodwyd gwall yn y broses brisio ar gyfer eiddo deallusol, gan arwain at leihad mewn gwerth eiddo buddsoddi a throsglwyddo i eiddo, offer a chyfarpar.				
7	DR Incwm Cost Gwasanaethau CR Gwariant Cost Gwasanaethau Sef cywiro'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer cost ac incwm Treth Gyngor a gofnodwyd yn anghywir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.	5,083	5,083		
8	DR Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn CR Eiddo, offer a chyfarpar Sef dileu'r cynnydd ailbrisio a gydnabuwyd mewn perthynas ag elfen Ased Cymunedol Ynys Llanddwyn fel gwerth a gynhwyswyd eisoes mewn Asedau Treftadaeth ac felly a gafodd ei gyfrif ddwywaith			147	147
9	DR Rhwymedigaeth Pensiwn CR Colled Actiwaraid Sef addasu'r rhwymedigaeth pensiwn net ar ôl dileu'r cyfrif dwbl mewn perthynas â chyfran Cyngor Sir Ynys Môn o'r rhwymedigaethau a ariannwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd wedi cau.		11,607	11,607	
10	DR Incwm Gros CR Gwariant Gros Sef dileu taliadau a ailgodwyd yn fewnol nad oeddent wedi'u codio'n briodol i godau taliadau a ailgodir yn fewnol.	1,346	1,346		
11	DR Arian parod ac arian cywerth CR Credydwyr Sef aiddosbarthiad o sieciau a godwyd yn ddyblyg yn 2013/14 ond eu canslo yn 2014/15.			122	122
12	DR Eiddo, offer a chyfarpar CR Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn Sef y cynydd yn y gwerthoedd tir ac adeiladau, a chydabod y ganolfan hamdden yn Ysgol David Hughes yn sgil yr ymarfer ailbrisio diweddarach.			10,083	10,083
	<b>Cyfanswm</b>	<b>11,612</b>	<b>24,132</b>	<b>34,712</b>	<b>22,192</b>

Nid oes unrhyw effaith net ar Gronfa'r Cyngor o ran yr hyn a gyflwynwyd yn y Datganiad o Gyfrifon drafft.





Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD

## PUBLIC INTEREST TEST

### Strwythur Gwasanaethau TG / IT Services Structure

<p>Paragraff(au) 13 a 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972          Paragraph(s) 13 and 14 Schedule 12A Local Government Act 1972          [un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]</p>	
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Nid yw'r wybodaeth o fewn yr adroddiad ei hun yn cyfiawnhau eithrio cau allan y wasg, ac mae yna fudd i'r cyhoedd o ran sicrhau tryloywder mewn perthynas â sut mae busnes y Cyngor yn cael ei drefnu a'r strwythur y mae'n ei fabwysiadu wrth ddarparu ei wasanaethau.</p> <p>The information within the report does not, of itself, justify an exclusion of the press and public and there is a public interest in ensuring transparency in relation to how Council business is organised and the structure it adopts in discharging its services.</p>	<p>Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid disgwyl yn rhesymol iddo arwain at drafod unigolion a enwir neu unigolion y mae modd eu hadnabod. Gallai trafodaeth o'r fath mewn fforwm cyhoeddus fod yn achos o dorri cyfrifoldebau contractyddol y Cyngor tuag at ei staff a gellid cymryd camau cyfreithiol yn ei gylch.</p> <p>The report contains information which might reasonably be expected to result in discussion of named or identifiable individuals. Such discussion in a public arena may constitute an actionable breach of the Council's contractual obligations to its staff.</p>
<p><b>Argymhelliad</b> - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]  <b>Recommendation</b> - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank